18.	Ffrwythau <i>Citrus</i> L., <i>Fortunella</i> Swingle neu <i>Poncirus</i> Raf., ac eithrio ffrwythau <i>Citrus aurantium</i> L. neu <i>Citrus latifolia</i> Tanaka, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad, ac eithrio'r Ariannin, Brasil, De Affrica neu Uruguay	<p>Rhaid i'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag <i>Phyllosticta citricarpa</i> (McAlpine) Van der Aa yn unol ag ISPM Rhif 4, ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig am hynny yn flaenrol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol;</p> <p>(b) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag <i>Phyllosticta citricarpa</i> (McAlpine) Van der Aa yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif</p>



(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd “Additional declaration” ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig am hynny yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol;</p> <p>(c) eu bod:</p> <p>(i) yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn fan sy'n rhydd rhag <i>Phyllosticta citricarpa</i> (McAlpine) Van der Aa yn unol ag ISPM Rhif 10, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd “Additional declaration”; a</p> <p>(ii) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag symptomau <i>Phyllosticta citricarpa</i> (McAlpine) Van der Aa gan arolygiad swyddogol o sampl gynrychioliadol a ddiffiniwyd yn unol ag ISPM Rhif 31;</p> <p>(d) eu bod yn tarddu o safle cynhyrchu fu'n destun:</p> <p>(i) triniaethau a mesurau meithrin priodol i atal <i>Phyllosticta citricarpa</i> (McAlpine) Van der Aa; a</p> <p>(ii) cynhaliwyd arolygiadau swyddogol yn y safle cynhyrchu yn ystod y tymor tyfu ers dechrau'r cylch llystyfiant diweddaraf, ac ni chanfuwyd unrhyw symptomau <i>Phyllosticta citricarpa</i> (McAlpine) Van der Aa yn y ffrwythau; a</p> <p>(iii) y canfuwyd bod y ffrwythau a gynaeafwyd o'r safle cynhyrchu hwnnw yn rhydd rhag symptomau <i>Phyllosticta citricarpa</i> (McAlpine) Van der Aa yn ystod arolygiad</p>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>swyddogol, cyn allforio, o sampl gynrychioliadol, a ddiffiniwyd yn unol ag ISPM Rhif 31; a</p> <p>(iv) sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch olrheiniadwyedd; neu</p> <p>(e) yn achos ffrwythau sydd i'w hanfon i greu sudd drwy brosesu diwydiannol yn yr Undeb Ewropeaidd:</p> <p>(i) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag symptomau <i>Phyllosticta citricarpa</i> (McAlpine) Van der Aa cyn eu hallforio yn ystod arolygiad swyddogol o sampl gynrychioliadol a ddiffiniwyd yn unol ag ISPM Rhif 31;</p> <p>(ii) eu bod yn tarddu o safle cynhyrchu a oedd yn destun triniaethau priodol i atal <i>Phyllosticta citricarpa</i> (McAlpine) Van der Aa ar adegau priodol ac a grybwyllwyd ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration";</p> <p>(iii) eu bod yn ddarostyngedig i drwydded a roddir o dan erthygl 40(1) o'r Gorchymyn hwn sy'n awdurdodi eu symud o fewn Cymru a, phan fo'n gymwys, eu prosesu a'u storio yng Nghymru;</p> <p>(iv) eu bod yn cael eu cludo mewn pecynnau unigol sy'n dwyn label sy'n cynnwys cod olrheiniadwyedd ac sy'n dangos bod y ffrwythau i'w hanfon i'w prosesu'n ddiwydiannol; a</p> <p>(v) sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch olrheiniadwyedd</p>
19.	Ffrwythau <i>Citrus</i> L., <i>Fortunella</i> Swingle neu <i>Poncirus</i> Raf., ac eithrio ffrwythau <i>Citrus aurantium</i> L. neu <i>Citrus latifolia</i> Tanaka, sy'n tarddu	<p>Rhaid i'r ffrwythau:</p> <p>(a) dod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion</p>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
	o'r Ariannin, Brasil, De Affrica neu Uruguay ac nad ydynt i'w hanfon i greu sudd drwy brosesu diwydiannol yn unig	<p>cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag <i>Phyllosticta citricarpa</i> (McAlpine) Van der Aa yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio, ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig am hynny yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol;</p> <p>(b) yn achos ffrwythau sy'n tarddu o Frasil, dod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional Declaration" eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthyglau 4 a 7 o Benderfyniad (EU) 2016/715;</p> <p>(c) yn achos ffrwythau sy'n tarddu o Dde Affrica neu Uruguay, dod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthyglau 5 a 7 o Benderfyniad (EU) 2016/715;</p> <p>(d) yn achos ffrwythau sy'n tarddu o'r Ariannin, dod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional Declaration" eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthyglau 5a a 7 o Benderfyniad (EU) 2016/715</p>
20.	Ffrwythau <i>Citrus</i> L., <i>Fortunella</i> Swingle neu <i>Poncirus</i> Raf., ac eithrio ffrwythau <i>Citrus aurantium</i> L. neu <i>Citrus latifolia</i> Tanaka, sy'n tarddu o'r Ariannin, Brasil, De Affrica neu Uruguay ac sydd i'w hanfon i greu sudd drwy brosesu diwydiannol yn unig	<p>Rhaid i'r ffrwythau:</p> <p>(a) dod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(i) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag <i>Phyllosticta citricarpa</i> (McAlpine) Van der Aa yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif</p>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig am hynny yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol; neu eu bod:</p> <p>(ii) eu bod:</p> <p>(aa) yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn fan sy'n rhydd rhag <i>Phyllosticta citricarpa</i> (McAlpine) Van der Aa yn unol ag ISPM Rhif 10, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"; a</p> <p>(bb) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag symptomau <i>Phyllosticta citricarpa</i> (McAlpine) Van der Aa gan arolygiad swyddogol o sampl gynrychioliadol a ddiffiniwyd yn unol ag ISPM Rhif 31;</p> <p>(b) yn achos ffrwythau a gyflwynir i'r Undeb Ewropeaidd o dan y rhanddirymiad a bennir yn Erthygl 8 o Benderfyniad (EU) 2016/715, rhaid iddynt:</p> <p>(i) dod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" yn unol ag Erthyglau 9(1) a 10 o Benderfyniad (EU) 2016/715 a'r wybodaeth a bennir yn</p>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>Erthygl 9(2) o'r Penderfyniad hwnnw;</p> <p>(ii) bod wedi eu pecynnu a'u labelu yn unol ag Erthygl 17 o'r Penderfyniad hwnnw; a</p> <p>(iii) bod yn ddarostyngedig i drwydded a roddir o dan erthygl 40(1) o'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi eu symud o fewn Cymru a, phan fo'n gymwys, eu prosesu a'u storio yng Nghymru</p>
21.	<p>Ffrwythau <i>Citrus</i> L., <i>Fortunella</i> Swingle neu <i>Poncirus</i> Raf., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Tephritidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd) yn bresennol ar y ffrwythau hynny</p>	<p>Rhaid i'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Tephritidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd);</p> <p>(b) na welwyd unrhyw arwyddion Tephritidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd) yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn cynaeafu, ac nad oes unrhyw un o'r ffrwythau a gynaeafwyd yn y man cynhyrchu wedi dangos, mewn archwiliad swyddogol priodol, arwyddion Tephritidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd);</p> <p>(c) y dangoswyd eu bod, mewn archwiliad swyddogol priodol o samplau cynrychioliadol, yn rhydd rhag Tephritidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd) ym mhob cam o'u datblygiad; neu</p> <p>(d) y bu'r ffrwythau yn destun triniaeth briodol, unrhyw driniaeth gwres anwedd, triniaeth oer, neu driniaeth rhewi'n gyflym sy'n dderbyniol ac y dangoswyd ei bod yn effeithiol yn erbyn Tephritidae (heb fod yn rhai Ewropeaidd) heb niweidio'r ffrwythau, neu, pan na fo ar gael, triniaeth gemegol i'r graddau y bo'n dderbyniol o dan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd</p>

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
22.	Ffrwythau <i>Capsicum</i> (L.) Citrus L., ac eithrio <i>Citrus limon</i> (L.) Osbeck, neu <i>Citrus aurantii-fofia</i> (Christm.) Swingle, <i>Prunus persica</i> (L.) Batsch neu <i>Punica granatum</i> L., sy'n tarddu o unrhyw wlad ar gyfandir Affrica, Cape Verde, Saint Helena, Madagasgar, La Reunion, Mauritius neu Israel	<p>Rhaid i'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag <i>Thaumatotibia leucotreta</i> (Meyrick) yn unol ag ISPM Rhif 4;</p> <p>(b) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag <i>Thaumatotibia leucotreta</i> (Meyrick) yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration";</p> <p>(c) eu bod:</p> <p>(aa) yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn fan sy'n rhydd rhag <i>Thaumatotibia leucotreta</i> (Meyrick) yn unol ag ISPM Rhif 10; a</p> <p>(bb) yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw fel y dangosir gan arolygiadau swyddogol a gynhelir yn y man cynhyrchu ar adegau priodol yn ystod y tymor tyfu, a oedd yn cynnwys archwiliad gweledol o samplau cynrychioliadol o'r ffrwythau, ac sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch olrheiniadwyedd; neu</p> <p>(d) yn achos ffrwythau fu'n destun triniaeth oer effeithiol neu unrhyw driniaeth effeithiol arall i sicrhau eu bod yn rhydd rhag <i>Thaumatotibia leucotreta</i> (Meyrick) yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig amdani yn flaenorol gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol, y buont yn destun triniaeth o'r fath, ac sy'n cynnwys data'r driniaeth</p>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
23.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Amelanchier</i> Med., <i>Chaenomeles</i> Lindl., <i>Cotoneaster</i> Ehrh., <i>Crataegus</i> L., <i>Cydonia</i> Mill., <i>Eriobotrya</i> Lindl., <i>Malus</i> Mill., <i>Mespilus</i> L., <i>Photinia davidiana</i> (Dcne.) Cardot, <i>Pyracantha</i> Roem., <i>Pyrus</i> L. neu <i>Sorbus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol bod y planhigion yn y cae cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos sydd wedi dangos symptomau <i>Erwinia amylovora</i> (Burr.) Winsl. et al. wedi eu symud ymaith
24.	Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, <i>Citrus</i> L., <i>Fortunella</i> Swingle neu <i>Poncirus</i> Raf., neu blanhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, <i>Persea</i> spp. neu Strelitziaceae, sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o wlad y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Radopholus citrophilus</i> Huettel et al. a <i>Radopholus similis</i> (Cobb) Thorne; neu (b) y bu samplau cynrychioliadol o bridd a gwreiddiau o'r man cynhyrchu yn destun, ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, brofion nematolegol swyddogol ar gyfer o leiaf <i>Radopholus citrophilus</i> Huettel et al. a <i>Radopholus similis</i> (Cobb) Thorne ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny
25.	Planhigion, ac eithrio ffrwythau ond gan gynnwys hadau, <i>Aegle</i> Corrêa, <i>Aeglopsis</i> Swingle, <i>Afraegle</i> Engl., <i>Atalantia</i> Corrêa, <i>Balsamocitrus</i> Stapf, <i>Burkillanthus</i> Swingle, <i>Calodendrum</i> Thunb., <i>Choisya</i> Kunth, <i>Clausena</i> Burm. f., <i>Limonia</i> L., <i>Microcitrus</i> Swingle, <i>Murraya</i> J. Koenig ex L., <i>Pamburus</i> Swingle, <i>Severinia</i> Ten., <i>Swinglea</i> Merr., <i>Triphasia</i> Lour. neu <i>Vepris</i> Comm., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad; neu hadau <i>Citrus</i> L., <i>Fortunella</i> Swingle neu <i>Poncirus</i> Raf., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag <i>Candidatus Liberibacter</i> spp., sef cyfrwng achosol clefyd Huanglongbing ffrwythau sitrws/ gwyrddu ffrwythau sitrws
26.	Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau <i>Casimiroa</i> La Llave, <i>Choisya</i> Kunth, <i>Clausena</i> Burm. f., <i>Murraya</i> J. Koenig ex L., <i>Vepris</i> Comm, <i>Zanthoxylum</i> L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o wlad lle y gwyddys nad yw <i>Triozia erytrae</i> Del Guercio yn bresennol;

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>(b) eu bod yn tarddu o ardal sy'n rhydd rhag <i>Trioza erytrae</i> Del Guercio, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"; neu</p> <p>(c) eu bod wedi eu tyfu mewn man cynhyrchu:</p> <p>(i) sydd wedi ei gofrestru ac sy'n cael ei oruchwylio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni;</p> <p>(ii) lle gosodwyd y planhigion mewn safle sydd wedi ei ddiogelu yn llwyr yn ffisegol rhag cyflwyno <i>Trioza erytrae</i> Del Guercio; a</p> <p>(iii) lle y cynhaliwyd dau arolygiad swyddogol ar adegau priodol yn ystod y cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf cyn eu symud o'r safle, ac na welwyd unrhyw arwyddion o'r pla planhigion hwnnw yn y safle hwnnw neu yn yr ardal oddi amgylch hyd at o leiaf 200m o led</p>
27.	<p>Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, <i>Aegle</i> Corrêa, <i>Aeglopsis</i> Swingle, <i>Afraegle</i> Engl., <i>Amyris</i> P. Browne, <i>Atalantia</i> Corrêa, <i>Balsamocitrus</i> Stapf, <i>Choisya</i> Kunth, <i>Citropsis</i> Swingle a Kellermen, <i>Clausena</i> Burm. f., <i>Eremocitrus</i> Swingle, <i>Esenbeckia</i> Kunth., <i>Glycosmis</i> Corrêa, <i>Limonia</i> L., <i>Merrillia</i> Swingle, <i>Microcitrus</i> Swingle, <i>Murraya</i> J. Koenig ex L., <i>Naringi</i> Adans., <i>Pamburus</i> Swingle, <i>Severinia</i> Ten., <i>Swinglea</i> Merr., <i>Tetradium</i> Lour., <i>Toddalia</i> Juss., <i>Triphasia</i> Lour, <i>Vepris</i> Comm. neu</p>	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o:</p> <p>(a) gwlad lle y gwyddys nad yw <i>Diaphorina citri</i> Kuway yn bresennol; neu</p> <p>(b) ardal sy'n rhydd rhag <i>Diaphorina citri</i> Kuway, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4, a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"</p>



(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
	<i>Zanthoxylum</i> L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	
28.	Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, <i>Microcitrus</i> Swingle, <i>Naringi</i> Adans. neu <i>Swinglea</i> Merr., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag <i>Xanthomonas citri</i> pv. <i>citri</i> a <i>Xanthomonas citri</i> pv. <i>aurantifolii</i> yn unol ag ISPM Rhif 4, ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig amdani gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol; neu (b) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag <i>Xanthomonas citri</i> pv. <i>citri</i> a <i>Xanthomonas citri</i> pv. <i>aurantifolii</i> yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd yn ysgrifenedig amdani gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol
29.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Crataegus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod <i>Phyllosticta solitaria</i> Ell. ac Ev. Yn bresennol	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau <i>Phyllosticta solitaria</i> Ell. ac Ev. ar blanhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
30.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Cydonia</i> Mill., <i>Fragaria</i> L., <i>Malus</i> Mill., <i>Prunus</i> L., <i>Pyrus</i> L., <i>Ribes</i> L. neu <i>Rubus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol ar y genera a ganlyn: — ar <i>Fragaria</i> L.: — <i>Phytophthora fragariae</i> Hickman, var. <i>fragariae</i> , — Firws amryliw <i>Arabis</i> , — Firws crwn mafon,	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan y plâu planhigion a restrir yng nghlofn 2 o'r eitem hon ar y planhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
	<ul style="list-style-type: none"> <li>— Firws crych mefus,</li> <li>— Firws crwn cudd mefus,</li> <li>— Firws minfelyn ysgafn mefus,</li> <li>— Firws crwn du tomatos, neu</li> <li>— <i>Xanthomonas fragariae</i> Kennedy a King;</li> <li>— ar <i>Malus</i> Mill.:</li> <li>— <i>Phyllosticta solitaria</i> Ell. Ac Ev.;</li> <li>— ar <i>Prunus</i> L.:</li> <li>— Mycoplasm crychni'r dail clorotig bricyll, neu</li> <li>— <i>Xanthomonas arboricola</i> pv. <i>pruni</i> (Smith) Vauterin <i>et al</i>;</li> <li>— ar <i>Prunus persica</i> (L.) Batsch:</li> <li>— <i>Pseudomonas syringae</i> pv. <i>persicae</i> (Prunier <i>et al.</i>) Young <i>et al.</i>;</li> <li>— ar <i>Pyrus</i> L.:</li> <li>— <i>Phyllosticta solitaria</i> Ell. Ac Ev.;</li> <li>— ar <i>Rubus</i> L.:</li> <li>— Firws amryliw berwr,</li> <li>— Firws crwn mafon,</li> <li>— Firws crwn cudd mefus, neu</li> <li>— Firws crwn du tomatos; neu</li> <li>— pob rhywogaeth:</li> <li>— firysau heb fod yn rhai Ewropeaidd neu organeddau sy'n debyg i firysau</li> </ul>	
31.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Cydonia</i> Mill. neu <i>Pyrus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Mycolpasma dirywiad gellyg yn bresennol	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol bod planhigion yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos sydd wedi dangos symptomau sy'n codi amheuan ynghylch halogi gan Fycoplasma dirywiad gellyg wedi eu clirio o'r man hwnnw o fewn y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
32.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Fragaria</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol: <ul style="list-style-type: none"> <li>— Firws "C" cudd mefus,</li> <li>— Firws bandio gwythiennau mefus, neu</li> <li>— Mycoplasm ysgub y gwrachod mefus</li> </ul>	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: <ol style="list-style-type: none"> <li>(a) bod y planhigion, ac eithrio'r rhai a dyfwyd o hadau: <ol style="list-style-type: none"> <li>(i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n</li> </ol> </li> </ol>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; neu</p> <p>(ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; a</p> <p>(b) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan y plâu planhigion a restrir yng ngholofn 2 o'r eitem hon ar blanhigion yn y man cynhyrchu, neu ar blanhigion yn ei gyffiniau agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf</p>
33.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Fragaria</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod <i>Aphelenchoides besseyi</i> Christie yn bresennol	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) na welwyd unrhyw symptomau <i>Aphelenchoides besseyi</i> Christie ar blanhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu</p> <p>(b) yn achos planhigion mewn meithriniad meinwe, bod y planhigion yn deillio o blanhigion a oedd yn cydymffurfio â pharagraff (a) neu fod profion swyddogol wedi eu cynnal arnynt drwy ddulliau nematolegol priodol a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Aphelenchoides besseyi</i> Christie</p>
34.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Fragaria</i> L., a fwriedir ar gyfer	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o ardal y

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
	eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Anthonomus signatus</i> Say ac <i>Anthonomus bisignifer</i> (Schenkling)
35.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Malus</i> Mill., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol ar <i>Malus</i> Mill.: — Firws rathellddail ceirios (Americanaidd), neu — Firws crwn tomatos	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod: (i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; neu (ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; neu (b) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan y plâu planhigion a restrir yng ngholofn 2 o'r eitem hon ar blanhigion yn y man cynhyrchu, neu ar blanhigion yn ei gyffiniau agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
36.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Malus</i> Mill., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod <i>Mycoplasm</i> ymlediad afalau yn bresennol	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Mycoplasm</i> ymlediad afalau; neu

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>(b) ac eithrio planhigion a dyfwyd o hadau, eu bod:</p> <p>(i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Mycoplasm ymlediad afalau gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; neu</p> <p>(ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y chwe chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Mycoplasm ymlediad afalau gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd, yn y profion hynny, ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; a</p> <p>(iii) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan Fycoplasma ymlediad afalau ar blanhigion yn y man cynhyrchu, neu ar blanhigion yn ei gyffiniau agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf</p>
37.	<p>Planhigion, ac eithrio hadau, o'r rhywogaethau <i>Prunus</i> L. a ganlyn, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firws brech eirin yn bresennol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— <i>Prunus amygdalus</i> Batsch,</li> <li>— <i>Prunus armeniaca</i> L.,</li> </ul>	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) ac eithrio'r planhigion a dyfwyd o hadau, eu bod:</p> <p>(i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio</p>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
	<ul style="list-style-type: none"> <li>— <i>Prunus blireiana</i> Andre,</li> <li>— <i>Prunus brigantina</i> Vill.,</li> <li>— <i>Prunus cerasifera</i> Ehrh.,</li> <li>— <i>Prunus cistena</i> Hansen,</li> <li>— <i>Prunus curdica</i> Fenzl a Fritsch.,</li> <li>— <i>Prunus domestica</i> spp. <i>domestica</i> L.,</li> <li>— <i>Prunus domestica</i> spp. <i>Insititia</i> (L.) C.K. Schneid.,</li> <li>— <i>Prunus domestica</i> spp. <i>Italica</i> (Borkh.) Hegi.,</li> <li>— <i>Prunus glandulosa</i> Thunb.,</li> <li>— <i>Prunus holosericea</i> Batal.,</li> <li>— <i>Prunus hortulana</i> Bailey,</li> <li>— <i>Prunus japonica</i> Thunb.,</li> <li>— <i>Prunus mandshurica</i> (Maxim.) Koehne,</li> <li>— <i>Prunus maritima</i> Marsh.,</li> <li>— <i>Prunus mume</i> Sieb a Zucc.,</li> <li>— <i>Prunus nigra</i> Ait.,</li> <li>— <i>Prunus persica</i> (L.) Batsch,</li> <li>— <i>Prunus salicina</i> L.,</li> <li>— <i>Prunus sibirica</i> L.,</li> <li>— <i>Prunus simonii</i> Carr.,</li> <li>— <i>Prunus spinosa</i> L.,</li> <li>— <i>Prunus tomentosa</i> Thunb.,</li> <li>— <i>Prunus triloba</i> Lindl., neu rhywogaethau eraill <i>Prunus</i> L. sy'n dueddol o gael Firws brech eirin</li> </ul>	<p>drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Firws brech eirin gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; neu</p> <p>(ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Firws brech eirin gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; a</p> <p>(b) na welwyd unrhyw symptomau'r clefydau a achosir gan Firws brech eirin ar blanhigion yn y man cynhyrchu, neu ar blanhigion yn ei gyffiniau agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu</p> <p>(c) bod planhigion yn y man cynhyrchu sydd wedi dangos symptomau clefydau a achosir gan firysau eraill neu bathogenau sy'n debyg i firysau wedi eu clirio</p>
38.	<p>Planhigion <i>Prunus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firws crwn tomatos yn bresennol ar <i>Prunus</i> L.;</li> <li>— ac eithrio hadau, sy'n tarddu o</li> <li>— unrhyw drydedd wlad lle y</li> <li>— gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol:</li> <li>— Firws rhathellddail ceirios (Americanaidd),</li> </ul>	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod:</p> <p>(i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion perthnasol yng ngholofn 2</p>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
	<ul style="list-style-type: none"> <li>— Firws amryliw eirin gwlanog (Americanaidd),</li> <li>— Rickettsia ffug eirin gwlanog,</li> <li>— Mycoplasm roséd eirin gwlanog,</li> <li>— Mycoplasm melynau eirin gwlanog,</li> <li>— Firws patrwm llinellog eirin (Americanaidd), neu</li> <li>— Mycoplasm clefyd-X eirin gwlanog;</li> <li>— ac eithrio hadau, sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop lle y gwyddys bod pathogen Ceirios bychan yn bresennol</li> </ul>	<p>o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; neu</p> <p>(ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion perthnasol a restrir yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny;</p> <p>a</p> <p>(b) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan y plâu planhigion perthnasol a restrir yng ngholofn 2 o'r eitem hon ar y planhigion yn y man cynhyrchu, neu ar blanhigion yn ei gyffiniau agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf</p>
39.	<p>Planhigion <i>Rubus L.</i>, a fwriedir ar gyfer eu plannu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol ar <i>Rubus L.</i>:</li> <li>— Firws crwn tomatos,</li> <li>— Firws cudd mafon duon,</li> <li>— Firws crychni dail ceirios, neu</li> <li>— Firws crwn necrotig eirinwydd</li> <li>— ac eithrio hadau, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol:</li> <li>— Firws deildro mafon (Americanaidd), neu</li> <li>— Firws rathellddail ceirios (Americanaidd)</li> </ul>	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion perthnasol yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; neu</p> <p>(b) eu bod yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf,</p>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf y plâu planhigion perthnasol yng ngholofn 2 o'r eitem hon gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny; ac</p> <p>(c) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan y plâu planhigion perthnasol yng ngholofn 2 o'r eitem hon ar blanhigion yn y man cynhyrchu, neu ar blanhigion yn ei gyffiniau agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf</p>
40.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L. sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod <i>Synchytrium endobioticum</i> (Schilbersky) Percival yn bresennol	Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Synchytrium endobioticum</i> (Schilbersky) Percival (pob hil ac eithrio Hil 1, sef yr hil Ewropeaidd gyffredin) ac na welwyd unrhyw symptomau <i>Synchytrium endobioticum</i> (Schilbersky) Percival yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau cyfnod digonol
41.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L. sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o wlad y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Clavibacter michiganensis</i> spp. <i>sepedonicus</i> (Spieckermann a Kottoff) Davis et al.
42.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L., ac eithrio tatws cynnar, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firoid y gloronen bigfain yn bresennol	Rhaid i'r gyneddf egin fod wedi ei hatal yn y cloron
43.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol: <p>(a) eu bod yn tarddu o gae y gwyddys ei fod yn rhydd rhag <i>Globodera rostochiensis</i> (Wollenweber) Behrens a <i>Globodera pallida</i> (Stone) Behrens;</p> <p>(b) eu bod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi et al. yn bresennol; ac</p>



(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>(c) eu bod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw <i>Meloidogyne chitwoodi</i> Golden et al. (pob poblogaeth) a <i>Meloidogyne fallax</i> Karssen yn bresennol; neu</p> <p>(d) mewn ardaloedd lle y gwyddys bod <i>Meloidogyne chitwoodi</i> Golden et al. (pob poblogaeth) a <i>Meloidogyne fallax</i> Karssen yn bresennol:</p> <p>(i) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag <i>Meloidogyne chitwoodi</i> Golden et al. (pob poblogaeth) a <i>Meloidogyne fallax</i> Karssen yn seiliedig ar arolwg blynyddol o'r cnydau cynhaliol drwy gynnal arolygiad gweledol o'r planhigion cynhaliol ar adegau priodol a thrwy arolygiad gweledol allanol a thrwy dorri'r cloron ar ôl eu cynaeafu o gnydau tatws a dyfwyd yn y man cynhyrchu; neu</p> <p>(ii) bod y cloron, ar ôl cynaeafu, wedi eu hapsamplu a, naill ai wedi eu gwirio am bresenoldeb symptomau ar ôl defnyddio dull priodol i achosi symptomau, neu wedi bod yn destun profion labordy, yn ogystal ag arolygiad gweledol allanol a thrwy dorri'r cloron, ar adegau priodol ac ym mhob achos ar adeg selio'r pecynnau neu'r cynwysyddion cyn eu marchnata yn unol â'r darpariaethau ynghylch selio yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2002/56/EC ar farchnata tatws hadyd, ac na chanfuwyd unrhyw symptomau <i>Meloidogyne chitwoodi</i> Golden et al. (pob poblogaeth) neu <i>Meloidogyne fallax</i> Karssen</p>
44.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L., ac eithrio'r rhai a fwriedir ar gyfer	Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o ardal lle y

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
	eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	gwyddys nad yw <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi et al. yn bresennol
45.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L. sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o: (a) gwlad lle y gwyddys nad yw <i>Scrobipalopsis solanivora</i> Povolny yn bresennol; neu (b) ardal sy'n rhydd rhag <i>Scrobipalopsis solanivora</i> Povolny, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4
46.	Planhigion, ac eithrio hadau, Solanaceae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Mycoplasma stolbur tatws yn bresennol	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau Mycoplasma stolbur tatws ar y planhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
47.	Planhigion Solanaceae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio cloron <i>Solanum tuberosum</i> L. neu hadau <i>Solanum lycopersicum</i> L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firoid y gloron bigfain yn bresennol	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau Firoid y gloron bigfain ar blanhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
48.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Capsicum annuum</i> L., <i>Solanum lycopersicum</i> L., <i>Musa</i> L., <i>Nicotiana</i> L. neu <i>Solanum melongena</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi et al. yn bresennol	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o ardal y canfuwyd ei bod yn rhydd rhag <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi et al.; neu (b) na welwyd unrhyw symptomau <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi et al. ar y planhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
49.	Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, <i>Solanum lycopersicum</i> L. neu <i>Solanum melongena</i> L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag <i>Keiferia lycopersicella</i> (Walsingham) yn unol ag ISPM Rhif 4; neu (b) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag <i>Keiferia lycopersicella</i> (Walsingham) yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"</p>
50.	<p>Ffrwythau <i>Solanum lycopersicum</i> L. neu <i>Solanum melongena</i> L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad</p>	<p>Rhaid i'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) eu bod yn tarddu o wlad y cydnabyddir ei bod yn rhydd rhag <i>Keiferia lycopersicella</i> (Walsingham) yn unol ag ISPM Rhif 4;</li> <li>(b) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn ardal sy'n rhydd rhag <i>Keiferia lycopersicella</i> (Walsingham) yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"; neu</li> <li>(c) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni yn fan sy'n rhydd rhag <i>Keiferia lycopersicella</i> (Walsingham) ar sail arolygiadau ac arolygon swyddogol a gynhaliwyd yn ystod y tri mis diwethaf cyn eu hallforio, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"</li> </ul>
51.	<p>Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Humulus lupulus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad</p>	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau <i>Verticillium alboatrum</i> Reinke a Berthold neu <i>Verticillium dahliae</i> Klebahn ar hopys yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf</p>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
52.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Dendranthema</i> (DC.) Des Moul., <i>Dianthus</i> L. neu <i>Pelargonium</i> L'Hérit. ex Ait., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o ardal sy'n rhydd rhag <i>Helicoverpa armigera</i> (Hübner) a <i>Spodoptera littoralis</i> (Boisd.), sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad cenedlaethol diogelu planhigion yn unol ag ISPM Rhif 4; (b) na welwyd unrhyw arwyddion <i>Helicoverpa armigera</i> (Hübner) neu <i>Spodoptera littoralis</i> (Boisd.) yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu (c) y bu'r planhigion yn destun triniaeth briodol i'w diogelu rhag y plâu planhigion hynny
53.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Dendranthema</i> (DC.) Des Moul., <i>Dianthus</i> L. neu <i>Pelargonium</i> L'Hérit. ex Ait., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o ardal sy'n rhydd rhag <i>Spodoptera eridania</i> (Cramer), <i>Spodoptera frugiperda</i> Smith a <i>Spodoptera litura</i> (Fabricius), sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4; (b) na welwyd unrhyw arwyddion <i>Spodoptera eridania</i> (Cramer), <i>Spodoptera frugiperda</i> Smith neu <i>Spodoptera litura</i> (Fabricius) yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu (c) y bu'r planhigion yn destun triniaeth briodol i'w diogelu rhag y plâu planhigion hynny
54.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Dendranthema</i> (DC.) Des Moul., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn stoc o'r drydedd genhedlaeth, neu'n iau, sy'n deillio o ddeunydd y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag Firoid arafu twf ffarwelau haf yn ystod profion firolegol, neu eu bod yn deillio yn uniongyrchol o ddeunydd y canfuwyd bod sampl gynrychioliadol o 10% ohono o leiaf yn rhydd rhag Firoid arafu twf ffarwelau haf o gynnal arolygiad

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>swyddogol yn ystod y cyfnod blodeuo;</p> <p>(b) bod y planhigion neu'r toriadau:</p> <p>(i) wedi dod o fangreoedd sydd wedi eu harolygu yn swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn eu hanfon, ac na welwyd unrhyw symptomau <i>Puccinia horiana</i> Hennings yn ystod y cyfnod hwnnw, ac na wyddys fod unrhyw symptomau <i>Puccinia horiana</i> Hennings wedi digwydd yn y cyffiniau agos yn ystod y tri mis cyn eu hallforio; neu</p> <p>(ii) y buont yn destun triniaeth briodol i atal <i>Puccinia horiana</i> Hennings; ac</p> <p>(c) yn achos toriadau heb wreiddiau, na welwyd unrhyw symptomau <i>Didymella ligulicola</i> (Baker, Dimock a Davis) v. Arx naill ai ar y toriadau neu ar y planhigion yr oedd y toriadau yn deillio ohonynt, neu, yn achos toriadau â gwreiddiau, na welwyd unrhyw symptomau <i>Didymella ligulicola</i> (Baker, Dimock a Davis) v. Arx naill ai ar y toriadau neu ar y gwely gwreiddio</p>
55.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Dendranthema</i> (DC.) Des Moul. neu <i>Solanum lycopersicum</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn gwlad sy'n rhydd rhag Firws necrosis coesynnau ffarwelau haf;</p> <p>(b) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad sy'n allforio yn ardal sy'n rhydd rhag Firws necrosis coesynnau ffarwelau haf yn unol ag ISPM Rhif 4; neu</p> <p>(c) bod y planhigion wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn man cynhyrchu a sefydlwyd yn fan sy'n rhydd rhag Firws necrosis coesynnau ffarwelau haf ac y gwiriwyd hynny drwy arolygiadau</p>

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		swyddogol a, phan fo hynny'n briodol, drwy brofion
56.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Dianthus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn deillio drwy linach uniongyrchol o blanhigion tarddiol y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Erwinia chrysanthemi</i> pv. <i>dianthicola</i> (Hellmers) Dickey, <i>Pseudomonas caryophylli</i> (Burkholder) Starr a Burkholder a <i>Phialophora cinerescens</i> (Wollenw.) Van Beyma o ganlyniad i brofion a gymeradwyir yn swyddogol, a gynhaliwyd o leiaf unwaith yn ystod y ddwy flynedd flaenorol; a (b) na welwyd unrhyw symptomau'r plâu planhigion hynny ar y planhigion
57.	Bylbiau <i>Tulipa</i> L. neu <i>Narcissus</i> L. ac eithrio'r rhai y ceir tystiolaeth ar eu deunydd pecynnu, neu drwy ddulliau eraill, a fwriedir ar gyfer eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu blodau wedi eu torri yn broffesiynol, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r bylbiau ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau <i>Ditylenchus dipsaci</i> (Kühn) Filipjev ar y planhigion ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
58.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Pelargonium</i> L'Hérit. ex Ait., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad: — lle y gwyddys bod Firws crwn tomatos yn bresennol, a — lle y gwyddys nad yw <i>Xiphinema americanum</i> Cobb sensu lato (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) neu fectorau eraill Firws crwn tomatos yn bresennol	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn deillio yn uniongyrchol o fan cynhyrchu y gwyddys ei fod yn rhydd rhag Firws crwn tomatos; neu (b) eu bod yn stoc o'r bedwaredd genhedlaeth, neu'n iau, sy'n deillio o blanhigion tarddiol y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag Firws crwn tomatos o dan system o brofion firolegol a gymeradwyir yn swyddogol
59.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Pelargonium</i> L'Hérit. ex Ait., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad: — lle y gwyddys bod Firws crwn tomatos yn bresennol, a — lle y gwyddys nad yw <i>Xiphinema americanum</i> Cobb sensu lato (poblogaethau heb	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn deillio yn uniongyrchol o fan cynhyrchu y gwyddys ei fod yn rhydd rhag Firws crwn tomatos yn y pridd neu'r planhigion; neu (b) eu bod yn stoc o'r ail genhedlaeth, neu'n iau, sy'n deillio o blanhigion tarddiol y canfuwyd eu bod yn

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
	fod yn rhai Ewropeaidd) neu fectorau eraill Firws crwn tomatos yn bresennol	rhydd rhag Firws crwn tomatos o dan system o brofion firolegol a gymeradwyir yn swyddogol
60.	<p>Planhigion rhywogaethau llysieuol, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— bylbiau,</li> <li>— cormau,</li> <li>— planhigion o'r teulu Gramineae,</li> <li>— rhisomau,</li> <li>— hadau, neu</li> <li>— cloron,</li> </ul> <p>a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod <i>Liriomyza sativae</i> (Blanchard) neu <i>Amauromyza maculosa</i> (Malloch) yn bresennol</p>	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu mewn meithrinfa a'u bod:</p> <p>(a) yn tarddu o ardal a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn ardal sy'n rhydd rhag <i>Liriomyza sativae</i> (Blanchard) ac <i>Amauromyza maculosa</i> (Malloch), yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration";</p> <p>(b) yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn fan sy'n rhydd rhag <i>Liriomyza sativae</i> (Blanchard) ac <i>Amauromyza maculosa</i> (Malloch), yn unol ag ISPM Rhif 10, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" ac y datganwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Liriomyza sativae</i> (Blanchard) ac <i>Amauromyza maculosa</i> (Malloch) o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn allforio;</p> <p>(c) yn union cyn eu hallforio, wedi bod yn destun triniaeth briodol i atal <i>Liriomyza sativae</i> (Blanchard) ac <i>Amauromyza maculosa</i> (Malloch) ac wedi eu harolygu yn swyddogol ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Liriomyza sativae</i> (Blanchard) ac <i>Amauromyza maculosa</i> (Malloch). Rhaid crybwyll manylion y driniaeth ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio; neu</p>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		(d) yn tarddu o ddeunydd planhigion (allblaniad) sy'n rhydd rhag <i>Liriomyza sativae</i> (Blanchard) ac <i>Amauromyza maculosa</i> (Malloch), wedi eu tyfu in vitro mewn cyfrwng tyfu sterilaidd o dan amodau sterilaidd sy'n atal y posibilrwydd o heigio â <i>Liriomyza sativae</i> (Blanchard) neu <i>Amauromyza maculosa</i> (Malloch) ac yn cael eu cludo mewn cynwysyddion tryloyw o dan amodau sterilaidd
61.	Blodau <i>Dendranthema</i> wedi eu torri (DC.) Des Moul., <i>Dianthus</i> L., <i>Gypsophila</i> L., <i>Solidago</i> L. neu lysiau deiliog <i>Apium graveolens</i> L. neu <i>Ocimum</i> L, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r blodau wedi eu torri a'r llysiau deiliog ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o wlad sy'n rhydd rhag <i>Liriomyza sativae</i> (Blanchard) ac <i>Amauromyza maculosa</i> (Malloch); neu (b) yn union cyn eu hallforio, eu bod wedi eu harolygu yn swyddogol a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Liriomyza sativae</i> (Blanchard) ac <i>Amauromyza maculosa</i> (Malloch)
62.	Planhigion rhywogaethau llysieuol, ac eithrio: — bylbiau, — cormau, — planhigion o'r teulu Gramineae, — rhisomau, — hadau, neu — cloron,  a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Liriomyza huidobrensis</i> (Blanchard) a <i>Liriomyza trifolii</i> (Burgess); (b) na welwyd unrhyw arwyddion <i>Liriomyza huidobrensis</i> (Blanchard) neu <i>Liriomyza trifolii</i> (Burgess) yn y man cynhyrchu, o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn cynaeafu; (c) yn union cyn eu hallforio, eu bod wedi eu harolygu yn swyddogol a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Liriomyza huidobrensis</i> (Blanchard) a <i>Liriomyza trifolii</i> (Burgess) ac wedi bod yn destun triniaeth briodol i atal <i>Liriomyza huidobrensis</i> (Blanchard) a <i>Liriomyza trifolii</i> (Burgess); neu (d) eu bod yn tarddu o ddeunydd planhigion (allblaniad) sy'n rhydd rhag <i>Liriomyza huidobrensis</i> (Blanchard) a <i>Liriomyza trifolii</i>



(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		(Burgess), wedi eu tyfu in vitro mewn cyfrwng tyfu sterilaidd o dan amodau sterilaidd sy'n atal y posibilrwydd o heigio â <i>Liriomyza huidobrensis</i> (Blanchard) neu <i>Liriomyza trifolii</i> (Burgess) ac yn cael eu cludo mewn cynwysyddion tryloyw o dan amodau sterilaidd
63.	Planhigion â gwreiddiau, a blannwyd neu a fwriedir ar gyfer eu plannu, sydd wedi eu tyfu yn yr awyr agored, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) y gwyddys bod y man cynhyrchu yn rhydd rhag <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>sepedonicus</i> (Speckermann a Kotthoff) Davis et al. a <i>Synchytrium endobioticum</i> (Schilbersky) Percival; a (b) bod y planhigion yn tarddu o gae y gwyddys ei fod yn rhydd rhag <i>Globodera pallida</i> (Stone) Behrens a <i>Globodera rostochiensis</i> (Wollenweber) Behrens
64.	Pridd neu gyfrwng tyfu: — sy'n gysylltiedig â phlanhigion, neu'n mynd gyda phlanhigion at ddibenion cynnal bywiogrwydd y planhigion hynny, — sydd ar ffurf, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pridd neu unrhyw sylwedd organig solet megis rhannau o blanhigion neu hwmws (gan gynnwys mawn neu risgl), neu ar ffurf unrhyw sylwedd anorganig solet yn rhannol, ac — sy'n tarddu o Belarws, Georgia, Moldofa, Rwsia, Twrci, yr Ukraine neu unrhyw wlad y tu allan i Ewrop, ac eithrio Algeria, yr Aifft, Israel, Libya, Moroco neu Tunisia	Rhaid i'r cyfrwng tyfu ddod gyda datganiad swyddogol: (a) ar adeg plannu: (i) ei fod yn rhydd rhag pridd a deunydd organig; (ii) y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag pryfed a nematodau niweidiol ac y bu'n destun archwiliad priodol neu driniaeth â gwres neu fygdarthu i sicrhau ei fod yn rhydd rhag plâu planhigion eraill; neu (iii) y bu'n destun triniaeth briodol â gwres neu fygdarthu i sicrhau ei fod yn rhydd rhag plâu planhigion; a (b) ers plannu: (i) y cymerwyd camau priodol i sicrhau bod y cyfrwng tyfu wedi ei gadw'n rhydd rhag plâu planhigion; neu (ii) o fewn dwy wythnos cyn eu hanfon, y cafodd y planhigion eu hysgwyd er mwyn cael gwared ar y deunydd, gan adael y swm lleiaf sy'n angenrheidiol i gynnal

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		bywiogrwydd wrth gludo, ac, os caiff y planhigion eu hailblannu, bod y cyfrwng tyfu a ddefnyddir at y diben hwnnw yn bodloni'r gofynion ym mharagraff (a)
65.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Beta vulgaris</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau Firws crych betys (arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd) ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
66.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Beta vulgaris</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firws deildro betys yn bresennol	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) y gwyddys nad yw Firws deildro betys yn bresennol yn yr ardal gynhyrchu; a (b) na welwyd unrhyw symptomau Firws crych betys yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
67.	Planhigion, ac eithrio: — bylbiau, — cormau, — rhisomau, — hadau, neu — cloron,  a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu mewn meithrinfa ac: (a) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn ardal sy'n rhydd rhag <i>Thrips palmi</i> Karny, yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"; (b) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn fan sy'n rhydd rhag <i>Thrips palmi</i> Karny, yn unol ag ISPM Rhif 10, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol, neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration", ac y datganwyd ei fod yn rhydd rhag <i>Thrips palmi</i> Karny o gynnal arolygiadau swyddogol yn

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn allforio;</p> <p>(c) yn union cyn eu hallforio, y buont yn destun triniaeth briodol i atal <i>Thrips palmi</i> Karny, a'u bod wedi eu harolygu yn swyddogol ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Thrips palmi</i> Karny. Rhaid crybwyll manylion y driniaeth ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio; neu</p> <p>(d) eu bod yn tarddu o ddeunydd planhigion (allblaniad) sy'n rhydd rhag <i>Thrips palmi</i> Karny, eu bod wedi eu tyfu <i>in vitro</i> mewn cyfrwng tyfu sterilaidd o dan amodau sterilaidd sy'n atal y posibilrwydd o heigio â <i>Thrips palmi</i> Karny a'u bod yn cael eu cludo mewn cynwysyddion tryloyw o dan amodau sterilaidd</p>
68.	Blodau Orchidaceae wedi eu torri neu ffrwythau <i>Momordica</i> L. neu <i>Solanum melongena</i> L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	<p>Rhaid i'r blodau wedi eu torri a'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o wlad sy'n rhydd rhag <i>Thrips palmi</i> Karny; neu</p> <p>(b) yn union cyn eu hallforio, eu bod wedi eu harolygu yn swyddogol a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Thrips palmi</i> Karny</p>
69.	Ffrwythau <i>Capsicum</i> L., sy'n tarddu o Belize, Costa Rica, y Weriniaeth Ddomenicaidd, El Salvador, Guatemala, Honduras, Jamaica, Mecsico, Nicaragua, Panama, Puerto Rico, UDA neu Polynesia Ffrengig lle y gwyddys bod <i>Anthonomus eugenii</i> Cano yn bresennol	<p>Rhaid i'r ffrwythau ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o ardal sy'n rhydd rhag <i>Anthonomus eugenii</i> Cano, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration"; neu</p> <p>(b) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn fan sy'n rhydd rhag <i>Anthonomus eugenii</i> Cano yn unol ag ISPM Rhif</p>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		10, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration", ac y datganwyd ei fod yn rhydd rhag <i>Anthonomus eugeni</i> Cano o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y ddau fis cyn eu hallforio yn y man cynhyrchu ac yn ei gyffiniau agos
70.	Planhigion, ac eithrio hadau, Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Mycoplasma melyn marwol palmwydd a Firoid Cadang-Cadang, ac na welwyd unrhyw symptomau yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf;</p> <p>(b) na welwyd unrhyw symptomau Mycoplasma melyn marwol palmwydd neu Firoid Cadang-Cadang ar y planhigion ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, a bod unrhyw blanhigion yn y man cynhyrchu sydd wedi dangos symptomau sy'n codi amheuan ynghylch halogi gan y clefydau hynny wedi eu clirio o'r man hwnnw, ac y bu'r planhigion yn destun triniaeth briodol i gael gwared ar <i>Myndus crudus</i> Van Duzee; neu</p> <p>(c) yn achos planhigion mewn meithriniaid meinwe, bod y planhigion yn deillio o blanhigion sydd wedi bodloni'r gofynion ym mharagraffau (a) neu (b)</p>
71.	<p>Planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r genera a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— Brahea Mart,</li> <li>— Butia Becc.,</li> <li>— Chamaerops L.,</li> <li>— Jubaea Kunth,</li> <li>— Livistona R. Br.,</li> <li>— Phoenix L.,</li> </ul>	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn gwlad lle y gwyddys nad yw <i>Paysandisia archon</i> (Burmeister) yn bresennol;</p> <p>(b) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal sy'n rhydd rhag <i>Paysandisia archon</i> (Burmeister), sef ardal a sefydlwyd</p>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
	<ul style="list-style-type: none"> <li>— Sabal Adans.,</li> <li>— Syagrus Mart.,</li> <li>— Trachycarpus H. Wendl.,</li> <li>— Trithrinax Mart.,</li> <li>— Washingtonia Raf.</li> </ul>	<p>gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4;</p> <p>(c) eu bod wedi eu tyfu, yn ystod cyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn eu hallforio, mewn man cynhyrchu:</p> <p>(i) sydd wedi ei gofrestru ac sy'n cael ei oruchwylio gan sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni;</p> <p>(ii) lle mae'r planhigion wedi eu gosod mewn safle a oedd wedi ei ddiogelu yn ffisegol yn llwyr rhag cyflwyno <i>Paysandisia archon</i> (Burmeister) neu drwy gymhwysio triniaethau atal priodol; a</p> <p>(iii) lle na welwyd unrhyw arwyddion <i>Paysandisia archon</i> (Burmeister) yn ystod tri arolygiad swyddogol y flwyddyn a gynhaliwyd ar adegau priodol, gan gynnwys yn union cyn allforio</p>
72.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Fuchsia</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o UDA neu Frasil	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau <i>Aculops fuchsiae</i> Keifer yn y man cynhyrchu, a bod y planhigion wedi eu harolygu yn union cyn eu hallforio a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Aculops fuchsiae</i> Keifer
73.	Coed neu lwyni, ac eithrio hadau neu blanhigion mewn meithriniad meinwe, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio gwlad yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir	Rhaid i'r coed a'r llwyni ddod gyda datganiad swyddogol: <p>(a) eu bod wedi eu tyfu mewn meithrinfa;</p> <p>(b) eu bod yn rhydd rhag malurion planhigion, blodau a ffrwythau; ac</p> <p>(c) eu bod wedi eu harolygu ar adegau priodol a chyn eu hallforio, a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag symptomau bacteria niweidiol, firysau, ac organeddau sy'n debyg i firysau, a naill ai y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag arwyddion neu symptomau nematodau, pryfed, gwiddon a ffyngau niweidiol, neu y</p>

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		buont yn destun triniaeth briodol i ddileu organeddau o'r fath
74.	Coed neu llwyni collddail, ac eithrio hadau neu blanhigion mewn meithriniad meinwe, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio gwlad yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir	Rhaid i'r coed a'r llwyni ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn blanhigion cwsg ac yn rhydd rhag dail
75.	Planhigion unflwydd neu eilflwydd, ac eithrio planhigion Gramineae neu hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio gwlad yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod wedi eu tyfu mewn meithrinfa; (b) eu bod yn rhydd rhag malurion planhigion, blodau a ffrwythau; ac (c) eu bod wedi eu harolygu ar adegau priodol a chyn eu hallforio; ac (i) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag symptomau bacteria niweidiol, firsau ac organeddau sy'n debyg i firsau; a (ii) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag arwyddion neu symptomau nematodau, pryfed, gwiddon a ffyngau niweidiol, neu y buont yn destun triniaeth briodol i ddileu organeddau o'r fath
76.	Planhigion, ac eithrio hadau, o'r teulu Gramineae, glaswelltoedd lluosflwydd addurniadol o'r is-deuluoedd Bambusoideae, Panicoideae neu o'r genera <i>Buchloe</i> , <i>Bouteloua</i> Lag., <i>Calamagrostis</i> , <i>Cortaderia</i> Stapf., <i>Glyceria</i> R. Br., <i>Hakonechloa</i> Mak. ex. Honda, <i>Hystrix</i> , <i>Molinia</i> , <i>Phalaris</i> L. <i>Shibataea</i> , <i>Spartina</i> Schreb., <i>Stipa</i> L. neu <i>Uniola</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio gwlad yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod wedi eu tyfu mewn meithrinfa; (b) eu bod yn rhydd rhag malurion planhigion, blodau a ffrwythau; ac (c) eu bod wedi eu harolygu ar adegau priodol a chyn eu hallforio; ac (i) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag symptomau bacteria niweidiol, firsau ac organeddau sy'n debyg i firsau; a (ii) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag arwyddion neu symptomau nematodau, pryfed, gwiddon a ffyngau niweidiol, neu y buont yn

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		destun triniaeth briodol i ddileu organeddau o'r fath
77.	Planhigion sydd wedi eu corachu yn naturiol neu'n artiffisial, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad y tu allan i Ewrop	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) bod y planhigion, gan gynnwys y rheini a gasglwyd yn uniongyrchol o gynefinoedd naturiol, wedi eu tyfu, eu cadw a'u hyfforddi am ddwy flynedd yn olynol o leiaf cyn eu hanfon mewn meithrinfa a gofrestrwyd yn swyddogol sy'n ddarostyngedig i gyfundrefn reoli a oruchwylir yn swyddogol; a</li> <li>(b) yn ystod y cyfnod hwnnw bod y planhigion wedi, o leiaf: <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) eu plannu mewn potiau sydd wedi eu gosod ar silffoedd sydd o leiaf 50 cm uwchben lefel y ddaear;</li> <li>(ii) bod yn destun triniaethau priodol i sicrhau eu bod yn rhydd rhag rhydni heb fod yn Ewropeaidd (a rhaid crybwyll cynhwysyn gweithredol a chrynodiad y triniaethau hyn, a'r dyddiadau y'u defnyddiwyd, ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "disinfestation and/or disinfection treatment");</li> <li>(iii) cael eu harolygu yn swyddogol o leiaf chwe gwaith y flwyddyn ar adegau priodol ar gyfer presenoldeb y plâu planhigion a grybwyllir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn, ynghyd â'r planhigion yng nghyffiniau agos y feithrinfa, drwy archwiliad gweledol o bob rhes yn y cae neu'r feithrinfa a phob rhan o'r planhigion uwchben y cyfrwng tyfu, gan ddefnyddio hapsampl o 300 o blanhigion o leiaf o genws penodol lle nad oes mwy na 3,000 o blanhigion</li> </ul> </li> </ul>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>o'r genws hwnnw, neu 10% o'r planhigion os oes mwy na 3,000 o blanhigion o'r genws hwnnw;</p> <p>(iv) eu canfod, yn yr arolygiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (iii), yn rhydd rhag y plâu planhigion perthnasol, neu pan fo heigiad, eu bod wedi eu symud ymaith, a bod y planhigion sy'n weddill wedi eu trin yn effeithiol, eu cadw am gyfnod priodol a'u harolygu i sicrhau eu bod yn rhydd rhag plâu planhigion o'r fath;</p> <p>(v) eu plannu mewn cyfrwng tyfu artiffisial sydd heb ei ddefnyddio neu mewn cyfrwng tyfu naturiol sydd wedi ei drin â mygdarthiad neu wedi ei drin yn briodol â gwres, a bod archwiliad ar ôl hynny wedi canfod eu bod yn rhydd rhag unrhyw blâu planhigion; a</p> <p>(vi) eu cadw o dan amodau sy'n sicrhau bod y cyfrwng tyfu wedi ei gadw'n rhydd rhag plâu planhigion ac o fewn dwy wythnos cyn eu hanfon, eu bod:</p> <p>(aa) wedi eu hysgwyd a'u golchi â dŵr glân i symud ymaith y cyfrwng tyfu gwreiddiol a chadw'r gwreiddiau yn noeth; neu</p> <p>(bb) wedi eu hysgwyd a'u golchi â dŵr glân i symud ymaith y cyfrwng tyfu gwreiddiol ac wedi eu hailblannu mewn cyfrwng tyfu sy'n bodloni'r gofynion ym mharagraff (v); neu</p> <p>(cc) wedi bod yn destun triniaethau priodol i sicrhau bod y cyfrwng tyfu yn rhydd rhag</p>



(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>plâu planhigion (a rhaid crybwyll y cynhwysyn gweithredol, y crynodiad a'r dyddiad y cymhwyswyd y triniaethau hyn ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "disinfestation and/or disinfection treatment"); ac</p> <p>(c) bod y planhigion wedi eu pecynnu mewn cynwysyddion caeedig sydd wedi eu selio yn swyddogol ac sy'n dwyn rhif cofrestru'r feithrinfa gofrestredig, a rhaid nodi'r rhif cofrestru ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" at ddibenion adnabod</p>
78.	<p>Planhigion llysieuol lluosflwydd, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, o'r teuluoedd Caryophyllaceae (ac eithrio <i>Dianthus</i> L.), Compositae (ac eithrio <i>Dendranthema</i> (DC.) Des Moul., Cruciferae, Leguminosae neu Rosaceae (ac eithrio <i>Fragaria</i> L.), sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio unrhyw wlad yn ardal Ewrop a Môr y Canoldir</p>	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod wedi eu tyfu mewn meithrinfa;</p> <p>(b) eu bod yn rhydd rhag malurion planhigion, blodau a ffrwythau; ac</p> <p>(c) eu bod wedi eu harolygu ar adegau priodol a chyn eu hallforio, a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag:</p> <p>(i) symptomau bacteria niweidiol, firysau ac organeddau sy'n debyg i firysau; a</p> <p>(ii) arwyddion neu symptomau nematodau, pryfed, gwiddon a ffyngau niweidiol, neu eu bod wedi bod yn destun triniaeth briodol i ddileu organeddau o'r fath</p>
79.	<p>Planhigion, ac eithrio bylbiau, cormau, rhisomau, hadau neu gloron, rhywogaethau llysieuol neu blanhigion <i>Ficus</i> L. neu <i>Hibiscus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop</p>	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o ardal a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn wlad honno yn ardal sy'n rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai</p>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>Ewropeaidd), yn unol ag ISPM Rhif 4, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration";</p> <p>(b) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd yn y wlad sy'n allforio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad honno yn ardal sy'n rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd), yn unol ag ISPM Rhif 10, ac a grybwyllir ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "Additional declaration" ac y datganwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) o gynnal arolygiadau swyddogol o leiaf unwaith bob tair wythnos yn ystod y naw wythnos cyn allforio;</p> <p>(c) mewn achosion pan fo <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) wedi ei ganfod yn y man cynhyrchu, eu bod yn cael eu cadw neu eu cynhyrchu yn y man cynhyrchu hwnnw ac wedi bod yn destun triniaeth briodol i sicrhau eu bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) ac wedi hynny canfuwyd bod y man cynhyrchu hwnnw yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) o ganlyniad i roi gweithdrefnau priodol ar waith gyda'r nod o ddileu <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) mewn arolygiadau swyddogol a gynhaliwyd yn wythnosol yn ystod y naw wythnos cyn allforio ac yn y gweithdrefnau monitro drwy gydol y cyfnod. Rhaid crybwyll manylion y driniaeth ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio; neu</p>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		(d) eu bod y tarddu o ddeunydd planhigion (allblaniad) sy'n rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd), yn cael eu tyfu in vitro mewn cyfrwng tyfu sterilaidd o dan amodau sterilaidd sy'n atal y posibilrwydd o heigio â <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) ac yn cael eu cludo mewn cynwysyddion tryloyw o dan amodau sterilaidd
80.	Blodau wedi eu torri <i>Aster</i> spp., <i>Eryngium</i> L., <i>Gypsophila</i> L., <i>Hypericum</i> L., <i>Lisianthus</i> L., <i>Rosa</i> L., <i>Solidago</i> L. neu <i>Trachelium</i> L. neu lysiau deiliog <i>Ocimum</i> L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop	Rhaid i'r blodau wedi eu torri a'r blodau deiliog ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o wlad sy'n rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd); neu (b) yn union cyn eu hallforio, eu bod wedi eu harolygu yn swyddogol ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd)
81.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Solanum lycopersicum</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firws deildro melyn tomatos yn bresennol ac y gwyddys nad yw <i>Bemisia tabaci</i> Genn. yn bresennol	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau Firws deildro melyn tomatos ar y planhigion
82.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Solanum lycopersicum</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod Firws deildro melyn tomatos a <i>Bemisia tabaci</i> Genn. yn bresennol	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) na welwyd unrhyw symptomau Firws deildro melyn tomatos ar y planhigion; a (i) bod y planhigion yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn.; neu (ii) y canfuwyd bod y man cynhyrchu yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn allforio; neu (b) na welwyd unrhyw symptomau Firws deildro melyn tomatos yn y man cynhyrchu, ac y bu'r man

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		cynhyrchu yn destun triniaeth a chyfundrefn fonitro briodol i sicrhau ei fod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn.
83.	<p>Planhigion, ac eithrio hadau, bylbiau, cloron, cormau neu risomau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— Firws amryliw euraidd ffa,</li> <li>— Firws brychni ysgafn pys y fuwch,</li> <li>— Firws heintus melyn letys,</li> <li>— Firws tigré ysgafn pupurau,</li> <li>— Firws deildro sgwosh, neu</li> <li>— firysau eraill a drosglwyddir gan</li> </ul> <p><i>Bemisia tabaci</i> Genn., a lle y gwyddys nad yw <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) neu fectorau eraill y plâu planhigion perthnasol yn bresennol</p>	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau'r plâu planhigion perthnasol yng ngholofn 2 o'r eitem hon ar y planhigion yn ystod eu cylch llystyfiant cyflawn
84.	<p>Planhigion, ac eithrio hadau, bylbiau, cloron, cormau neu risomau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod y plâu planhigion a ganlyn yn bresennol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— Firws amryliw euraidd ffa,</li> <li>— Firws brychni ysgafn pys y fuwch,</li> <li>— Firws heintus melyn letys,</li> <li>— Firws tigré ysgafn pupurau,</li> <li>— Firws deildro sgwosh, neu</li> <li>— firysau eraill a drosglwyddir gan <i>Bemisia tabaci</i> Genn., a lle y gwyddys bod <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) neu fectorau eraill y plâu planhigion perthnasol yn bresennol</li> </ul>	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau'r plâu planhigion perthnasol yng ngholofn 2 o'r eitem hon ar y planhigion yn ystod cyfnod digonol, ac: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) bod y planhigion yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. a fectorau eraill y plâu planhigion;</li> <li>(b) y canfuwyd bod y man cynhyrchu yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. a fectorau eraill y plâu planhigion o gynnal arolygiadau swyddogol ar adegau priodol;</li> <li>(c) bod y planhigion wedi bod yn destun triniaeth briodol gyda'r nod o ddileu <i>Bemisia tabaci</i> Genn.; neu</li> <li>(d) bod y planhigion yn deillio o ddeunydd planhigion (allblaniad) sy'n rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) ac nad oeddent yn dangos unrhyw symptomau</li> </ul>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p><i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd), eu bod yn cael eu tyfu in vitro mewn cyfrwng tyfu sterilaidd o dan amodau sterilaidd sy'n atal y posibilrwydd o heigio â <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau heb fod yn rhai Ewropeaidd) a'u bod yn cael eu cludo mewn cynwysyddion tryloyw o dan amodau sterilaidd</p>
85.	Hadau <i>Helianthus annuus</i> L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	<p>Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Plasmopara halstedii</i> (Farlow) Berl. a de Toni; neu</p> <p>(b) ac eithrio'r rheini a gynhyrchwyd ar amrywogaethau sydd ag ymwrthedd i bob hil <i>Plasmopara halstedii</i> (Farlow) Berl. a de Toni sy'n bresennol yn yr ardal gynhyrchu, y buont yn destun triniaeth briodol i atal <i>Plasmopara halstedii</i> (Farlow) Berl. a de Toni</p>
86.	Hadau <i>Solanum lycopersicum</i> L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	<p>Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu cael drwy ddull echdynnu ag asid priodol ac:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>michiganensis</i> (Smith) Davis et al., <i>Xanthomonas campestris</i> pv. <i>vesicatoria</i> (Doidge) Dye neu Firoid y gloronen bigfain yn bresennol;</p> <p>(b) na welwyd unrhyw symptomau'r clefydau a achosir gan y plâu planhigion hynny ar y planhigion yn y man cynhyrchu yn ystod eu cylch llystyfiant cyflawn; neu</p> <p>(c) y bu'r hadau yn destun profion swyddogol ar gyfer y plâu planhigion hynny o leiaf, sef profion ar sampl gynrychioliadol a chan ddefnyddio dulliau priodol, ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny</p>
87.	Hadau <i>Medicago sativa</i> L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>(a) na welwyd unrhyw symptomau <i>Ditylenchus dipsaci</i> (Kühn) Filipjev yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, ac na amlygwyd <i>Ditylenchus dipsaci</i> (Kühn) Filipjev gan brofion labordy ar sampl gynrychioliadol;</p> <p>(b) bod yr hadau wedi eu mygdarthu cyn eu hallforio; neu</p> <p>(c) y bu'r hadau yn destun triniaeth ffisegol briodol i atal <i>Ditylenchus dipsaci</i> (Kühn) Filipjev ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Ditylenchus dipsaci</i> (Kühn) Filipjev ar ôl cynnal profion labordy ar sampl gynrychioliadol</p>
88.	<p>Hadau <i>Medicago sativa</i> L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>insidiosus</i> Davis et al. yn bresennol</p>	<p>Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) y gwyddys na fu <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>insidiosus</i> Davis et al. yn bresennol ar y fferm neu yn ei chyffiniau agos ers dechrau'r 10 mlynedd ddiwethaf;</p> <p>(b) naill ai:</p> <p>(i) bod y cnwd yn perthyn i amrywogaeth y cydnabyddir ei bod ag ymwrthedd uchel i <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>insidiosus</i> Davis et al.;</p> <p>(ii) nad oedd wedi dechrau ei bedwerydd cylch llystyfiant cyflawn ers hau pan gafodd yr hadau eu cynaeafu, ac na fu mwy nag un cynhaeaf hadau blaenorol o'r cnwd; neu</p> <p>(iii) nad yw cynnwys y deunydd anadweithiol a bennwyd yn unol â'r rheolau sy'n gymwys ar gyfer ardystio hadau a farchnetir yn yr Undeb Ewropeaidd yn fwy na 0.1% o ran pwysau;</p> <p>(c) na welwyd unrhyw symptomau <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>insidiosus</i> Davis et al. yn y man cynhyrchu, neu ar unrhyw gnwd <i>Medicago sativa</i> L. cyfagos, yn ystod y cylch llystyfiant cyflawn</p>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		diweddaraf neu, pan fo'n briodol, yn ystod y ddau gylch llystyfiant diweddaraf; a (d) y tyfwyd y cnwd ar dir lle na fu unrhyw gnwd <i>Medicago sativa</i> L. blaenorol yn bresennol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf cyn hau
89.	Hadau <i>Oryza sativa</i> L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod wedi eu profi yn swyddogol gan brofion nematolegol priodol a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Aphelenchoides besseyi</i> Christie; neu (b) y buont yn destun triniaeth briodol â dŵr poeth neu driniaeth briodol arall i atal <i>Aphelenchoides besseyi</i> Christie
90.	Hadau <i>Phaseolus</i> L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Xanthomonas campestris</i> pv. <i>phaseoli</i> (Smith) Dye; neu (b) y profwyd sampl gynrychioliadol o'r hadau a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Xanthomonas campestris</i> pv. <i>phaseoli</i> (Smith) Dye
91.	Hadau <i>Zea mays</i> L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Erwinia stewartii</i> (Smith) Dye; neu (b) y profwyd sampl gynrychioliadol o'r hadau a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Erwinia stewartii</i> (Smith) Dye
92.	Hadau o'r genera <i>Triticum</i> , <i>Secale</i> neu <i>X Triticosecale</i> o Affganistan, India, Irac, Meccico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA lle y gwyddys bod <i>Tilletia indica</i> Mitra yn bresennol	Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw <i>Tilletia indica</i> Mitra yn bresennol, a rhaid crybwyll enw'r ardal ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio
93.	Grawn o'r genera <i>Triticum</i> , <i>Secale</i> neu <i>X Triticosecale</i> o Affganistan, India, Irac, Meccico, Nepal, Pacistan,	Rhaid i'r grawn ddod gyda datganiad swyddogol: (a) ei fod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw <i>Tilletia indica</i>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
	De Affrica neu UDA lle y gwyddys bod <i>Tilletia indica</i> Mitra yn bresennol	<p>Mitra yn bresennol, a rhaid crybwyll enw'r ardal ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "place of origin"; neu</p> <p>(b) na welwyd unrhyw symptomau <i>Tilletia indica</i> Mitra ar y planhigion yn y man cynhyrchu yn ystod eu cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf ac y cymerwyd samplau cynrychioliadol o'r grawn ar adeg cynaeafu a chyn eu hanfon, a chynhaliwyd profion ar y samplau hynny a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Tilletia indica</i> Mitra, a rhaid dangos tystiolaeth o hynny drwy nodi'r datganiad "tested and found free from <i>Tilletia indica</i> Mitra" ar y dystysgrif ffytoiechydol neu'r dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio o dan y pennawd "name of produce"</p>
94.	Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2002/757/EC sy'n tarddu o UDA	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n cynnwys:</p> <p>(a) datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration":</p> <p>(i) eu bod yn bodloni'r gofynion ym mhwynt 1a(a) neu 1a(b) o Atodiad I i Benderfyniad 2002/757/EC; a</p> <p>(ii) y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd o <i>Phytophthora ramorum</i> Werres, De Cock a Man in't Veld sp. nov.; a</p> <p>(b) pan fo pwynt 1a(a) o'r Atodiad hwnnw yn gymwys, enw'r ardal y maent yn tarddu ohoni o dan y pennawd "place of origin"</p>
95.	Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad 2007/365/EC sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" fod y planhigion, gan gynnwys y rheini a gasglwyd o gynefinoedd naturiol, yn bodloni'r</p>



(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		gofynion a bennir ym mhwynt 1(a), (b) neu (c) o Atodiad I i Benderfyniad 2007/365/EC
96.	Planhigion penodedig o fewn yr ystyr a roddir yn Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2007/433/EC sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration": (a) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu sydd wedi ei gofrestru ac sy'n cael ei oruchwylio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni; a (b) eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt 1(a), (b) neu (c) o Atodiad I i Benderfyniad 2007/433/EC
97.	Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad 2012/138/EU sy'n tarddu o Tsieina	Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n cynnwys: (a) datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" yn unol â phwynt 1 o Adran 1(B) o Atodiad I i Benderfyniad 2012/138/EU; a (b) pan fo pwynt 1(b) o'r Adran honno yn gymwys, rhaid i fan cynhyrchu'r planhigion fodloni'r gofynion a bennir yn Erthygl 1(c) o Benderfyniad 2012/138/EU
98.	Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad 2012/138/EU sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod <i>Anoplophora chinensis</i> (Forster) yn bresennol, ac eithrio Tsieina	Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n cynnwys: (a) datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" yn unol â phwynt 1 o Adran 1(A) o Atodiad I i Benderfyniad 2012/138/EU; a (b) pan fo pwynt 1(a) o'r Adran honno yn gymwys, enw'r ardal berthnasol sy'n rhydd rhag plâu o dan y pennawd "place of origin"
99.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle	Rhaid i'r cloron ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
	y gwyddys bod <i>Epitrix cucumeris</i> (Harris), <i>Epitrix papa</i> sp.n, <i>Epitrix subcrinita</i> (Lec.) neu <i>Epitrix tuberis</i> (Gentner) yn bresennol	declaration” yn unol ag Adran I o Atodiad I i Benderfyniad 2012/270/EU
100.	Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, na allant ond tyfu mewn dŵr neu bridd sydd wedi ei drwytho â dŵr yn barhaol, ac sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd “Additional declaration” yn unol ag Adran I o Atodiad I i Benderfyniad 2012/697/EU
101.	Paill byw <i>Actinidia</i> Lindl. neu blanhigion, ac eithrio hadau, <i>Actinidia</i> Lindl, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r paill byw neu'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd “Additional declaration” yn unol ag Adran I o Atodiad I i Benderfyniad (EU) 2017/198
102.	Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(c) o Benderfyniad (EU) 2015/789 sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad, ac eithrio trydedd wlad lle y gwyddys bod <i>Xylella fastidiosa</i> (Wells et al.) yn bresennol	Rhaid i'r planhigion: (a) tarddu o drydedd wlad yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd amdani gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol yn unol ag Erthygl 16(a) o Benderfyniad (EU) 2015/789; a (b) dod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd “Additional declaration”; (i) yn unol ag Erthygl 16(b) o'r Penderfyniad hwnnw; neu (ii) yn achos planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, <i>Coffea</i> , <i>Lavandula dentata</i> L., <i>Nerium oleander</i> L., <i>Olea europaea</i> L., <i>Polygala myrtifolia</i> L. neu <i>Prunus dulcis</i> (Mill.) D.A. Webb, yn unol ag Erthygl 16(b) a'r ail is-baragraff o Erthygl 16 o'r Penderfyniad hwnnw
103.	Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(c) o Benderfyniad (EU) 2015/789 sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod <i>Xylella fastidiosa</i> (Wells et al.) yn bresennol	Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys: (a) yn achos planhigion sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd fel ardal sy'n rhydd rhag <i>Xylella fastidiosa</i> (Wells et al.) yn unol ag ISPM Rhif 4 ac yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd amdani gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol perthnasol

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p>yn unol ag Erthygl 17(2)(a) o Benderfyniad (EU) 2015/789, enw'r ardal o dan y pennawd "place of origin";</p> <p>(b) yn achos planhigion sy'n tarddu o ardal lle y gwyddys bod <i>Xylella fastidiosa</i> (Wells et al.) yn bresennol a phan na fo'r planhigion wedi eu tyfu in vitro am eu cylch cynhyrchu cyfan:</p> <p>(i) datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" yn unol ag Erthygl 17(3) o'r Penderfyniad hwnnw; a</p> <p>(ii) enw'r safle y mae'r planhigion yn tarddu ohono o dan y pennawd "place of origin";</p> <p>(c) yn achos planhigion sy'n tarddu o ardal lle y gwyddys bod <i>Xylella fastidiosa</i> (Wells et al.) yn bresennol a'u bod wedi eu tyfu in vitro am eu cylch cynhyrchu cyfan:</p> <p>(i) datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" yn unol ag Erthygl 17(3a) o'r Penderfyniad hwnnw; a</p> <p>(ii) enw'r safle y mae'r planhigion yn tarddu ohono o dan y pennawd "place of origin"</p>
104.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Mangifera L.</i> sy'n tarddu o India	Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol sy'n cynnwys datganiad swyddogol o dan y pennawd "Additional declaration" sy'n disgrifio'r mesurau priodol a gymerwyd i sicrhau eu bod yn rhydd rhag organeddau niweidiol
105.	Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad (EU) 2015/893 sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad lle y gwyddys bod <i>Anoplophora glabripennis</i> (Motschulsky) yn bresennol	Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n cynnwys—

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		berthnasol sy'n rhydd rhag plâu o dan y pennawd "place of origin"
106.	Planhigion <i>Fraxinus L.</i> , a fwriedir ar gyfer eu plannu sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad	Rhaid i'r planhigion ddod gyda thystysgrif ffytoiechydol a ddyroddwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni ac sy'n cynnwys datganiad swyddogol, o dan y pennawd "Additional declaration", bod y planhigion wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal a sefydlwyd yn ardal sy'n rhydd, ac y cedwir yn rhydd, rhag <i>Chalara fraxinea</i> T. Kowalski (gan gynnwys ei deleomorff <i>Hymenoscyphus pseudoalbidus</i> ) yn unol ag ISPM Rhif 4

## RHAN B

Deunydd perthnasol, o'r Undeb Ewropeaidd, na chaniateir dod ag ef i Gymru na'i symud o fewn Cymru oni chydymffurfir â gofynion arbennig

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion o ran cyflwyno
1.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Pinus L.</i> , a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau <i>Scirrhia pini</i> Funk a Parker yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
2.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Abies Mill.</i> , <i>Larix Mill.</i> , <i>Picea A. Dietr.</i> , <i>Pinus L.</i> , <i>Pseudotsuga Carr.</i> neu <i>Tsuga Carr.</i> , a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau <i>Melampsora medusae</i> Thümen yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
3.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Populus L.</i> , a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau <i>Melampsora medusae</i> Thümen yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
4.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Castanea Mill.</i> , neu <i>Quercus L.</i> , a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag

(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion o ran cyflwyno
		<i>Cryphonectria parasitica</i> (Murrill) Barr; neu (b) na welwyd unrhyw symptomau <i>Cryphonectria parasitica</i> (Murrill) Barr yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
5.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Platanus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Ceratocystis platani</i> (J.M. Walter) Engelbr. a T.C. Harr.; neu (b) na welwyd unrhyw symptomau <i>Ceratocystis platani</i> (J.M. Walter) Engelbr. a T.C. Harr. yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
6.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Ulmus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau <i>Candidatus</i> Phytoplasma ulmi yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
7.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Amelanchier</i> Med., <i>Chaenomeles</i> Lindl., <i>Cotoneaster</i> Ehrh., <i>Crataegus</i> L., <i>Cydonia</i> Mill., <i>Eriobotrya</i> Lindl., <i>Malus</i> Mill., <i>Mespilus</i> L., <i>Photinia davidiana</i> (Dcne.) Cardot, <i>Pyracantha</i> Roem., <i>Pyrus</i> L. neu <i>Sorbus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o barth y cydnabyddir ei fod yn rhydd rhag <i>Erwinia amylovora</i> (Burr.) Winsl. <i>et al.</i> ; neu (b) bod y planhigion yn y cae cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos sydd wedi dangos symptomau <i>Erwinia amylovora</i> (Burr.) Winsl. <i>et al.</i> wedi eu clirio
8.	Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, <i>Citrus</i> L., <i>Fortunella</i> Swingle neu <i>Poncirus</i> Raf.	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Spiroplasma citri</i> Saglio <i>et al.</i> , <i>Phoma tracheiphila</i> (Petri) Kanchaveli a Gikashvili a Firws <i>Citrus tristeza</i> (mathau Ewropeaidd); (b) bod y planhigion yn deillio o gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion o ran cyflwyno
		<p>linach uniongyrchol o ddeunydd sydd wedi ei gadw o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion unigol swyddogol ar gyfer, o leiaf, Firws <i>Citrus tristeza</i> (mathau Ewropeaidd), gan ddefnyddio profion neu ddulliau priodol yn unol â safonau rhyngwladol, a'u bod wedi bod yn tyfu yn barhaol mewn tŷ gwydr neu gaets arunig sy'n ddiogel rhag pryfed lle na welwyd unrhyw symptomau <i>Spiroplasma citri</i> Saglio <i>et al.</i>, <i>Phoma tracheiphila</i> (Petri) Kanchaveli a Gikashvili neu Firws <i>Citrus tristeza</i> (mathau Ewropeaidd); neu</p> <p>(c) eu bod:</p> <p>(i) wedi deillio o gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeilio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd sydd wedi ei gadw o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion unigol swyddogol ar gyfer, o leiaf, Firws <i>Citrus tristeza</i> (mathau Ewropeaidd), gan ddefnyddio profion neu ddulliau priodol yn unol â safonau rhyngwladol, ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag Firws <i>Citrus tristeza</i> (mathau Ewropeaidd) ac ardystiwyd eu bod yn rhydd rhag o leiaf Firws <i>Citrus tristeza</i> (mathau Ewropeaidd) mewn profion unigol swyddogol a gynhaliwyd yn unol â'r dulliau a grybwyllir yn y paragraff hwn; a</p> <p>(ii) wedi eu harolygu ac na welwyd unrhyw symptomau <i>Spiroplasma citri</i> Saglio <i>et al.</i>, <i>Phoma tracheiphila</i> (Petri) Kanchaveli a Gikashvili neu Firws <i>Citrus tristeza</i> (mathau Ewropeaidd)</p>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion o ran cyflwyno
		ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
9.	Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, <i>Citrus</i> L., <i>Choisya</i> Kunth, <i>Fortunella</i> Swingle, <i>Poncirus</i> Raf., <i>Casimiroa</i> La Llave, <i>Clausena</i> Burm. f., <i>Murraya</i> J. Koenig ex L., <i>Vepris</i> Comm., neu <i>Zanthoxylum</i> L.	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o ardal sy'n rhydd rhag <i>Trioza erytrae</i> Del Guercio, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4;</p> <p>(b) eu bod wedi eu tyfu mewn man cynhyrchu:</p> <p>(i) sydd wedi ei gofrestru a'i oruchwylio gan yr awdurdod cymwys perthnasol yn yr Aelod-wladwriaeth y mae'r planhigion yn tarddu ohoni;</p> <p>(ii) lle gosodwyd y planhigion mewn safle sydd wedi ei ddiogelu yn llwyr yn ffisegol rhag cyflwyno <i>Trioza erytrae</i> Del Guercio; a</p> <p>(iii) lle y cynhaliwyd dau arolygiad swyddogol ar adegau priodol yn ystod y cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf cyn eu symud o'r safle, ac na welwyd unrhyw arwyddion o'r pla planhigion hwnnw yn y safle hwnnw neu yn yr ardal oddi amgylch hyd at o leiaf 200m o led</p>
10.	Planhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, <i>Persea</i> spp. neu Strelitziaceae, sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) na welwyd unrhyw halogi gan <i>Radopholus similis</i> (Cobb) Thorne yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu</p> <p>(b) y bu pridd a gwreiddiau o'r planhigion a amheuir yn destun, ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, i broffion nematolegol swyddogol ar gyfer o leiaf <i>Radopholus similis</i> (Cobb) Thorne ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw</p>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) <i>Eitem</i>	(2) <i>Disgrifiad o'r deunydd perthnasol</i>	(3) <i>Gofynion o ran cyflwyno</i>
11.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Fragaria</i> L., <i>Prunus</i> L. neu <i>Rubus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(c) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag y plâu planhigion a ganlyn:</p> <p>(i) yn achos <i>Fragaria</i> L.:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— <i>Phytophthora fragariae</i> Hickman var. <i>fragariae</i>,</li> <li>— Firws amryliw <i>Arabis</i>,</li> <li>— Firws crwn mafon,</li> <li>— Firws crych mefus,</li> <li>— Firws crwn cudd mefus,</li> <li>— Firws minfelyn ysgafn mefus,</li> <li>— Firws crwn du tomatos,</li> <li>— <i>Xanthomonas fragariae</i> Kennedy a King;</li> </ul> <p>(ii) yn achos <i>Prunus</i> L.:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— <i>Mycoplasm crychni</i> dail clorotig bricyll,</li> <li>— <i>Xanthomonas arboricola</i> pv. <i>pruni</i> (Smith) Vauterin et al;</li> </ul> <p>(iii) yn achos <i>Prunus persica</i> (L.) Batsch:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— <i>Pseudomonas syringae</i> pv. <i>persicae</i> (Prunier et al.) Young et al.; a</li> </ul> <p>(iv) yn achos <i>Rubus</i> L.:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— Firws amryliw <i>Arabis</i>,</li> <li>— Firws crwn mafon,</li> <li>— Firws crwn cudd mefus,</li> <li>— Firws crwn du tomatos; neu</li> </ul> <p>(d) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan y plâu planhigion ym mharagraff (a) ar blanhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf</p>
12.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Cydonia</i> Mill. neu <i>Pyrus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Mycoplasm</i> dirywiad gellyg; neu</p> <p>(b) bod planhigion yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos sydd wedi dangos symptomau sy'n codi amheuan o halogi gan</p>



(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion o ran cyflwyno
		Fycoplasma dirywiad gellyg wedi eu clirio o'r man hwnnw o fewn y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
13.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Fragaria L.</i> , a fwriedir ar gyfer eu plannu	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Aphelenchoides besseyi</i> Christie;</p> <p>(b) na welwyd unrhyw symptomau <i>Aphelenchoides besseyi</i> Christie ar blanhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu</p> <p>(c) yn achos planhigion mewn meithriniad meinwe, bod y planhigion yn deillio o blanhigion sy'n cydymffurfio â pharagraff (b) neu wedi eu profi yn swyddogol drwy ddulliau nematolegol priodol ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Aphelenchoides besseyi</i> Christie</p>
14.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Malus Mill.</i> , a fwriedir ar gyfer eu plannu	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Mycoplasm ymlediad afalau; neu</p> <p>(b) ac eithrio'r planhigion a dyfwyd o hadau, eu bod:</p> <p>(i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Mycoplasm ymlediad afalau gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; neu</p> <p>(ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau</p>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion o ran cyflwyno
		<p>priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y chwe chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Mycoplasma ymlediad afalau gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; ac</p> <p>(c) na welwyd unrhyw symptomau clefydau a achosir gan Fycoplasma ymlediad afalau ar blanhigion yn y man cynhyrchu, neu yn ei gyffiniau agos ar blanhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf</p>
15.	<p>Planhigion, ac eithrio hadau, y rhywogaethau <i>Prunus</i> L. a ganlyn a fwriedir ar gyfer eu plannu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— <i>Prunus amygdalus</i> Batsch,</li> <li>— <i>Prunus armeniaca</i> L.,</li> <li>— <i>Prunus blireiana</i> Andre,</li> <li>— <i>Prunus brigantina</i> Vill.,</li> <li>— <i>Prunus cerasifera</i> Ehrh.,</li> <li>— <i>Prunus cistena</i> Hansen,</li> <li>— <i>Prunus curdica</i> Fenzl a Fritsch.,</li> <li>— <i>Prunus domestica</i> spp. <i>domestica</i> L.,</li> <li>— <i>Prunus domestica</i> spp. <i>insititia</i> (L.) C.K. Schneid.,</li> <li>— <i>Prunus domestica</i> spp. <i>italica</i> (Borkh.) Hegi.,</li> <li>— <i>Prunus glandulosa</i> Thunb.,</li> <li>— <i>Prunus holosericea</i> Batal.,</li> <li>— <i>Prunus hortulana</i> Bailey,</li> <li>— <i>Prunus japonica</i> Thunb.,</li> <li>— <i>Prunus mandshurica</i> (Maxim.) Koehne,</li> <li>— <i>Prunus maritima</i> Marsh.,</li> <li>— <i>Prunus mume</i> Sieb. a Zucc.,</li> <li>— <i>Prunus nigra</i> Ait.,</li> <li>— <i>Prunus persica</i> (L.) Batsch.,</li> <li>— <i>Prunus salicina</i> L.,</li> <li>— <i>Prunus sibirica</i> L.,</li> <li>— <i>Prunus simonii</i> Carr.,</li> <li>— <i>Prunus spinosa</i> L.,</li> </ul>	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Firws brech eirin;</p> <p>(b) ac eithrio'r planhigion a dyfwyd o hadau, eu bod:</p> <p>(i) wedi eu hardystio yn swyddogol o dan gynllun ardystio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion swyddogol ar gyfer o leiaf Firws brech eirin gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; neu</p> <p>(ii) yn deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu, o leiaf unwaith yn ystod y tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, yn destun</p>

(1)	(2)	(3)
<i>Eitem</i>	<i>Disgrifiad o'r deunydd perthnasol</i>	<i>Gofynion o ran cyflwyno</i>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>— <i>Prunus tomentosa</i> Thunb.,</li> <li>— <i>Prunus triloba</i> Lindl., neu</li> <li>— rhywogaethau eraill <i>Prunus</i> L. sy'n dueddol o gael Firws brech eirin</li> </ul>	<p>profion swyddogol ar gyfer o leiaf Firws brech eirin gan ddefnyddio dangosyddion priodol neu ddulliau cyfatebol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag y pla planhigion hwnnw; ac</p> <p>(c) na welwyd unrhyw symptomau'r clefyd a achosir gan Firws brech eirin ar blanhigion yn y man cynhyrchu, neu ar blanhigion yn ei gyffiniau agos sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau, ers dechrau'r tri chylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; a</p> <p>(d) bod planhigion yn y man cynhyrchu sydd wedi dangos symptomau clefydau a achosir gan firysau eraill neu bathogenau sy'n debyg i firysau wedi eu clirio</p>
16.	Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, <i>Vitis</i> L.	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau <i>Flavescence dorée</i> MLO gwinwydd neu <i>Xylophilus ampelinus</i> (Panagopoulos) Willems <i>et al.</i> ar y planhigion tarddiol yn y man cynhyrchu ers dechrau'r ddau gylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
17.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu	<p>Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) y cydymffurfiwyd â darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal <i>Synchytrium endobioticum</i> (Schilbersky) Percival;</p> <p>(b) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Clavibacter michiganensis</i> spp. <i>sepedonicus</i> (Spieckermann a Kottoff) Davis <i>et al.</i> neu y cydymffurfiwyd â darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal <i>Clavibacter michiganensis</i> spp. <i>sepedonicus</i> (Spieckermann a Kottoff) Davis <i>et al.</i>;</p> <p>(c) eu bod yn tarddu o ardal:</p> <p>(i) lle y gwyddys nad yw <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi <i>et al.</i> yn bresennol; neu</p>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion o ran cyflwyno
		<p>(ii) lle y gwyddys bod <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi <i>et al.</i> yn bresennol, a bod y cloron yn tarddu o fan cynhyrchu y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi <i>et al.</i>, neu yr ystyrir ei fod yn rhydd rhag <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi <i>et al.</i> o ganlyniad i roi gweithdrefn briodol ar waith gyda'r nod o ddileu <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi <i>et al.</i>; a</p> <p>(d) eu bod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw <i>Meloidogyne chitwoodi</i> Golden <i>et al.</i> (pob poblogaeth) na <i>Meloidogyne fallax</i> Karssen yn bresennol neu ardal lle y gwyddys bod <i>Meloidogyne chitwoodi</i> Golden <i>et al.</i> (pob poblogaeth) neu <i>Meloidogyne fallax</i> Karssen yn bresennol a:</p> <p>(i) eu bod yn tarddu o fan cynhyrchu y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag <i>Meloidogyne chitwoodi</i> Golden <i>et al.</i> (pob poblogaeth) a <i>Meloidogyne fallax</i> Karssen yn seiliedig ar arolwg blynyddol o'r cnydau cynhaliol drwy gynnal arolygiad gweledol o'r planhigion cynhaliol ar adegau priodol a thrwy arolygiad gweledol allanol a thrwy dorri'r cloron ar ôl eu cynaeafu o gnydau tatws a dyfwyd yn y man cynhyrchu; neu</p> <p>(ii) bod y cloron, ar ôl cynaeafu, wedi eu hapsamplu a'u gwirio am bresenoldeb symptomau ar ôl defnyddio dull priodol i achosi symptomau, neu wedi bod yn destun profion labordy, yn ogystal ag arolygiad gweledol allanol a thrwy</p>

(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion o ran cyflwyno
		dorri'r cloron, ar adegau priodol ac ym mhob achos ar adeg selio'r pecynnau neu'r cynwysyddion cyn eu marchnata yn unol â'r darpariaethau ynghylch selio yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2002/56/EC ar farchnata tatws hadyd(1), ac na chanfuwyd unrhyw symptomau <i>Meloidogyne chitwoodi</i> Golden <i>et al.</i> (pob poblogaeth) neu <i>Meloidogyne fallax</i> Karssen
18.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio'r rheini sydd i'w plannu yn unol ag Erthygl 4(4)(b) o Gyfarwyddeb 2007/33/EC	Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol y cydymffurfir â darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal <i>Globodera pallida</i> (Stone) Behrens a <i>Globodera rostochiensis</i> (Wollenweber) Behrens
19.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio cloron y rhywogaethau hynny a dderbynnir mewn un neu ragor o Aelod-wladwriaethau yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 2002/53/EC ar y catalog cyffredin o amrywogaethau rhywogaethau planhigion amaethyddol(2)	Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol eu bod: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) yn perthyn i ddetholiadau datblygedig, gyda datganiad o'r fath wedi ei nodi mewn ffordd briodol ar y ddogfen sy'n mynd gyda'r cloron;</li> <li>(b) wedi eu cynhyrchu yn yr Undeb Ewropeaidd;</li> <li>(c) wedi deillio drwy linach uniongyrchol o ddeunydd a gadwyd o dan amodau priodol ac a fu'n destun profion cwarantín swyddogol yn yr Undeb Ewropeaidd yn unol â dulliau priodol ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag plâu planhigion</li> </ul>
20.	Planhigion o rywogaethau <i>Solanum</i> L., sy'n ffurfio stolon neu gloron, a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio'r cloron <i>Solanum tuberosum</i> L. hynny a bennir yng nghlofn 2 o eitemau 17 i 19, gyda deunydd cynnal meithriniad yn cael ei gadw mewn cronfeydd genynnau neu gasgliadau o stoc	Rhaid i'r planhigion fod wedi eu cadw o dan amodau cwarantín a: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) rhaid eu bod wedi eu canfod yn rhydd rhag unrhyw blâu planhigion mewn profion cwarantín a oedd: <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) wedi eu goruchwyllo gan gorff swyddogol cyfrifol yr Aelod-wladwriaeth dan sylw</li> </ul> </li> </ul>

(1) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 60, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(2) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 268, 18.10.2003, t. 1).

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

(1)	(2)	(3)
<i>Eitem</i>	<i>Disgrifiad o'r deunydd perthnasol</i>	<i>Gofynion o ran cyflwyno</i>
	genetig neu hadau <i>Solanum tuberosum</i> L., a bennir yng ngholofn 2 o eitem 21	<p>ac wedi eu cynnal gan staff y sefydliad hwnnw sydd wedi cael hyfforddiant gwyddonol, neu gan staff unrhyw gorff a gymeradwyir yn swyddogol sydd wedi cael hyfforddiant o'r fath;</p> <p>(ii) wedi eu cynnal ar safle sydd â chyfleusterau priodol sy'n ddigonol i atal plâu planhigion a chadw'r deunydd, gan gynnwys planhigion dangosol, mewn modd sy'n atal unrhyw risg o ledaenu plâu planhigion;</p> <p>(iii) wedi eu cynnal ar bob uned o'r deunydd:</p> <p>(aa) drwy gynnal archwiliadau gweledol ar adegau rheolaidd yn ystod hyd cyfan o leiaf un cylch llystyfiant, gan roi sylw i'r math o ddeunydd a'i gam datblygu yn ystod y rhaglen brofi, ar gyfer symptomau a achosir gan blâu planhigion; a</p> <p>(bb) drwy gynnal profion:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— yn achos pob deunydd tatws ar gyfer o leiaf:</li> <li>— Firws cudd tatws Andeaidd,</li> <li>— Firws Arracacha B. math oca,</li> <li>— Firws crwn du tatws,</li> <li>— Firoid y gloronen bigfain,</li> <li>— Firws tatws T,</li> <li>— Firws brychni tatws Andeaidd</li> <li>— firsau cyffredin tatws A, M, S, V, X ac Y (gan gynnwys Y<sup>o</sup>, Yn ac Yc) a Firws crychni dail tatws,</li> </ul>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion o ran cyflwyno
		<ul style="list-style-type: none"> <li>— <i>Clavibacter michiganensis</i> spp. <i>sepedonicus</i> (Spieckermann a Kottoff) Davis et al.</li> <li>— <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi et al.;</li> <li>— yn achos hadau <i>Solanum tuberosum</i> L., ac eithrio'r rheini a bennir yng ngholofn 2 o eitem 21, ar gyfer y firsau a'r firoid a restrir uchod o leiaf; a</li> </ul> <p>(iv) wedi cynnwys profion priodol ar unrhyw symptom arall a welwyd yn yr archwiliad gweledol er mwyn adnabod y plâu planhigion sydd wedi achosi symptomau o'r fath;</p> <p>(b) rhaid i unrhyw ddeunydd y canfuwyd nad oedd yn rhydd, o dan y profion y cyfeirir atynt ym mharagraff (a), rhag plâu planhigion a bennir yn y paragraff hwnnw fod wedi ei ddifa ar unwaith neu fod yn destun gweithdrefnau sy'n dileu'r plâu planhigion; ac</p> <p>(c) rhaid i bob sefydliad neu gorff ymchwil sy'n cadw'r deunydd hwn hysbysu Sefydliad Diogelu Planhigion swyddogol ei Aelod-wladwriaeth ynghylch y deunydd a gedwir</p>
21.	Hadau <i>Solanum tuberosum</i> L, ac eithrio'r rheini a bennir yng ngholofn 2 o eitem 22	<p>Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod:</p> <p>(i) yn deillio o blanhigion sy'n cydymffurfio â'r gofynion a bennir yng ngholofn 3 o eitemau 17 i 20; a</p>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion o ran cyflwyno
		<ul style="list-style-type: none"> <li>(ii) yn tarddu o ardaloedd y gwyddys eu bod yn rhydd rhag <i>Synchytrium endobioticum</i> (Schilbersky) Percival, <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>sepedonicus</i> (Spieckermann a Kotthoff) Davis <i>et al.</i>, <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi <i>et al.</i> a Firoid y gloronen bigfain; neu</li> <li>(b) eu bod wedi eu cynhyrchu mewn safle lle na welwyd unrhyw symptomau o'r clefyd a achosir gan y plâu planhigion hynny ers dechrau'r cylch llystyfiant diweddaraf a phan fo'r camau a ganlyn wedi eu cymryd: <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) bod y safle wedi ei wahanu oddi wrth blanhigion mochlysaidd eraill a phlanhigion eraill sy'n cynnal Firoid y gloronen bigfain;</li> <li>(ii) bod staff ac eitemau eraill, megis offer, peiriannau, cerbydau, llestri a deunydd pecynnu, o safleoedd eraill sy'n cynhyrchu planhigion mochlysaidd a phlanhigion eraill sy'n cynnal Firoid y gloronen bigfain, wedi eu hatal rhag dod i gysylltiad â'r safle neu y cymerwyd mesurau hylendid priodol eraill i atal heintio gan staff sy'n gweithio, neu eitemau a ddefnyddiwyd, ar safleoedd eraill sy'n cynhyrchu planhigion mochlysaidd a phlanhigion eraill sy'n cynnal Firoid y gloronen bigfain;</li> <li>(iii) mai dim ond dŵr sy'n rhydd rhag y plâu planhigion hynny a ddefnyddiwyd</li> </ul> </li> </ul>
22.	Planhigion o rywogaethau <i>Solanum</i> L., sy'n ffurfio stolon neu gloron a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n cael eu storio mewn cronfeydd genynnau neu gasgliadau stoc genetig	Rhaid i bob sefydliad neu gorff ymchwil sy'n cadw deunydd o'r fath hysbysu Sefydliad Diogelu Planhigion swyddogol ei Aelod-wladwriaeth am y deunydd a gedwir



(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion o ran cyflwyno
23.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L., ac eithrio'r rheini a grybwyllir yng ngholofn 2 o eitemau 18 i 22	Rhaid bod tystiolaeth ar ffurf rhif cofrestru a roddir ar y deunydd pecynnu, neu yn achos tatws rhydd a gludir mewn swmp, ar y cerbyd sy'n cludo'r tatws, bod y tatws wedi eu tyfu gan gynhyrchwr sydd wedi ei gofrestru yn swyddogol, neu'n tarddu o ganolfannau storio neu anfon ar y cyd sydd wedi eu cofrestru yn swyddogol sydd wedi eu lleoli yn yr ardal gynhyrchu, yn nodi bod y cloron yn rhydd rhag <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi <i>et al.</i> ac y cydymffurfiwyd â'r darpariaethau a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal <i>Synchytrium endobioticum</i> (Schilbersky) Percival;</li> <li>(b) pan fo'n briodol, darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>sepedonicus</i> (Spieckermann a Kotthoff) Davis <i>et al.</i>; ac</li> <li>(c) darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal <i>Globodera pallida</i> (Stone) Behrens a <i>Globodera rostochiensis</i> (Wollenweber) Behrens</li> </ul>
24.	Planhigion, ac eithrio hadau, Solanaceae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio planhigion a grybwyllir yng ngholofn 2 o eitemau 22 a 23	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Mycoplasma stolbur tatws; neu</li> <li>(b) na welwyd unrhyw symptomau Mycoplasma stolbur tatws ar y planhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf</li> </ul>
25.	Planhigion gyda gwreiddiau <i>Capsicum</i> spp., <i>Solanum lycopersicum</i> L. neu <i>Solanum melongena</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio'r rheini sydd i'w plannu yn unol ag Erthygl 4(4)(a) o Gyfarwyddeb 2007/33/EC	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol y cydymffurfiwyd â darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal <i>Globodera pallida</i> (Stone) Behrens a <i>Globodera rostochiensis</i> (Wollenweber) Behrens
26.	Planhigion gyda gwreiddiau <i>Capsicum</i> spp., <i>Solanum lycopersicum</i> L., Musa L. neu <i>Solanum melongena</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi <i>et al.</i> neu</li> </ul>

(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion o ran cyflwyno
		(b) na welwyd unrhyw symptomau <i>Ralstonia solanacearum</i> (Smith) Yabuuchi <i>et al.</i> ar y planhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
27.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Humulus lupulus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau <i>Verticillium albo-atrum</i> Reinke a Berthold neu <i>Verticillium dahliae</i> Klebahn ar hopys yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
28.	Planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r genera a ganlyn: — <i>Brahea</i> Mart., — <i>Butia</i> Becc., — <i>Chamaerops</i> L., — <i>Jubaea</i> Kunth, — <i>Livistona</i> R. Br., — <i>Phoenix</i> L., — <i>Sabal</i> Adans., — <i>Syagrus</i> Mart., — <i>Trachycarpus</i> H. Wendl., — <i>Trithrinax</i> Mart., — <i>Washingtonia</i> Raf.	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal sy'n rhydd rhag <i>Paysandisia archon</i> (Burmeister), sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4; (b) eu bod wedi eu tyfu, yn ystod cyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn eu hallforio, mewn man cynhyrchu: (i) sydd wedi ei gofrestru a'i oruchwylio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni; (ii) lle yr oedd y planhigion wedi eu gosod mewn safle a oedd wedi ei ddiogelu yn ffisegol yn llwyr rhag cyflwyno <i>Paysandisia archon</i> (Burmeister) neu drwy gymhwyso triniaethau ataliol priodol; a (iii) lle na welwyd, yn ystod tri arolygiad swyddogol y flwyddyn a gynhaliwyd ar adegau priodol, unrhyw arwyddion <i>Paysandisia archon</i> (Burmeister)
29.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Dendranthema</i> (DC.) Des Moul., <i>Dianthus</i> L. neu <i>Pelargonium</i> L'Hérit. ex Ait., a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o ardal sy'n rhydd rhag <i>Helicoverpa armigera</i>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion o ran cyflwyno
30.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Dendranthema</i> (DC.) Des Moul., a fwriedir ar gyfer eu plannu	<p>(Hübner) a <i>Spodoptera littoralis</i> (Boisd.), sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad cenedlaethol diogelu planhigion yn unol ag ISPM Rhif 4;</p> <p>(b) na welwyd unrhyw arwyddion <i>Helicoverpa armigera</i> (Hübner) neu <i>Spodoptera littoralis</i> (Boisd.) yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu</p> <p>(c) y bu'r planhigion yn destun triniaeth briodol i'w diogelu rhag y plâu planhigion hynny</p> <p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn stoc o'r drydedd genhedlaeth, neu'n iau, sy'n deillio o ddeunydd y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag Firoid arafu twf ffarwelau haf yn ystod profion firolegol, neu eu bod yn deillio yn uniongyrchol o ddeunydd y canfuwyd bod sampl gynrychioliadol o 10% ohono o leiaf yn rhydd rhag Firoid arafu twf ffarwelau haf yn ystod arolygiad swyddogol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod blodeuo;</p> <p>(b) bod y planhigion neu'r toriadau:</p> <p>(i) wedi dod o fangre sydd wedi ei harolygu yn swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn eu hanfon, ac na welwyd unrhyw symptomau <i>Puccinia horiana</i> Hennings yno yn ystod y cyfnod hwnnw, a gwyddys nad oes unrhyw symptomau <i>Puccinia horiana</i> Hennings wedi bod yn bresennol yn y cyffiniau agos yn ystod y tri mis cyn eu marchnata; neu</p> <p>(ii) y buont yn destun triniaeth briodol i atal <i>Puccinia horiana</i> Hennings; ac</p> <p>(c) yn achos toriadau heb wreiddiau, na welwyd unrhyw symptomau <i>Didymella ligulicola</i> (Baker,</p>

(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion o ran cyflwyno
		Dimock a Davis) v. Arx ar y toriadau neu'r planhigion yr oedd y toriadau yn deillio ohonynt neu, yn achos toriadau â gwreiddiau, na welwyd unrhyw symptomau <i>Didymella ligulicola</i> (Baker, Dimock a Davis) v. Arx naill ai ar y toriadau neu ar y gwely gwreiddio
31.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Dianthus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) eu bod yn deillio drwy linach uniongyrchol o blanhigion tarddiol y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Erwinia chrysanthemi</i> pv. <i>Dianthicola</i> (Hellmers) Dickey, <i>Pseudomonas caryophylli</i> (Burkholder) Starr a Burkholder a <i>Phialophora cinerescens</i> (Wollenw.) Van Beyma drwy brofion a gymeradwyir yn swyddogol, a gynhaliwyd o leiaf unwaith yn ystod y ddwy flynedd flaenorol; a</li> <li>(b) na welwyd unrhyw symptomau'r plâu planhigion hyn ar y planhigion</li> </ul>
32.	Bylbiau <i>Tulipa</i> L. neu <i>Narcissus</i> L. ac eithrio'r rheini y mae tystiolaeth ar eu deunydd pecynnu, neu drwy ddulliau eraill, a fwriedir ar gyfer eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu blodau wedi eu torri yn broffesiynol	Rhaid i'r bylbiau ddod gyda datganiad swyddogol na welwyd unrhyw symptomau <i>Ditylenchus dipsaci</i> (Kühn) Fililjev ar y bylbiau ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
33.	Planhigion rhywogaethau llysieuol, ac eithrio: <ul style="list-style-type: none"> <li>— bylbiau,</li> <li>— cormau,</li> <li>— planhigion o'r teulu</li> </ul> Gramineae, <ul style="list-style-type: none"> <li>— rhisomau,</li> <li>— hadau, neu</li> <li>— cloron,</li> </ul> a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Liriomyza huidobrensis</i> (Blanchard) a <i>Liriomyza trifolii</i> (Burgess);</li> <li>(b) na welwyd unrhyw arwyddion <i>Liriomyza huidobrensis</i> (Blanchard) neu <i>Liriomyza trifolii</i> (Burgess) yn y man cynhyrchu o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn cynaeafu;</li> <li>(c) yn union cyn eu marchnata, bod y planhigion wedi eu harolygu yn</li> </ul>

(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion o ran cyflwyno
		swyddogol a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Liriomyza huidobrensis</i> (Blanchard) a <i>Liriomyza trifolii</i> (Burgess) ac y buont yn destun triniaeth briodol i atal <i>Liriomyza huidobrensis</i> (Blanchard) a <i>Liriomyza trifolii</i> (Burgess); neu
		(d) eu bod yn tarddu o ddeunydd planhigion (allblaniad) sy'n rhydd rhag <i>Liriomyza huidobrensis</i> (Blanchard) a <i>Liriomyza trifolii</i> (Burgess), eu bod wedi eu tyfu <i>in vitro</i> mewn cyfrwng tyfu sterilaidd o dan amodau sterilaidd sy'n atal y posibilrwydd o heigio â <i>Liriomyza huidobrensis</i> (Blanchard) a <i>Liriomyza trifolii</i> (Burgess) a'u bod yn cael eu cludo mewn cynwysyddion tryloyw o dan amodau sterilaidd
34.	Planhigion â gwreiddiau, a blannwyd neu a fwriedir ar gyfer eu plannu, a dyfir yn yr awyr agored	Rhaid bod tystiolaeth y gwyddys bod y man cynhyrchu yn rhydd rhag <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>sepedonicus</i> (Spieckermann a Kotthoff) Davis <i>et al.</i> a <i>Synchytrium endobioticum</i> (Schilbersky) Percival
35.	Y planhigion â gwreiddiau a ganlyn a dyfir yn yr awyr agored, <i>Allium porrum</i> L., <i>Asparagus officinalis</i> L., <i>Beta vulgaris</i> L., <i>Brassica</i> spp. neu <i>Fragaria</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio'r planhigion hynny sydd i'w plannu yn unol ag Erthygl 4.4(a) neu (c) o Gyfarwyddeb 2007/33/EC	Rhaid bod tystiolaeth y cydymffurfir â darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal <i>Globodera pallida</i> (Stone) Behrens a <i>Globodera rostochiensis</i> (Wollenweber) Behrens
36.	Bylbiau, cloron neu risomau, a dyfir yn yr awyr agored, <i>Allium ascalonicum</i> L., <i>Allium cepa</i> L., <i>Dahlia</i> spp., <i>Gladiolus</i> Tourn. ex L., <i>Hyacinthus</i> spp., <i>Iris</i> spp., <i>Lilium</i> spp., <i>Narcissus</i> L. neu <i>Tulipa</i> L., ac eithrio'r bylbiau, y cloron neu'r rhisomau hynny sydd i'w plannu yn unol ag Erthygl 4.4(a) neu (c) o Gyfarwyddeb 2007/33/EC	Rhaid bod tystiolaeth y cydymffurfir â darpariaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal <i>Globodera pallida</i> (Stone) Behrens a <i>Globodera rostochiensis</i> (Wollenweber) Behrens
37.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Beta vulgaris</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Firws deildro betys; neu (b) y gwyddys nad yw Firws deildro betys yn bresennol yn yr ardal

(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion o ran cyflwyno
		gynhyrchu, ac na welwyd unrhyw symptomau Firws crych betys yn y man cynhyrchu neu yn ei gyffiniau agos ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf
38.	Hadau <i>Helianthus annuus</i> L.	Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Plasmopara halstedii</i> (Farlow) Berl. a de Toni; neu</li> <li>(b) ac eithrio'r rheini a gynhyrchwyd ar amrywogaethau sydd ag ymwrthedd i bob hil <i>Plasmopara halstedii</i> (Farlow) Berl. a de Toni sy'n bresennol yn yr ardal gynhyrchu, y buont yn destun triniaeth briodol i atal <i>Plasmopara halstedii</i> (Farlow) Berl. a de Toni</li> </ul>
39.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Solanum lycopersicum</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag Firws deildro melyn tomatos;</li> <li>(b) na welwyd unrhyw symptomau Firws deildro melyn tomatos ar y planhigion; a <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) bod y planhigion yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn.; neu</li> <li>(ii) y canfuwyd bod y man cynhyrchu yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. o gynnal arolygiadau swyddogol yn fisol o leiaf yn ystod y tri mis cyn allforio; neu</li> </ul> </li> <li>(c) na welwyd unrhyw symptomau Firws deildro melyn tomatos yn y man cynhyrchu, ac y bu'r man cynhyrchu yn destun triniaeth a chyfundrefn fonitro briodol i sicrhau ei fod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn.</li> </ul>
40.	Hadau <i>Solanum lycopersicum</i> L.	Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu cael drwy ddull echdynnu ag asid priodol ac:

(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion o ran cyflwyno
		<p>(a) eu bod yn tarddu o ardal lle y gwyddys nad yw <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>michiganensis</i> (Smith) Davis <i>et al.</i>, neu <i>Xanthomonas campestris</i> pv. <i>vesicatoria</i> (Doidge) Dye yn bresennol;</p> <p>(b) na welwyd unrhyw symptomau'r clefydau a achosir gan y plâu planhigion hynny ar y planhigion yn y man cynhyrchu yn ystod eu cylch llystyfiant cyflawn; neu</p> <p>(c) y bu'r hadau yn destun profion swyddogol ar gyfer y plâu planhigion hynny o leiaf, ar sampl gynrychioliadol a chan ddefnyddio dulliau priodol, ac y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag y plâu planhigion hynny</p>
41.	Hadau <i>Medicago sativa</i> L.	<p>Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) na welwyd unrhyw symptomau <i>Ditylenchus dipsaci</i> (Kühn) Filipjev yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf, ac na amlygwyd <i>Ditylenchus dipsaci</i> (Kühn) Filipjev gan brofion labordy ar sampl gynrychioliadol;</p> <p>(b) bod mygdarthu wedi digwydd cyn eu marchnata; neu</p> <p>(c) y bu'r hadau yn destun triniaeth ffisegol briodol i atal <i>Ditylenchus dipsaci</i> (Kühn) Filipjev a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Ditylenchus dipsaci</i> (Kühn) Filipjev ar ôl cynnal profion labordy ar sampl gynrychioliadol</p>
42.	Hadau <i>Medicago sativa</i> L.	<p>Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>insidiosus</i> Davis <i>et al.</i>; neu</p> <p>(b) y gwyddys nad oedd <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>insidiosus</i> Davis <i>et al.</i> yn bresennol ar y fferm neu yn ei chyffiniau agos ers dechrau'r 10 mlynedd diweddaraf; a</p>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion o ran cyflwyno
		<ul style="list-style-type: none"> <li>(i) bod y cnwd yn perthyn i amrywogaeth y cydnabyddir ei bod ag ymwrthedd uchel i <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>insidiosus</i> Davis et al.;</li> <li>(ii) nad oedd wedi dechrau ei bedwerydd cylch llystyfiant cyflawn ers hau pan gafodd yr hadau eu cynaeafu, ac na fu mwy nag un cynhaeaf hadau blaenorol o'r cnwd; neu</li> <li>(iii) nad yw cynnwys y deunydd anadweithiol a bennwyd yn unol â'r rheolau sy'n gymwys ar gyfer ardystio hadau a farchnetir yn yr Undeb Ewropeaidd yn fwy na 0.1% o ran pwysau;</li> </ul>
		(c) na welwyd unrhyw symptomau <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>insidiosus</i> Davis et al. yn y man cynhyrchu, neu ar unrhyw gnwd <i>Medicago sativa</i> L. cyfagos, yn ystod y cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf neu, pan fo'n briodol, yn ystod y ddau gylch llystyfiant diweddaraf; a
		(d) bod y cnwd wedi ei dyfu ar dir lle nad oes unrhyw gnwd <i>Medicago sativa</i> L. blaenorol wedi bod yn bresennol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf cyn hau
43.	Hadau <i>Phaseolus</i> L.	<p>Rhaid i'r hadau ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Xanthomonas campestris</i> pv. <i>phaseoli</i> (Smith) Dye; neu</li> <li>(b) y profwyd sampl gynrychioliadol o'r hadau a chanfuwyd ei bod yn rhydd rhag <i>Xanthomonas campestris</i> pv. <i>phaseoli</i> (Smith) Dye</li> </ul>
44.	Ffrwythau <i>Citrus</i> L., <i>Fortunella</i> Swingle neu <i>Poncirus</i> Raf.	Rhaid i'r deunydd pecynnu, unrhyw label sydd ynghlwm wrth y deunydd pecynnu neu unrhyw ddogfen a ddefnyddir fel arfer at ddibenion masnach sy'n dod gyda'r llwyth ddwyn nod tarddiad priodol (caiff y



(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion o ran cyflwyno
		nod hwnnw fod yn gyfeiriad at enw'r wlad y mae'r ffrwythau yn tarddu ohoni)
45.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Viburnum</i> spp. L., <i>Camellia</i> spp. neu <i>Rhododendron</i> spp. L., ac eithrio <i>Rhododendron simsii</i> Planch, a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt 3 o Atodiad I i Benderfyniad 2002/757/EC
46.	Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad 2007/365/EC	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu yn unol â'r gofynion a bennir ym mhwynt 2(a), (b), (c) neu (d) o Atodiad I i Benderfyniad 2007/365/EC
47.	Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2007/433/EC	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Adran II o Atodiad I i Benderfyniad 2007/433/EC
48.	Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad 2012/138/EU sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 6 o'r Penderfyniad hwnnw	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt 1 o Adran 2 o Atodiad I i Benderfyniad 2012/138/EU
49.	Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad 2012/138/EU nad ydynt yn tarddu o fan cynhyrchu sydd mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 6 o'r Penderfyniad hwnnw ond a gyflwynwyd i fan cynhyrchu o'r fath	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol bod y man cynhyrchu y cyflwynwyd y planhigion iddo yn bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt 1(iii) o Adran 2 o Atodiad I i Benderfyniad 2012/138/EU
50.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L., gan gynnwys y rheini a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/270/EU, ac eithrio'r rheini sy'n tarddu o Gymru ac sydd ond yn cael eu symud o fewn ardal o'r fath	Rhaid i'r cloron ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt (1)(a) i (c) o Adran 2 o Atodiad I i Benderfyniad 2012/270/EU
51.	Paill byw <i>Actinidia</i> Lindl. neu blanhigion, ac eithrio hadau, <i>Actinidia</i> Lindl. a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r paill a'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r un o'r gofynion a bennir ym mhwynt (2) a, phan fo'n briodol, un o'r gofynion ym mhwynt (3) o Atodiad II i Benderfyniad 2017/198/EU
52.	Planhigion cynhaliol o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad (EU) 2015/789 nad ydynt erioed wedi eu tyfu mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o'r Penderfyniad hwnnw	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthygl 9(8)(a) o Benderfyniad (EU) 2015/789; neu (b) yn achos planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, <i>Coffea</i> , <i>Lavandula</i>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion o ran cyflwyno
		<p><i>dentata</i> L., <i>Nerium oleander</i> L., <i>Olea europaea</i> L., <i>Polygala myrtifolia</i> L. neu <i>Prunus dulcis</i> (Mill.) D.A. Webb, eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn ail is-baragraff Erthygl 9(8) o'r Penderfyniad hwnnw</p>
53.	<p>Planhigion tarddiol cyn-sylfaenol fel y'u diffinnir yn Erthygl 1(3) o Gyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn 2014/98/EU neu ddeunydd cyn-sylfaenol fel y'i diffinnir yn Erthygl 2(5) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2008/90EC:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— sy'n perthyn i'r rhywogaethau <i>Juglans regia</i> L., <i>Olea europaea</i> L., <i>Prunus amygdalus</i> Batsch, <i>P. amygdalus</i> x <i>P. persica</i>, <i>P. armeniaca</i> L., <i>P. avium</i> (L.) L., <i>P. cerasus</i> L., <i>P. domestica</i> L., <i>P. domestica</i> x <i>P. salicina</i>, <i>P. dulcis</i> (Mill.) D.A. Webb, <i>P. persica</i> (L.) Batsch, neu <i>P. salicina</i> Lindley,</li> <li>— sydd wedi eu tyfu y tu allan i ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o Benderfyniad (EU) 2015/789, ac</li> <li>— sydd wedi treulio o leiaf ran o'u bywyd y tu allan i gyfleusterau sy'n ddiogel rhag pryfed</li> </ul>	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthygl 9(9)(a) a (b) o Benderfyniad (EU) 2015/789</p>
54.	<p>Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(c) o Benderfyniad (EU) 2015/789, ac eithrio'r rheini sy'n perthyn i'r amrywogaethau a bennir yn Atodiad III i'r Penderfyniad hwnnw, sydd wedi eu tyfu am o leiaf ran o'u bywyd mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o'r Penderfyniad hwnnw</p>	<p>Rhaid i'r planhigion:</p> <p>(a) yn achos planhigion nad ydynt wedi eu tyfu <i>in vitro</i> am eu cylch cynhyrchu cyflawn:</p> <p>(i) dod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthygl 9(2) i (4) a (5) o Benderfyniad (EU) 2015/789; neu</p> <p>(ii) yn achos planhigion cwsg, ac eithrio hadau, <i>Vitis</i> a fwriedir ar gyfer eu plannu, ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn Erthygl 9(4a) a (5) o'r Penderfyniad hwnnw;</p> <p>(b) yn achos planhigion sydd wedi eu tyfu <i>in vitro</i> am eu cylch cynhyrchu cyflawn, ddod gyda datganiad swyddogol eu bod yn bodloni'r</p>

(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion o ran cyflwyno
		gofynion a bennir yn Erthygl 9a(2) a (3) o'r Penderfyniad hwnnw, a chael eu cludo yn y dull a bennir yn Erthygl 9a(4) o'r Penderfyniad hwnnw
55.	Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad (EU) 2015/893 sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 7 o'r Penderfyniad hwnnw, neu a gyflwynwyd i fan cynhyrchu mewn ardal o'r fath	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) yn achos planhigion sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 7 o Benderfyniad (EU) 2015/893, eu bod wedi eu tyfu yn ystod cyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn eu symud, neu yn achos planhigion sy'n iau na dwy flynedd, drwy gydol eu bywyd, mewn man cynhyrchu sy'n bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt (1)(a) a (b) o Adran 2(A) o Atodiad II i'r Penderfyniad hwnnw; a (b) eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir ym mhwynt (1)(c) o'r Adran honno
56.	Ffrwythau <i>Citrus L.</i> , <i>Fortunella Swingle</i> neu <i>Poncirus Raf.</i> , ac eithrio ffrwythau <i>Citrus aurantium L.</i> neu <i>Citrus latifolia Tanaka</i> sydd: — yn tarddu o Frasil, De Affrica neu Uruguay; — yn cael eu hanfon i greu sudd drwy brosesu diwydiannol yn unig; ac — wedi eu cyflwyno i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd yn unol ag Erthyglau 9 i 13 o Benderfyniad (EU) 2016/715	Rhaid i'r ffrwythau fod: (a) wedi eu pecynnu a'u labelu yn unol ag Erthygl 17 o'r Penderfyniad hwnnw; a (b) yn ddarostyngedig i drwydded a roddir o dan erthygl 40(1) o'r Gorchymyn hwn sy'n awdurdodi eu cyflwyno i Gymru, eu symud o fewn Cymru a, phan fo'n gymwys, eu prosesu a'u storio yng Nghymru.
57.	Ffrwythau <i>Citrus L.</i> , <i>Fortunella Swingle</i> , <i>Poncirus Raf.</i> , <i>Microcitrus Swingle</i> , <i>Naringi Adans.</i> neu <i>Swinglea Merr.</i> sydd: — yn tarddu o unrhyw drydedd wlad; — i'w hanfon i greu sudd drwy brosesu diwydiannol; ac — wedi eu cyflwyno i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd yn unol ag Erthygl 3 o Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2374	Rhaid i'r ffrwythau fod yn ddarostyngedig i drwydded a roddir o dan erthygl 40(1) o'r Gorchymyn hwn sy'n awdurdodi eu cyflwyno i Gymru, eu symud o fewn Cymru a, phan fo'n gymwys, eu prosesu a'u storio yng Nghymru
58.	Planhigion <i>Fraxinus L.</i> a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu drwy

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

(1)	(2)	(3)
<i>Eitem</i>	<i>Disgrifiad o'r deunydd perthnasol</i>	<i>Gofynion o ran cyflwyno</i>
		gydol eu bywyd mewn ardal a sefydlwyd yn ardal sy'n rhydd, ac a gedwir yn rhydd, rhag <i>Chalara fraxinea</i> T. Kowalski (gan gynnwys ei delemorff <i>Hymenoscyphus pseudoalbidus</i> ) yn unol ag ISPM Rhif 4
59.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L., ac eithrio'r rheini a grybwyllir yng ngholofn 2 o eitemau 19 i 22, sy'n tarddu o Wlad Pwyl	Rhaid i'r cloron ddod gyda thystysgrif a ddyroddir gan gorff cyfrifol swyddogol Gwlad Pwyl yn cadarnhau y canfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Clavibacter michiganensis</i> ssp. <i>sepedonicus</i> (Spieckermann a Kotthoff) Davis et al. mewn profion labordy swyddogol
60.	Cloron <i>Solanum tuberosum</i> L., gan gynnwys y rheini a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o unrhyw ardal o Sbaen sydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio'r rheini sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/270/EU neu Ynysoedd Baleares	Rhaid i'r cloron fod wedi eu golchi fel nad oes mwy na 0.1% o bridd yn weddill

## RHAN C

Deunydd perthnasol na chaniateir ei lanio yng Nghymru na'i symud o fewn Cymru (fel parth gwarchod) oni chydymffurfir â gofynion arbennig

(1)	(2)	(3)
<i>Eitem</i>	<i>Disgrifiad o'r deunydd perthnasol</i>	<i>Gofynion glanio</i>
1.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Platanus</i> L. a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o'r Undeb Ewropeaidd neu Armenia, y Swistir neu UDA	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd: <ol style="list-style-type: none"> <li>mewn ardal sy'n rhydd rhag <i>Ceratocystis platani</i> (J.M. Walter) Engelbr. a T.C. Harr., a sefydlwyd yn unol ag ISPM Rhif 4; neu</li> <li>mewn parth gwarchod a gydnabyddir yn barth gwarchod ar gyfer <i>Ceratocystis platani</i> (J.M. Walter) Engelbr. a T.C. Harr.</li> </ol>
2.	Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, <i>Pinus</i> L., a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: <ol style="list-style-type: none"> <li>eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn mannau cynhyrchu mewn gwledydd lle na wyddys bod</li> </ol>

(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
		<p><i>Thaumetopoea pityocampa</i> Denis a Schiffermüller yn bresennol;</p> <p>(b) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal sy'n rhydd rhag <i>Thaumetopoea pityocampa</i> Denis a Schiffermüller, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4;</p> <p>(c) eu bod wedi eu cynhyrchu mewn meithrinfeydd y canfuwyd eu bod, ynghyd â'u cyffiniau, yn rhydd rhag <i>Thaumetopoea pityocampa</i> Denis a Schiffermüller ar sail arolygiadau swyddogol ac arolygon swyddogol a gynhaliwyd ar adegau priodol; neu</p> <p>(d) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn safle sydd wedi ei ddiogelu yn ffisegol yn llwyr rhag cyflwyno <i>Thaumetopoea pityocampa</i> Denis a Schiffermüller ac a arolygwyd ar adegau priodol ac y canfuwyd ei fod yn rhydd rhag <i>Thaumetopoea pityocampa</i> Denis a Schiffermüller</p>
3.	Planhigion <i>Castanea Mill.</i> a fwriedir ar gyfer eu plannu	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd:</p> <p>(a) mewn man cynhyrchu mewn gwlad lle y gwyddys nad yw <i>Cryphonectria parasitica</i> (Murrill) Barr yn bresennol;</p> <p>(b) mewn ardal sy'n rhydd rhag <i>Cryphonectria parasitica</i> (Murrill) Barr, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4; neu</p> <p>(c) mewn parth gwarchod a gydnabyddir yn barth gwarchod ar gyfer <i>Cryphonectria parasitica</i> (Murrill) Barr</p>
4.	Planhigion, ac eithrio hadau, <i>Prunus L.</i> , a fwriedir ar gyfer eu plannu	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn mannau cynhyrchu mewn gwledydd lle y gwyddys nad yw <i>Xanthomonas arboricola</i> pv.</p>

**Statws** This is the original version (as it was originally made).

(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion glanio
		<p><i>pruni</i> (Smith) Vauterin <i>et al.</i> yn bresennol;</p> <p>(b) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal sy'n rhydd rhag <i>Xanthomonas arboricola</i> pv. <i>pruni</i> (Smith) Vauterin <i>et al.</i>, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4;</p> <p>(c) eu bod yn deillio drwy linach uniongyrchol o blanhigion tarddiol nad ydynt wedi dangos unrhyw symptomau <i>Xanthomonas arboricola</i> pv. <i>pruni</i> (Smith) Vauterin <i>et al.</i> yn ystod eu cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf ac na welwyd unrhyw symptomau'r pla planhigion hwnnw ar y planhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r cylch llystyfiant cyflawn diweddaraf; neu</p> <p>(d) yn achos planhigion <i>Prunus laurocerasus</i> L. neu <i>Prunus lusitanica</i> L. y ceir tystiolaeth amdanynt o'u deunydd pecynnu neu drwy ddulliau eraill eu bod wedi eu bwriadu ar gyfer eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu planhigion yn broffesiynol, na welwyd unrhyw symptomau <i>Xanthomonas arboricola</i> pv. <i>pruni</i> (Smith) Vauterin <i>et al.</i> ar blanhigion yn y man cynhyrchu ers dechrau'r tymor tyfu cyflawn diweddaraf</p>
5.	<p>Planhigion <i>Palmae</i>, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r genera a ganlyn: <i>Brahea</i> Mart., <i>Butia</i> Becc., <i>Chamaerops</i> L., <i>Jubaea</i> Kunth, <i>Livistona</i> R. Br., <i>Phoenix</i> L., <i>Sabal</i> Adans., <i>Syagrus</i> Mart., <i>Trachycarpus</i> H. Wendl., <i>Trithrinax</i> Mart., neu <i>Washingtonia</i> Raf.</p>	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn mannau cynhyrchu mewn gwledydd lle y gwyddys nad yw <i>Paysandisia archon</i> (Burmeister) yn bresennol;</p> <p>(b) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal sy'n rhydd rhag <i>Paysandisia archon</i> (Burmeister), sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion</p>

(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion glanio
		<p>cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4; neu</p> <p>(c) eu bod wedi eu tyfu, yn ystod cyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn eu hallforio neu eu symud, mewn man cynhyrchu:</p> <p>(i) sydd wedi ei gofrestru ac sy'n cael ei oruchwylio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni;</p> <p>(ii) lle gosodwyd y planhigion mewn safle sydd wedi ei ddiogelu yn llwyr yn ffisegol rhag cyflwyno <i>Paysandisia archon</i> (Burmeister); a</p> <p>(iii) lle na welwyd unrhyw arwyddion <i>Paysandisia archon</i> (Burmeister) yn ystod tri arolygiad swyddogol y flwyddyn a gynhaliwyd ar adegau priodol, gan gynnwys yn union cyn eu symud o'r man cynhyrchu</p>
6.	<p>Planhigion <i>Palmae</i>, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5cm ac sy'n perthyn i'r tacsonau a ganlyn: <i>Areca catechu</i> L., <i>Arenga pinnata</i> (Wurmb) Merr., <i>Bismarckia Hildebr.</i> a H. Wendl., <i>Borassus flabellifer</i> L., <i>Brahea armata</i> S. Watson, <i>Brahea edulis</i> H. Wendl., <i>Butia capitata</i> (Mart.) Becc., <i>Calamus merrillii</i> Becc., <i>Caryota maxima</i> Blume, <i>Caryota cumingii</i> Lodd. ex Mart., <i>Chamaerops humilis</i> L., <i>Cocos nucifera</i> L., <i>Copernicia</i> Mart., <i>Corypha utan</i> Lam., <i>Elaeis guineensis</i> Jacq., <i>Howea forsteriana</i> Becc., <i>Jubae chilensis</i> (Molina) Baill., <i>Livistona australis</i> C. Martius, <i>Livistona decora</i> (W. Bull) Dowe, <i>Livistona rotundifolia</i> (Lam.) Mart., <i>Metroxylon sagu</i> Rottb., <i>Phoenix canariensis</i> Chabaud, <i>Phoenix dactylifera</i> L., <i>Phoenix reclinata</i> Jacq., <i>Phoenix roebelenii</i> O'Brien, <i>Phoenix sylvestris</i> (L.) Roxb., <i>Phoenix theophrasti</i> Greuter, <i>Pritchardia</i> Seem. a H. Wendl., <i>Ravenea rivularis</i> Jum. a H. Perrier, <i>Roystonea regia</i> (Kunth) O.F. Cook, <i>Sabal</i></p>	<p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <p>(a) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn mannau cynhyrchu mewn gwledydd lle y gwyddys nad yw <i>Rhynchophorus ferrugineus</i> (Olivier) yn bresennol;</p> <p>(b) eu bod wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd mewn ardal sy'n rhydd rhag <i>Rhynchophorus ferrugineus</i> (Olivier), sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4; neu</p> <p>(c) eu bod wedi eu tyfu, yn ystod cyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn eu hallforio neu eu symud, mewn man cynhyrchu:</p> <p>(i) sydd wedi ei gofrestru ac sy'n cael ei oruchwylio gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn y wlad y mae'r planhigion yn tarddu ohoni;</p>

(1)	(2)	(3)
Eitem	Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	Gofynion glanio
	<i>palmetto</i> (Walter) Lodd. ex Schult. a Schult. F., <i>Syagrus roman-zoffiana</i> (Cham.) Glassman, <i>Trachycarpus fortunei</i> (Hook.) H. Wendl. neu <i>Washingtonia</i> Raf.	(ii) lle gosodwyd y planhigion mewn safle sydd wedi ei ddiogelu yn llwyr yn ffisegol rhag cyflwyno <i>Rhynchophorus ferrugineus</i> (Olivier); a (iii) lle na welwyd unrhyw arwyddion <i>Rhynchophorus ferrugineus</i> (Olivier) yn ystod tri arolygiad swyddogol y flwyddyn a gynhaliwyd ar adegau priodol, gan gynnwys yn union cyn eu symud o'r man cynhyrchu
7.	Toriadau <i>Euphorbia pulcherrima</i> Willd. a ddiwreiddiwyd, a fwriedir ar gyfer eu plannu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol: (a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd); (b) na welwyd unrhyw arwyddion <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ar y toriadau nac ar y planhigion y mae'r toriadau yn deillio ohonynt ac a gedwir neu a gynhyrchir yn y man cynhyrchu o gynnal arolygiadau swyddogol o leiaf unwaith bob tair wythnos yn ystod cyfnod cynhyrchu cyfan y planhigion hyn yn y man cynhyrchu; neu (c) mewn achosion pan fo <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) wedi ei ganfod yn y man cynhyrchu, bod y toriadau a'r planhigion y mae'r toriadau yn deillio ohonynt ac a gedwir neu a gynhyrchir yn y man cynhyrchu wedi bod yn destun triniaeth briodol i sicrhau eu bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ac y canfuwyd wedi hynny bod y man cynhyrchu hwn yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) o ganlyniad i roi gweithdrefnau priodol ar waith gyda'r nod o



(1) Eitem	(2) Disgrifiad o'r deunydd perthnasol	(3) Gofynion glanio
8.	<p>Planhigion <i>Euphorbia pulcherrima</i> Willd., a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>— hadau,</li> <li>— y planhigion hynny y ceir tystiolaeth o'u deunydd pecynnu neu o ddatblygiad eu blodau (neu eu bractau) neu drwy ddulliau eraill eu bod wedi eu bwriadu ar gyfer eu gwerthu i gwsmeriaid terfynol nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu planhigion yn broffesiynol, neu</li> <li>— y rheini a bennir yn eitem 7</li> </ul>	<p>ddileu <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd), mewn arolygiadau swyddogol a gynhaliwyd yn wythnosol yn ystod y tair wythnos cyn eu symud o'r man cynhyrchu hwn, ac mewn gweithdrefnau monitro drwy gydol y cyfnod. Rhaid i'r arolygiad olaf o'r arolygiadau wythnosol fod wedi ei gynnal yn union cyn eu symud</p> <p>Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd);</li> <li>(b) na welwyd unrhyw arwyddion <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ar blanhigion yn y man cynhyrchu o gynnal arolygiadau swyddogol o leiaf unwaith bob tair wythnos yn ystod y naw wythnos cyn marchnata; neu</li> <li>(c) mewn achosion pan fo <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) wedi ei ganfod yn y man cynhyrchu, bod y planhigion a gedwir neu a gynhyrchir yn y man cynhyrchu wedi bod yn destun triniaeth briodol i sicrhau eu bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ac y canfuwyd wedi hynny bod y man cynhyrchu hwn yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) o ganlyniad i roi gweithdrefnau priodol ar waith gyda'r nod o ddileu <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd), mewn arolygiadau swyddogol a gynhaliwyd yn wythnosol yn ystod y tair wythnos cyn eu symud o'r man cynhyrchu hwn, ac mewn gweithdrefnau monitro drwy gydol y cyfnod. Rhaid i'r arolygiad olaf o'r arolygiadau wythnosol fod wedi ei gynnal yn union cyn eu symud; a</li> </ul>

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

(1) <i>Eitem</i>	(2) <i>Disgrifiad o'r deunydd perthnasol</i>	(3) <i>Gofynion glanio</i>
		<p>(d) bod tystiolaeth ar gael eu bod wedi eu cynhyrchu o doriadau sydd:</p> <p>(i) yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd);</p> <p>(ii) wedi eu tyfu mewn man cynhyrchu lle na welwyd unrhyw arwyddion <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) o gynnal arolygiadau swyddogol o leiaf unwaith bob tair wythnos yn ystod cyfnod cynhyrchu cyfan y planhigion hyn; neu</p> <p>(iii) mewn achosion pan fo <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) wedi ei ganfod yn y man cynhyrchu, wedi eu tyfu ar blanhigion a gedwir neu a gynhyrchir yn y man cynhyrchu sydd wedi bod yn destun triniaeth briodol i sicrhau eu bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ac y canfuwyd wedi hynny bod y man cynhyrchu hwnnw yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) o ganlyniad i roi gweithdrefnau priodol ar waith gyda'r nod o ddileu <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd), mewn arolygiadau swyddogol a gynhaliwyd yn wythnosol yn ystod y tair wythnos cyn eu symud o'r man cynhyrchu, ac mewn gweithdrefnau monitro drwy gydol y cyfnod. Rhaid i'r arolygiad olaf o'r arolygiadau wythnosol fod wedi ei gynnal yn union cyn eu symud</p>
9.	Planhigion, ac eithrio hadau, cloron neu gormau, <i>Begonia</i> L., a fwriedir ar gyfer eu	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol:

(1)	(2)	(3)
<i>Eitem</i>	<i>Disgrifiad o'r deunydd perthnasol</i>	<i>Gofynion glanio</i>
	plannu; neu blanhigion, ac eithrio hadau, <i>Dipladenia</i> A.DC., <i>Ficus</i> L., <i>Hibiscus</i> L., <i>Mandevilla</i> Lindl. neu <i>Nerium oleander</i>	(a) eu bod yn tarddu o ardal y gwyddys ei bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd);
	L., a fwriedir ar gyfer eu plannu	(b) na welwyd unrhyw arwyddion <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ar blanhigion yn y man cynhyrchu o gynnal arolygiadau swyddogol o leiaf unwaith bob tair wythnos yn ystod y naw wythnos cyn marchnata;
		(c) pan fo <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) wedi ei ganfod yn y man cynhyrchu, bod y planhigion a gedwir neu a gynhyrchir yn y man cynhyrchu wedi bod yn destun triniaeth briodol i sicrhau eu bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) ac y canfuwyd wedi hynny bod y man cynhyrchu yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) o ganlyniad i roi gweithdrefnau priodol ar waith gyda'r nod o ddileu <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd), mewn arolygiadau swyddogol a gynhaliwyd yn wythnosol yn ystod y tair wythnos cyn eu symud o'r man cynhyrchu, ac mewn gweithdrefnau monitro drwy gydol y cyfnod dan sylw; neu
		(d) yn achos planhigion y ceir tystiolaeth o'u deunydd pecynnu neu o ddatblygiad eu blodau neu drwy ddulliau eraill eu bod wedi eu bwriadu ar gyfer eu gwerthu yn uniongyrchol i gwsmeriaid terfynol nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu planhigion yn broffesiynol, eu bod wedi eu harolygu yn swyddogol a chanfuwyd eu bod yn rhydd rhag <i>Bemisia tabaci</i> Genn. (poblogaethau Ewropeaidd) yn union cyn eu symud

(1)	(2)	(3)
<i>Eitem</i>	<i>Disgrifiad o'r deunydd perthnasol</i>	<i>Gofynion glanio</i>
10.	Planhigion <i>Castanea Mill.</i> , ac eithrio planhigion mewn meithriniad meinwe, ffrwythau neu hadau	Rhaid i'r planhigion ddod gyda datganiad swyddogol bod y planhigion wedi eu tyfu drwy gydol eu bywyd:  mewn man cynhyrchu mewn gwlad lle y gwyddys nad yw <i>Dryocosmus kuriphilus</i> Yasumatsu yn bresennol; (a) mewn ardal sy'n rhydd rhag <i>Dryocosmus kuriphilus</i> Yasumatsu, sef ardal a sefydlwyd gan y sefydliad diogelu planhigion cenedlaethol yn unol ag ISPM Rhif 4; neu (b) mewn parth gwarchod a gydnabyddir yn barth gwarchod ar gyfer <i>Dryocosmus kuriphilus</i> Yasumatsu

ATODLEN 5

Erthygl 3

Deunydd perthnasol o drydedd wlad y gallai tystysgrif ffytoiechydol fod yn ofynnol ar ei gyfer

## RHAN A

Deunydd perthnasol na chaniateir iddo gael ei lanio onid yw tystysgrif ffytoiechydol yn mynd gydag ef

1. Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu.
2. Hadau—
  - (a) Cruciferae, Gramineae neu *Trifolium* spp., sy'n tarddu o'r Ariannin, Awstralia, Bolivia, Chile, Seland Newydd neu Uruguay;
  - (b) y genera *Triticum*, *Secale* neu *X Triticosecale* o Affganistan, India, Iran, Iraq, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA; neu
  - (c) Solanaceae, Citrus L., Fortunella Swingle, Poncirus Raf., Capsicum spp., Helianthus annuus L., Solanum lycopersicum L., Medicago sativa L., Prunus L., Rubus L., Oryza spp., Zea mays L., Allium ascalonicum L., Allium cepa L., Allium porrum L., Allium schoenoprasum L. neu Phaseolus L.
3. Rhannau o blanhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau—
  - (a) *Castanea* Mill., *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L., *Gypsophila* L., *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., *Phoenix* spp., *Populus* L., *Quercus* L., *Solidago* L. neu flodau Orchidaceae wedi eu torri;
  - (b) coed conwydd (Coniferales);
  - (c) *Acer saccharum* Marsh, sy'n tarddu o UDA neu Ganada;

- (d) *Prunus* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop;
  - (e) blodau *Aster* spp. wedi eu torri, *Eryngium* L., *Hypericum* L., *Lisianthus* L., *Rosa* L. neu *Trachelium* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop;
  - (f) llysiâu deiliog *Apium graveolens* L., *Ocimum* L., *Limnophila* L. neu *Eryngium* L.;
  - (g) dail *Manihot esculenta* Crantz;
  - (h) canghennau *Betula* L. wedi eu torri, gyda deiliant neu heb ddeiliant;
  - (i) canghennau wedi eu torri *Fraxinus* L., *Juglans ailantifolia* Carr., *Juglans mandshurica* Maxim., *Ulmus davidiana* Planch. neu *Pterocarya rhoifolia* Siebold a Zucc., gyda deiliant neu heb ddeiliant, sy'n tarddu o Ganada, Tsieina, Gweriniaeth Ddemocrataidd Pobl Korea, Japan, Mongolia, Gweriniaeth Korea, Rwsia, Taiwan neu UDA; neu
  - (j) *Amyris* P. Browne, *Casimiroa* La Llave, *Citropsis* Swingle a Kellerman, *Eremocitrus* Swingle, *Esenbeckia* Kunth., *Glycosmis* Corrêa, *Merrillia* Swingle, *Naringi* Adans., *Tetradium* Lour., *Toddalia* Juss. neu *Zanthoxylum* L.
4. Rhannau o blanhigion, ac eithrio ffrwythau ond gan gynnwys hadau, *Aegle* Corrêa, *Aeglopsis* Swingle, *Afraegle* Engl., *Atalantia* Corrêa, *Balsamocitrus* Stapf, *Burkillanthus* Swingle, *Calodendrum* Thunb., *Choisya* Kunth, *Clausena* Burm. f., *Limonia* L., *Microcitrus* Swingle, *Murraya* J. Koenig ex L., *Pamburus* Swingle, *Severinia* Ten., *Swinglea* Merr., *Triphasia* Lour neu *Vepris* Comm.
5. Ffrwythau—
- (a) *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Microcitrus* Swingle, *Naringi* Adans., *Swinglea* Merr., *Momordica* L., *Solanum lycopersicum* L. neu *Solanum melongena* L.;
  - (b) *Annona* L., *Cydonia* Mill., *Diospyros* L., *Malus* Mill., *Mangifera* L., *Passiflora* L., *Prunus* L., *Psidium* L., *Pyrus* L., *Ribes* L., *Syzygium* Gaertn. neu *Vaccinium* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop;
  - (c) *Capsicum* L.;
  - (d) *Punica granatum* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad ar gyfandir Affrica, Cape Verde, Saint Helena, Madagascar, La Reunion, Mauritius neu Israel.
6. Cloron *Solanum tuberosum* L.
7. Pridd neu gyfrwng tyfu sydd ar ffurf, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pridd neu sylweddau organig solet megis rhannau o blanhigion neu hwmws, gan gynnwys mawn neu risgl, ac eithrio cyfrwng tyfu sydd ar ffurf mawn yn gyfan gwbl.
8. Pridd neu gyfrwng tyfu sy'n gysylltiedig â phlanhigion, neu yr ymddengys iddo fod mewn cysylltiad â phlanhigion, sydd ar ffurf, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, deunydd a bennir ym mharagraff 7 neu sydd ar ffurf, yn rhannol, unrhyw sylweddau anorganig solet, a fwriedir i gynnal bywiogrwydd planhigion, sy'n tarddu o—
- (a) Belarws, Georgia, Moldofa, Rwsia, Twrci neu'r Ukrain; neu
  - (b) unrhyw wlad y tu allan i Ewrop, ac eithrio Algeria, yr Aifft, Israel, Libya, Moroco neu Tunisia.
9. Grawn o'r genera *Triticum*, *Secale* neu *X Triticosecale* sy'n tarddu o Affganistan, India, Iran, Irac, Meccico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA.
10. Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2002/757/EC sy'n tarddu o UDA.
11. Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad 2007/365/EC.

12. Hadau neu gonau, y bwriedir eu defnyddio ar gyfer lluosogi, o'r genera neu rywogaethau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2007/433/EC.

13. Paill byw *Actinidia* Lindl.

14. Planhigion, ac eithrio hadau, *Mangifera* L. sy'n tarddu o India.

15. Rhannau o blanhigion, gan gynnwys hadau, *Fraxinus* L.

## RHAN B

Deunydd perthnasol, os bwriedir iddo fynd i barthau gwarchod penodol, na chaniateir iddo gael ei lanio onid yw tystysgrif ffytoiechydol yn mynd gydag ef

16. Planhigion *Beta vulgaris* L. y bwriedir eu defnyddio ar gyfer prosesu diwydiannol.

17. Pridd o fetys neu wastraff heb ei sterileiddio o fetys (*Beta vulgaris* L.).

18. Paill byw ar gyfer peillio *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L.

19. Rhannau o blanhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L.

20. Hadau *Castanea* Mill., *Dolichos* Jacq., *Magnifera* spp., *Beta vulgaris* L. neu *Phaseolus vulgaris* L.

21. Hadau neu ffrwythau (hadlestri) *Gossypium* spp. neu gotwm heb ei heislanu.

22. Ffrwythau *Vitis* L.

23. Rhannau o blanhigion *Eucalyptus* L'Hérit.

ATODLEN 6

Erthyglau 21(1) i (4) a 23(1)

Gwaharddiadau ar gyflwyno deunydd perthnasol i Gymru  
neu ei symud o fewn Cymru heb basbort planhigion

## RHAN A

Deunydd perthnasol na chaniateir iddo gael ei lanio yng Nghymru na'i symud o fewn Cymru onid yw pasbort planhigion yn mynd gydag ef

1. Planhigion, ac eithrio hadau, *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Prunus* L., ac eithrio *Prunus laurocerasus* L. neu *Prunus lusitanica* L., *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

2. Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L. neu *Humulus lupulus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

3. Planhigion o rywogaethau *Solanum* L., sy'n ffurfio stolon neu gloron, a fwriedir ar gyfer eu plannu.

4. Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Choisya* Kunth, *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Casimiroa* La Llave, *Clausena* Burm. f., *Murraya* J. Koenig ex L., *Vepris* Comm., *Zanthoxylum* L. neu *Vitis* L.

5. Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L.

6. Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf., gyda dail a phedynclau.

7. Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac a gynhyrchwyd ar wahân i gynhyrchion eraill o dan oruchwyliaeth corff cyfrifol swyddogol y wlad sy'n traddodi—

(a) planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, o'r genera *Abies* Mill., *Apium graveolens* L. *Argyranthemum* spp., *Asparagus officinalis* L., *Aster* spp., *Brassica* spp., *Castanea* Mill., *Cucumis* spp., *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L., *Exacum* spp., *Fragaria* L., *Gerbera* Cass., *Gypsophila* L, pob rhywogaeth o hybridau Guinea Newydd o *Impatiens* L., *Lactuca* spp., *Larix* Mill., *Leucanthemum* L., *Lupinus* L., *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L., *Platanus* L., *Populus* L., *Prunus laurocerasus* L., *Prunus lusitanica* L., *Pseudotsuga* Carr., *Quercus* L., *Rubus* L., *Spinacia* L., *Tanacetum* L., *Tsuga* Carr., *Ulmus* L., *Verbena* L. neu blanhigion eraill rhywogaethau llysiuol, ac eithrio planhigion o'r teulu Gramineae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, neu fylbiau, cormau, rhisomau, hadau neu gloron;

(b) planhigion Solanaceae, ac eithrio hadau neu'r rheini a bennir ym mharagraff 3, a fwriedir ar gyfer eu plannu;

(c) planhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, *Persea* spp. neu Strelitziaceae, sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu;

(d) planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5cm ac sy'n perthyn i'r genera a ganlyn: *Brahea* Mart, *Butia* Becc., *Chamaerops* L., *Jubaea* Kunth, *Livistona* R. Br., *Phoenix* L., *Sabal* Adans., *Syragrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.;

(e) hadau neu fylbiau *Allium ascalonicum* L., *Allium cepa* L. neu *Allium schoenoprasum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; planhigion *Allium porrum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu hadau *Medicago sativa* L., *Helianthus annuus* L, *Solanum lycopersicum* L. neu *Phaseolus* L.;

(f) bylbiau, cormau, cloron neu risomau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Camassia* Lindl., *Chionodoxa* Boiss., *Crocus flavus* Weston "Golden Yellow", *Dahlia* spp., *Galanthus* L., *Galtonia candicans* (Baker) Decne., cyltifarau bychain y genws *Gladiolus* Tourn. ex. L. (megis *Gladiolus callianthus* Marais, *Gladiolus colvillei* Sweet, *Gladiolus nanus* hort., *Gladiolus ramosus* hort. neu *Gladiolus tubergenii* hort.), *Hyacinthus* L., *Iris* L., *Ismene* Herbert, *Lilium* spp., *Muscari* Miller, *Narcissus* L., *Ornithogalum* L., *Puschkinia* Adams, *Scilla* L., *Tigridia* Juss. neu *Tulipa* L.

8. Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2002/757/EC sy'n tarddu o UDA.

9. Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Viburnum* spp., *Camellia* spp., *Rhododendron* spp., ac eithrio *Rhododendron simsii* Planch, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio UDA, neu o'r Undeb Ewropeaidd.

10. Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad 2007/365/EC.

11. Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2007/433/EC.
12. Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad 2012/138/EU sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Anoplophora chinensis* (Forster) yn bresennol neu sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 6 o'r Penderfyniad hwnnw, neu a gyflwynwyd i ardal o'r fath.
13. Cloron *Solanum tuberosum* L., gan gynnwys y rheini a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix similaris* (Gentner), *Epitrix subcrinita* (Lec.) neu *Epitrix tuberis* (Gentner) yn bresennol neu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/270/EU.
14. Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, na allant ond tyfu mewn dŵr neu bridd sydd wedi ei drwytho â dŵr yn barhaol ac sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/697/EU.
15. Paill byw neu blanhigion a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio hadau, *Actinidia* Lindl.
16. Planhigion tarddiol cyn-sylfaenol fel y'u diffinnir yn Erthygl 1(3) o Gyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn 2014/98/EU neu ddeunydd cyn-sylfaenol fel y'i diffinnir yn Erthygl 2(5) o Gyfarwyddeb y Cyngor 200/90EC—
- (a) sy'n perthyn i'r rhywogaethau *Juglans regia* L., *Olea europaea* L., *Prunus amygdalus* Batsch, *P. amygdalus* x *P. persica*, *P. armeniaca* L., *P. avium* (L.) L., *P. cerasus* L., *P. domestica* L., *P. domestica* x *P. salicina*, *P. dulcis* (Mill.) D.A. Webb, *P. persica* (L.) Batsch, neu *P. salicina* Lindley;
  - (b) a dyfwyd y tu allan i ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o Benderfyniad (EU) 2015/789; ac
  - (c) sydd wedi treulio o leiaf ran o'u bywyd y tu allan i gyfleusterau sy'n ddiogel rhag pryfed.
17. Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(c) o Benderfyniad (EU) 2015/789 sydd wedi eu tyfu am o leiaf ran o'u bywyd mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o'r Penderfyniad hwnnw neu blanhigion cynhaliol *Xylella* o fewn ystyr Erthygl 1(b) o'r Penderfyniad hwnnw nad ydynt erioed wedi cael eu tyfu mewn ardal o'r fath.
18. Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad (EU) 2015/893 sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Anoplophora glabripennis* (Motschulsky) yn bresennol neu sy'n tarddu o fan cynhyrchu a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 7 o'r Penderfyniad hwnnw, neu a gyflwynwyd i fan cynhyrchu o'r fath.
19. Planhigion *Fraxinus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

## RHAN B

Deunydd perthnasol na chaniateir ei lanio yng Nghymru na'i symud o fewn Cymru onid yw pasbort planhigion yn mynd gydag ef sy'n ddilys i Gymru fel parth gwarchod

20. Planhigion, ac eithrio hadau, *Platanus* L., *Prunus* L., *Quercus* spp., ac eithrio *Quercus suber*, neu *Ulmus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.
21. Planhigion, ac eithrio ffrwythau, *Castanea* Mill.
22. Planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r tacsonau a ganlyn: *Areca catechu* L., *Arenga pinnata* (Wurmb) Merr., *Bismarckia* Hildebr. a H. Wendl., *Borassus flabellifer* L., *Brahea* Mart., *Butia* Becc., *Calamus merrillii* Becc., *Caryota maxima* Blume, *Caryota cumingii* Lodd. ex Mart., *Chamaerops* L., *Cocos nucifera* L., *Copernicia* Mart., *Corypha utan* Lam., *Elaeis guineensis* Jacq., *Howea forsteriana* Becc., *Jubae* Kunth, *Livistona* R. Br., *Metroxylon sagu* Rottb., *Phoenix* L., *Pritchardia* Seem. a H. Wendl.,



*Ravenea rivularis* Jum. a H. Perrier, *Roystonea regia* (Kunth) O.F. Cook, *Sabal* Adans., *Syagrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.

23. Planhigion *Pinus* L.

24. Hadau *Castanea* Mill.

25. Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac a gynhyrchwyd ar wahân i gynhyrchion eraill o dan oruchwyliaeth corff cyfrifol swyddogol y wlad sy'n traddodi—

- (a) planhigion, ac eithrio cormau, hadau neu gloron, *Begonia* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu
- (b) planhigion, ac eithrio hadau, *Dipladenia* A.DC., *Euphorbia pulcherrima* Willd., *Ficus* L., *Hibiscus* L., *Mandevilla* Lindl. neu *Nerium oleander* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

ATODLEN 7

Erthygl 21(5) a (6)

Gwaharddiadau ar draddodi deunydd perthnasol i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd heb basbort planhigion

## RHAN A

Deunydd perthnasol na chaniateir iddo gael ei draddodi i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd onid yw pasbort planhigion yn mynd gydag ef

1. Planhigion, ac eithrio hadau, *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Prunus* L., ac eithrio *Prunus laurocerasus* L. neu *Prunus lusitanica* L., *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

2. Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L. neu *Humulus lupulus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

3. Planhigion o rywogaethau *Solanum* L., sy'n ffurfio stolon neu gloron, a fwriedir ar gyfer eu plannu.

4. Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Choisya* Kunth, *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Casimiroa* La Llave, *Clausena* Burm. f., *Murraya* J. Koenig ex L., *Vepris* Comm., *Zanthoxylum* L. neu *Vitis* L.

5. Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L.

6. Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., gyda dail a phedynclau.

7. Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac a gynhyrchwyd ar wahân i gynhyrchion eraill o dan oruchwyliaeth corff cyfrifol swyddogol y wlad sy'n traddodi—

- (a) planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, o'r genera *Abies* Mill., *Apium graveolens* L. *Argyranthemum* spp., *Asparagus officinalis* L., *Aster* spp., *Brassica* spp., *Castanea* Mill., *Cucumis* spp., *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L.,

*Exacum* spp., *Fragaria* L., *Gerbera* Cass., *Gypsophila* L, pob rhywogaeth o hybridau Guinea Newydd *Impatiens* L., *Lactuca* spp., *Larix* Mill., *Leucanthemum* L., *Lupinus* L., *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L., *Platanus* L., *Populus* L., *Prunus laurocerasus* L., *Prunus lusitanica* L., *Pseudotsuga* Carr., *Quercus* L., *Rubus* L., *Spinacia* L., *Tanacetum* L., *Tsuga* Carr., *Ulmus* L., *Verbena* L. neu blanhigion eraill rhywogaethau llysieuol, ac eithrio planhigion o'r teulu Gramineae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, neu fylbiau, cormau, rhisomau, hadau neu gloron;

- (b) planhigion Solanaceae, ac eithrio hadau neu'r rheini a bennir ym mharagraff 3, a fwriedir ar gyfer eu plannu;
- (c) planhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, *Persea* spp. neu Strelitziaceae, sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu;
- (d) planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r genera a ganlyn: *Brahea* Mart, *Butia* Becc., *Chamaerops* L., *Jubaea* Kunth, *Livistona* R. Br., *Phoenix* L., *Sabal* Adans., *Syragrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.;
- (e) hadau neu fylbiau *Allium ascalonicum* L., *Allium cepa* L. neu *Allium schoenoprasum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; planhigion *Allium porrum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu hadau *Medicago sativa* L., *Helianthus annuus* L., *Solanum lycopersicum* L. neu *Phaseolus* L.; neu
- (f) bylbiau, cormau, cloron neu risomau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Camassia* Lindl., *Chionodoxa* Boiss., *Crocus flavus* Weston "Golden Yellow", *Dahlia* spp., *Galanthus* L., *Galtonia candicans* (Baker) Decne., cyltifarau bychain y genws *Gladiolus* Tourn. ex L. (megis *Gladiolus callianthus* Marais, *Gladiolus colvillei* Sweet, *Gladiolus nanus* hort., *Gladiolus ramosus* hort. neu *Gladiolus tubergenii* hort.), *Hyacinthus* L., *Iris* L., *Ismene* Herbert, *Lilium* spp., *Muscari* Miller, *Narcissus* L., *Ornithogalum* L., *Puschkinia* Adams, *Scilla* L., *Tigridia* Juss. neu *Tulipa* L.

8. Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2002/757/EC sy'n tarddu o UDA.

9. Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Viburnum* spp., *Camellia* spp., *Rhododendron* spp., ac eithrio *Rhododendron simsii* Planch, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio UDA, neu o'r Undeb Ewropeaidd.

10. Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad 2007/365/EC.

11. Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2007/433/EC.

12. Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad 2012/138/EU sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Anoplophora chinensis* (Forster) yn bresennol neu sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 6 o'r Benderfyniad hwnnw, neu a gyflwynwyd i ardal o'r fath.

13. Cloron *Solanum tuberosum* L., gan gynnwys y rheini a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix similaris* (Gentner), *Epitrix subcrinita* (Lec.) neu *Epitrix tuberis* (Gentner) yn bresennol neu mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/270/EU.

14. Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, na allant ond tyfu mewn dŵr neu bridd sydd wedi ei drwytho â dŵr yn barhaol, ac sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/697/EU.

15. Paill byw neu blanhigion a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio hadau, *Actinidia* Lindl.

16. Planhigion tarddiol cyn-sylfaenol fel y'u diffinnir yn Erthygl 1(3) o Gyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn 2014/98/EU neu ddeunydd cyn-sylfaenol fel y'i diffinnir yn Erthygl 2(5) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC—

- (a) sy'n perthyn i'r rhywogaethau *Juglans regia* L., *Olea europaea* L., *Prunus amygdalus* Batsch, *P. amygdalus* x *P. persica*, *P. armeniaca* L., *P. avium* (L.) L., *P. cerasus* L., *P. domestica* L., *P. domestica* x *P. salicina*, *P. dulcis* (Mill.) D.A. Webb, *P. persica* (L.) Batsch, neu *P. salicina* Lindley;
- (b) a dyfwyd y tu allan i ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o Benderfyniad (EU) 2015/789; ac
- (c) sydd wedi treulio o leiaf ran o'u bywyd y tu allan i gyfleusterau sy'n ddiogel rhag pryfed.

17. Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(c) o Benderfyniad (EU) 2015/789 sydd wedi eu tyfu am o leiaf ran o'u bywyd mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o'r Penderfyniad hwnnw neu blanhigion cynhaliol *Xylella* o fewn ystyr Erthygl 1(b) o'r Penderfyniad hwnnw nad ydynt erioed wedi cael eu tyfu mewn ardal o'r fath.

18. Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad (EU) 2015/893 sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Anoplophora glabripennis* (Motschulsky) yn bresennol neu sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 7 o'r Penderfyniad hwnnw, neu a gyflwynwyd i ardal o'r fath.

19. Planhigion *Fraxinus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

## RHAN B

Deunydd perthnasol na chaniateir iddo gael ei draddodi i barth gwarchod mewn rhan arall o'r Undeb Ewropeaidd ond gan basbort planhigion sy'n ddilys ar gyfer y parth gwarchod hwnnw

20. Planhigion *Abies* Mill., *Larix* Mill., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L. neu *Pseudotsuga* Carr.

21. Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L., *Platanus* L., *Populus* L., *Prunus* L., *Quercus* spp., ac eithrio *Quercus suber*, neu *Ulmus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

22. Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Amelanchier* Med., *Castanea* Mill., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Eucalyptus* L'Hérit, *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L., *Sorbus* L. neu *Vitis* L.

23. Planhigion *Palmae*, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r tacsonau a ganlyn: *Areca catechu* L., *Arenga pinnata* (Wurmb) Merr., *Bismarckia* Hildebr. a H. Wendl., *Borassus flabellifer* L., *Brahea* Mart., *Butia* Becc., *Calamus merrillii* Becc., *Caryota maxima* Blume, *Caryota cumingii* Lodd. ex Mart., *Chamaerops* L., *Cocos nucifera* L., *Copernicia* Mart., *Corypha utan* Lam., *Elaeis guineensis* Jacq., *Howea forsteriana* Becc., *Jubae* Kunth, *Livistona* R. Br., *Metroxylon sagu* Rottb., *Phoenix* L., *Pritchardia* Seem. a H. Wendl., *Ravenea rivularis* Jum. a H. Perrier, *Roystonea regia* (Kunth) O.F. Cook, *Sabal* Adans., *Syagrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.

24. Paill byw ar gyfer peillio *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L.

25. Cloron *Solanum tuberosum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu.

26. Planhigion *Beta vulgaris* L. y bwriedir eu defnyddio ar gyfer prosesu diwydiannol.

27. Pridd o fetys neu wastraff heb ei sterileiddio o fetys (*Beta vulgaris* L.).

28. Hadau *Beta vulgaris* L., *Castanea* Mill., *Dolichos* Jacq., *Gossypium* spp. neu *Phaseolus vulgaris* L.

29. Ffrwythau (hadlestri) *Gossypium* spp. neu gotwm heb ei heislanu neu ffrwythau *Vitis* L.

30. Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac a gynhyrchwyd ar wahân i gynhyrchion eraill dan oruchwyliaeth corff cyfrifol swyddogol y wlad sy'n traddodi—

- (a) planhigion, ac eithrio cormau, hadau neu gloron, *Begonia* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu
- (b) planhigion, ac eithrio hadau, *Dipladenia* A.DC., *Euphorbia pulcherrima* Willd., *Ficus* L., *Hibiscus* L., *Mandevilla* Lindl. neu *Nerium oleander* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

## ATODLEN 8

Erthyglau 2(1) a 30

### Pasbortau planhigion y Swistir

## RHAN A

Deunydd perthnasol sy'n tarddu o'r Swistir y caniateir ei lanio yng Nghymru neu ei symud o fewn Cymru os yw pasbort planhigion y Swistir yn mynd gydag ef

1. Planhigion, ac eithrio hadau, *Amelanchier* Med., *Beta vulgaris* L., *Chaenomeles* Lindl., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Humulus lupulus* L., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Prunus* L., ac eithrio *Prunus laurocerasus* L. neu *Prunus lusitanica* L., *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

2. Planhigion o rywogaethau stolonog neu glorog *Solanum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu.

3. Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Casimiroa* La Llave, *Clausena* Burm.f., *Vepris* Comm., *Zanthoxylum* L. neu *Vitis* L.

4. Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., gyda dail a phedynclau.

5. Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac y mae'n amlwg eu bod wedi eu cynhyrchu ar wahân i gynhyrchion eraill, fel a warentir gan berson a awdurdodir gan ddeddfwriaeth y Swistir i roi gwarant o'r fath—

- (a) planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, o'r genera *Abies* Mill., *Apium graveolens* L., *Argyranthemum* spp., *Asparagus officinalis* L., *Aster* spp., *Brassica* spp., *Castanea* Mill., *Cucumis* spp., *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L., *Exacum* spp., *Fragaria* L., *Gerbera* Cass., *Gypsophila* L, pob rhywogaeth o hybridau Guinea Newydd *Impatiens* L., *Lactuca* spp., *Larix* Mill., *Leucanthemum* L., *Lupinus* L., *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L., *Platanus* L., *Populus* L., *Prunus laurocerasus* L., *Prunus lusitanica* L., *Pseudotsuga* Carr., *Quercus* L., *Rubus* L., *Spinacia* L., *Tanacetum* L., *Tsuga* Carr., *Verbena* L. neu blanhigion eraill rhywogaethau llysieuol, ac eithrio planhigion o'r teulu Gramineae neu fylbiau, cormau, rhisomau, neu gloron;

- (b) planhigion, ac eithrio hadau, Solanaceae, ac eithrio'r planhigion hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff 2, a fwriedir ar gyfer eu plannu;
- (c) planhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, *Persea* spp. neu Strelitziaceae, sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu;
- (d) planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r genera neu'r rhywogaethau a ganlyn: *Brahea* Mart., *Butia* Becc., *Chamaerops* L., *Jubaea* Kunth., *Livistona* R.Br., *Phoenix* L., *Sabal* Adans., *Syragrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.;
- (e) hadau neu fylbiau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Allium ascalonicum* L., *Allium cepa* L., *Allium schoenoprasum* L., *Helianthus annuus* L., *Medicago sativa* L., *Solanum lycopersicum* L. neu *Phaseolus* L.;
- (f) planhigion *Allium porrum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu
- (g) bylbiau, cormau, cloron neu risomau a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Camassia* Lindl., *Chionodoxa* Boiss., *Crocus flavus* Weston "Golden Yellow", *Dahlia* spp., *Galanthus* L., *Galtonia candicans* (Baker) Decne., cyltifarau bychain y genws *Gladiolus* Tourn. ex L. (megis *Gladiolus callianthus* Marais, *Gladiolus colvillei* Sweet, *Gladiolus nanus* hort., *Gladiolus ramosus* hort. neu *Gladiolus tubergenii* hort.), *Hyacinthus* L., *Iris* L., *Ismene* Herbert, *Lilium* spp., *Muscari* Miller, *Narcissus* L., *Ornithogalum* L., *Puschkinia* Adams, *Scilla* L., *Tigridia* Juss. neu *Tulipa* L.

## RHAN B

Deunydd perthnasol a gafodd ei fewnforio i'r Swistir o drydedd wlad arall, pe bai caniatâd i'w lanio yng Nghymru fel arfer pe bai tystysgrif ffytoiechydol yn mynd gydag ef, y caniateir i basbort planhigion y Swistir fynd gydag ef neu y caniateir ei lanio heb ddogfennaeth ffytoiechydol

- 6. Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu.
- 7. Hadau Cruciferae, Gramineae neu *Trifolium* spp. sy'n tarddu o'r Ariannin, Awstralia, Bolivia, Chile, Seland Newydd neu Uruguay.
- 8. Hadau *Allium ascalonicum* L., *Allium cepa* L., *Allium porrum* L., *Allium schoenoprasum* L., *Capsicum* spp., *Helianthus annuus* L., *Solanum lycopersicum* L., *Medicago sativa* L., *Phaseolus* L., *Prunus* L., *Rubus* L., *Oryza* spp. neu *Zea mays* L.
- 9. Hadau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle neu *Poncirus* Raf.
- 10. Hadau *Triticum*, *Secale* neu *X Triticosecale*, sy'n tarddu o Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA.
- 11. Rhannau o blanhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau—
  - (a) llyisiau deiliog *Apium graveolens* L., *Eryngium* L., *Limnophila* L. neu *Ocimum* L.;
  - (b) blodau *Aster* spp. wedi eu torri, *Eryngium* L., *Hypericum* L., *Lisianthus* L., *Rosa* L. neu *Trachelium* L., sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop, neu flodau Orchidaceae wedi eu torri;
  - (c) *Acer saccharum* Marsh, sy'n tarddu o Ganada neu UDA;
  - (d) *Castanea* Mill., coed conwydd (Coniferales), *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L., *Gypsophila* L., *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., *Phoenix* spp., *Populus* L., *Quercus* L. neu *Solidago* L.

- (e) *Prunus* L. sy'n tarddu o unrhyw wlad y tu allan i Ewrop;
- (f) dail *Manihot esculenta* Crantz;
- (g) canghennau *Betula* L. wedi eu torri, gyda deiliant neu heb ddeiliant;
- (h) canghennau *Fraxinus* L. wedi eu torri, *Juglans ailantifolia* Carr., *Juglans mandshurica* Maxim., *Ulmus davidiana* Planch. neu *Pterocarya rhoifolia* Siebold a Zucc., gyda deiliant neu heb ddeiliant, sy'n tarddu o Ganada, Tsieina, Gweriniaeth Ddemocrataidd Pobl Korea, Japan, Mongolia, Gweriniaeth Korea, Rwsia, Taiwan neu UDA;
- (i) *Amiris* P. Browne, *Casimiroa* La Llave, *Citropsis* Swingle a Kellerman, *Eremocitrus* Swingle, *Esenbeckia* Kunth., *Glycosmis* Corrêa, *Merrillia* Swingle, *Naringi* Adans., *Tetradium* Lour., *Toddalia* Juss. neu *Zanthoxylum* L.

**12.** Rhannau o blanhigion, ac eithrio ffrwythau ond gan gynnwys hadau, *Aegle* Corrêa, *Aeglopsis* Swingle, *Afraegle* Engl., *Atalantia* Corrêa, *Balsamocitrus* Stapf, *Burkillanthus* Swingle, *Calodendrum* Thunb., *Choisya* Kunth, *Clausena* Burm. f., *Limonia* L., *Microcitrus* Swingle, *Murraya* J. Koenig ex L., *Pamburus* Swingle, *Severinia* Ten., *Swinglea* Merr., *Triphasia* Lour. neu *Vepris* Comm.

**13.** Ffrwythau—

- (a) *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Momordica* L. neu *Solanum melongena* L.;
- (b) *Annona* L., *Cydonia* Mill., *Diospyros* L., *Malus* Mill., *Mangifera* L., *Passiflora* L., *Prunus* L., *Psidium* L., *Pyrus* L., *Ribes* L., *Syzygium* Gaertn., neu *Vaccinium* L., sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad y tu allan i Ewrop;
- (c) *Capsicum* L.

**14.** Cloron *Solanum tuberosum* L.

**15.** Pridd neu gyfrwng tyfu sydd ar ffurf, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pridd neu sylweddau organig solet megis rhannau o blanhigion neu hwmws, gan gynnwys mawn neu risgl, ac eithrio cyfrwng tyfu sydd ar ffurf mawn yn gyfan gwbl.

**16.** Pridd neu gyfrwng tyfu sy'n gysylltiedig â phlanhigion, neu yr ymddengys iddo fod mewn cysylltiad â phlanhigion, sydd ar ffurf, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, deunydd a bennir ym mharagraff 15 neu sydd ar ffurf, yn rhannol, unrhyw sylweddau anorganig solet, a fwriedir i gynnal bywiogrwydd planhigion, sy'n tarddu o—

- (a) Belarws, Georgia, Moldofa, Rwsia, Twrci neu'r Ukrain; neu
- (b) unrhyw wlad y tu allan i Ewrop, ac eithrio Algeria, yr Aifft, Israel, Libya, Moroco neu Tunisia.

**17.** Grawn o'r genera *Triticum*, *Secale* neu *X Triticosecale*, sy'n tarddu o Affganistan, India, Iran, Irac, Meccico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA.

## ATODLEN 9

Erthygl 2(1)

### Y gofynion o ran pasbortau planhigion

## RHAN A

### Y gofynion o ran pasbortau planhigion ar gyfer unrhyw ddeunydd perthnasol yn Atodlen 6 neu 7

1. Caniateir ond dyrannu pasbort planhigion mewn cysylltiad â deunydd perthnasol a fu'n destun arolygiad boddhaol yn y man y'i cynhyrchwyd.
2. Rhaid i basbort planhigion fod ar ffurf—
  - (a) label swyddogol sy'n cynnwys o leiaf fanylion y pasbort planhigion a bennir ym mharagraff 4(a) i (e); a
  - (b) dogfen o fath a ddefnyddir fel arfer at ddibenion masnach sy'n cynnwys holl fanylion y pasbort planhigion a bennir ym mharagraff 4.
3. Ond pan fo'r pasbort planhigion yn ymwneud ag unrhyw ddeunydd perthnasol y cyfeirir ato yn Rhan B, caiff y pasbort planhigion fod ar ffurf label swyddogol sy'n cynnwys manylion y pasbort planhigion a bennir ym mharagraff 4 ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol o dan Ran B.
4. Mae manylion y pasbort planhigion fel a ganlyn—
  - (a) y teitl "EU-plant passport";
  - (b) y cod ar gyfer yr Aelod-wladwriaeth lle y dyroddwyd y pasbort planhigion;
  - (c) enw neu god corff swyddogol cyfrifol yr Aelod-wladwriaeth lle y dyroddwyd y pasbort planhigion;
  - (d) rhif cofrestru'r cynhyrchydd, y mewnoforiwr neu berson arall sydd wedi ei awdurdodi i ddyroddi'r pasbort planhigion neu'r sawl y dyroddwyd y pasbort planhigion iddynt;
  - (e) rhif wythnos y dyddiad yr atodwyd y pasbort planhigion i'r deunydd perthnasol, neu rif cyfresol neu rif swp sy'n fodd o adnabod y deunydd hwnnw;
  - (f) enw botanegol Lladin y deunydd perthnasol y mae'r pasbort planhigion yn ymwneud ag ef;
  - (g) nifer y deunydd perthnasol y mae'r pasbort planhigion yn ymwneud â hwy (nifer y planhigion, y cynhyrchion planhigion, cyfaint neu bwysau);
  - (h) pan fo'r deunydd perthnasol yn bodloni'r gofynion ar gyfer parth gwarchod, y nod "ZP" a'r cod ar gyfer y parth gwarchod;
  - (i) yn achos pasbort planhigion amnewid, y nod "RP" a, phan fo'n briodol, god ar gyfer y cynhyrchydd neu'r mewnoforiwr a awdurdodwyd i ddyroddi'r pasbort planhigion gwreiddiol neu'r sawl y dyroddwyd y pasbort planhigion iddynt;
  - (j) yn achos deunydd perthnasol sy'n tarddu o drydedd wlad, enw'r wlad y mae'r deunydd yn tarddu ohoni neu (os yw'n briodol), y wlad y traddodwyd y deunydd ohoni i Gymru.
5. O ran label swyddogol—
  - (a) ni chaiff fod wedi ei ddefnyddio'n flaenorol;
  - (b) rhaid iddo fod wedi ei wneud o ddeunydd sy'n addas at ei ddiben; ac
  - (c) yn achos label gludiog, rhaid iddo fod ar ffurf a gymeradwyir at ddefnydd fel label swyddogol gan—
    - (i) yn achos pasbortau planhigion a ddyroddir yng Nghymru, Gweinidogion Cymru;

- (ii) yn achos pasbortau planhigion a ddyroddir mewn manau eraill yn yr Undeb Ewropeaidd, y corff swyddogol cyfrifol sydd â chyfrifoldeb mewn perthynas â dyroddi pasbortau planhigion yn y rhan berthnasol o'r Undeb Ewropeaidd.

6.—(1) Rhaid i'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys mewn pasbort planhigion—

- (a) bod mewn o leiaf un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd;
- (b) bod wedi ei hargraffu, ac eithrio pan na fo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny.

(2) Pan fo'r wybodaeth wedi ei hargraffu, rhaid iddi fod wedi ei hargraffu mewn priflythrennau.

(3) Pan na fo'r wybodaeth wedi ei hargraffu, rhaid iddi fod wedi ei nodi mewn teipysgrif neu ei hysgrifennu mewn priflythrennau.

7. Caiff dogfen ychwanegol o fath y cyfeirir ato ym mharagraff 2(b) gynnwys yr wybodaeth ychwanegol a bennir ym mharagraff 8 ar yr amod ei fod yn amlwg ar wahân i fanylion y pasbort planhigion sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen.

8. Yr wybodaeth ychwanegol yw unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol at ddiben labelu'r deunydd perthnasol y mae'n ymwneud ag ef ac a nodir yn—

- (a) Erthygl 2(1) o Gyfarwyddeb y Comisiwn 1999/66/EC sy'n nodi'r gofynion o ran y label neu ddogfen arall a gaiff ei llunio gan y cyflenwr yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 98/56/EC(3);
- (b) Erthygl 8(1) o Gyfarwyddeb y Comisiwn 93/48/EEC sy'n nodi'r atodlen sy'n nodi'r amodau sydd i'w bodloni gan ddeunydd lluosogi planhigion ffrwythau a phlanhigion ffrwythau y bwriedir eu defnyddio i gynhyrchu ffrwythau, yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 92/34/EEC(4); neu
- (c) Erthygl 6(1) o Gyfarwyddeb y Comisiwn 93/61/EEC sy'n nodi'r atodlenni sy'n nodi'r amodau sydd i'w bodloni gan ddeunydd lluosogi a phlannu llysiau, ac eithrio hadau, yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 92/33/EEC(5).

## RHAN B

### Y gofynion o ran pasbortau planhigion a ganiateir ar gyfer deunydd perthnasol penodol yn Atodlen 6 neu 7

9. Rhaid i label swyddogol sy'n basbort planhigion neu'n rhan o basbort planhigion ac sy'n ymwneud ag unrhyw ddeunydd perthnasol a bennir yn y Rhan hon gydymffurfio â'r gofynion a ganlyn mewn perthynas â'r deunydd hwnnw.

10. Rhaid i label swyddogol mewn cysylltiad â chloron *Solanum tuberosum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu—

- (a) cydymffurfio â gofynion Erthygl 13(1)(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/56/EC ar farchnata tatws hadyd(6);
- (b) cynnwys y teitl “EU-plant passport”; ac
- (c) pan fwriedir y cloron ar gyfer eu traddodi i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd, ddarparu tystiolaeth eu bod wedi eu harchwilio yn swyddogol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion yn eitem 18.1 o Adran II o Atodiad IV Rhan A.

(3) OJ Rhif L 164, 30.6.1999, t. 76.

(4) OJ Rhif L 250, 7.10.1993, t. 1.

(5) OJ Rhif L 250, 7.10.1993, t. 19.

(6) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 60, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.



- 11.** Rhaid i label swyddogol mewn cysylltiad â hadau *Helianthus annuus* L.—
- (a) cydymffurfio â gofynion Erthygl 12(1)(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/57/EC ar farchnata hadau planhigion olew a ffibr(7);
  - (b) cynnwys y teitl “EU-plant passport”; a
  - (c) pan fwriedir yr hadau ar gyfer eu traddodi i ran arall o’r Undeb Ewropeaidd, ddarparu tystiolaeth eu bod wedi eu harchwilio yn swyddogol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r gofynion yn eitem 26 o Adran II o Atodiad IV Rhan A.
- 12.** Rhaid i label swyddogol mewn cysylltiad â hadau *Solanum lycopersicum* L.—
- (a) cydymffurfio â gofynion Erthygl 28(1)(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC ar farchnata hadau llysiau(8);
  - (b) cynnwys y teitl “EU-plant passport”; ac
  - (c) pan fwriedir yr hadau ar gyfer eu traddodi i ran arall o’r Undeb Ewropeaidd, ddarparu tystiolaeth eu bod wedi eu harchwilio yn swyddogol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r gofynion yn eitem 27 neu 29 o Adran II o Atodiad IV Rhan A.
- 13.** Rhaid i label swyddogol mewn cysylltiad â hadau *Medicago sativa* L.—
- (a) cydymffurfio â gofynion Erthygl 10(1)(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 66/401/EEC ar farchnata hadau planhigion porthiant(9);
  - (b) cynnwys y teitl “EU-plant passport”; ac
  - (c) pan fwriedir yr hadau ar gyfer eu traddodi i ran arall o’r Undeb Ewropeaidd, ddarparu tystiolaeth eu bod wedi eu harchwilio yn swyddogol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r gofynion yn eitemau 28.1 a 28.2 o Adran II o Atodiad IV Rhan A.

---

(7) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 74, fel y’i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/68/EU (OJ Rhif L 195, 24.7.2002, t. 32); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw yr un ohonynt yn berthnasol.

(8) OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 33, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i’r Gorchymyn hwn.

(9) OJ Rhif L 125, 11.7.1966, t. 2298, fel y’i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 96/72/EC (OJ Rhif L 304, 27.11.1996, t. 10); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw yr un ohonynt yn berthnasol.

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

ATODLEN 10

Erthygl 2(1)

Ffurf tystysgrif ffytoiechydol a ffurf tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio

### RHAN A

## Ffurf tystysgrif ffytoiechydol PHYTOSANITARY CERTIFICATE

No .....

Plant protection organisation of:.....

To plant protection organisation(s) of: .....

### I. Description of consignment

Name and address of exporter: .....

Declared name and address of consignee: .....

Number and description of packages: .....

Distinguishing marks: .....

Place of origin: .....

Declared means of conveyance: .....

Declared point of entry:.....

Name of produce and quantity declared: .....

Botanical name of plants: .....

This is to certify that the plants, plant products or other regulated articles described herein have been inspected and/or tested according to appropriate official procedures and are considered to be free from the quarantine pests specified by the importing contracting party and to conform with the current phytosanitary requirements of the importing contracting party, including those for regulated non-quarantine pests.

They are deemed to be practically free from other pests<sup>(\*)</sup>.

### II. Additional declaration

### III. Disinfestation and/or disinfection treatment

Date: .....Treatment: ..... Chemical (active ingredient): .....

Duration and temperature: .....

Concentration: .....

Additional information: .....

Place of issue: .....

Name of authorised officer: .....

Date .....

(Stamp of organisation)

(signature)

No financial liability with respect to this certificate attaches to.....

(name of plant protection organisation) or to any of its officers or representatives<sup>(\*)</sup>. .....

Optional clause

# RHAN B

## Ffurf tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio PHYTOSANITARY CERTIFICATE FOR RE-EXPORT

No.....

Plant protection organisation of: .....(contracting party of re-export)  
 To plant protection organisation(s) of: ..... (contracting party(ies) of import)

### I. Description of consignment

Name and address of exporter: .....  
 Declared name and address of consignee:.....  
 Number and description of packages: .....  
 Distinguishing marks: .....  
 Place of origin: .....  
 Declared means of conveyance: .....  
 Declared point of entry:.....  
 Name of produce and quantity declared: .....  
 Botanical name of plants: .....

This is to certify that the plants, plant products or other regulated articles described above..... were imported into (contracting party of re-export) ..... from ..... (contracting party of origin) covered by phytosanitary certificate No .....  original  certified true copy  of which is attached to this certificate; that they are packed  repacked  in original   new  containers, that based on the original phytosanitary certificate  and additional inspection , they are considered to conform with the current phytosanitary requirements of the importing contracting party, and that during storage in .....(contracting party of re-export), the consignment has not been subjected to the risk of infestation or infection.

### II. Additional declaration

### III. Disinfestation and/or disinfection treatment

Date: .....Treatment: ..... Chemical (active ingredient):.....  
 Duration and temperature: .....  
 Concentration: .....  
 Additional information: .....

Place of issue: .....  
 Name of authorised officer: .....  
 Date: ..... (signature)

(Stamp of organisation)

No financial liability with respect to this certificate attaches to..... (name of plant protection organisation) or to any of its officers or representatives<sup>(\*)</sup>.  
 (\*) Insert tick in appropriate  boxes. (\*\*) Optional clause.

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

ATODLEN 11

Erthygl 6(2)

Hysbysiad glanio

Notice of landing of notifiable relevant material required by article 6(1) of the Plant Health (Wales) Order 2018

- 1. Details of relevant material .....
- 2. Quantity of relevant material .....
- 3. Consignor country .....
- 4. Country where consigned .....
- 5. Consignor .....
- 6. Importer .....
- 7. Country of destination .....
- 8. Intended point of entry in Wales .....
- 9. Air: Flight No. ....
- 10. Land: Vehicle registration number .....
- 11. Sea: Vessel name and container number or numbers .....
- 12. Expected date and time of arrival .....
- 13. Additional information (where required) .....

Signature of importer or airport or harbour authority

Date.....

(The information contained in the notice must be completed in English and in typescript or block capitals)

ATODLEN 12

Erthygl 2(1)

Dogfen symud iechyd planhigion

RHAN A

1. Rhaid i'r ddogfen symud iechyd planhigion sy'n ofynnol o dan erthygl 17(6) fod ar y ffurf a nodir yn Rhan B.

2. Rhaid i'r wybodaeth a gynhwysir mewn dogfen symud iechyd planhigion fod wedi ei nodi yn o leiaf un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a rhaid iddi gael ei llenwi—

- (a) mewn teipysgrif neu drwy ysgrifennu mewn priflythrennau; neu

(b) gyda chytundeb Gweinidogion Cymru a chorff swyddogol y gyrchfan neu fan cyrraedd, drwy ddulliau electronig.

**3.** Yn Rhan B, mae i “approved place of inspection” yr un ystyr ag a roddir yng Nghyfarwyddeb y Comisiwn 2004/103/EC ar wiriadau adnabod planhigion ac iechyd planhigion, cynnyrch planhigion neu wrthrychau eraill, a restrir yn Rhan B o Atodiad V i Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC, y caniateir eu cyflawni mewn man ac eithrio man cyrraedd y Gymuned neu mewn man gerllaw, ac yn pennu’r amodau sy’n ymwneud â’r gwiriadau hynny**(10)**.

---

**(10)** OJ Rhif L 313, 12.10.2004, t. 16.

*Statws* This is the original version (as it was originally made).

## RHAN B

1. Plant health movement document as referred to in Article 1(3)(c) of Commission Directive 2004/103/EC	<b>2. PLANT HEALTH MOVEMENT DOCUMENT</b> No EU/.../... <sup>(1)</sup>	
3. <u>Identification of consignment</u> <sup>(2)</sup> — <i>This consignment contains produce of phytosanitary relevance</i> — Plant, plant product or other object (Taric code): ..... Reference number(s) of required phytosanitary documentation ..... Country of issue: ..... Date of issue: ..... Distinguishing mark(s), numbers, number of packages, amount (weight/units): ..... ..... Reference number(s) of required customs documentation: .....		
4. Official registration number of importer: ..... I, the undersigned importer, hereby request the responsible official body to carry out the official identity checks and plant health checks of the abovementioned plants, plant products or other objects at the approved place of inspection listed below and I undertake to respect the rules and procedures set out by the responsible official body. Date, name and signature of importer: .....		
5.1 <u>Point of entry</u>	5.2 Countersigning by official body of point of entry (date, name, service stamp and signature): ..... .....	
6. Place(s) of inspection <sup>(3)</sup>		
A- ..... .....	B- (replaces A)..... .....	
The plants, plant products or other objects are moved to the abovementioned place(s) of inspection in accordance with the agreement concluded between <sup>(4)</sup> .....		
<b>The consignment may not be moved to places other than those listed above unless this has been officially approved.</b>		
7. Documentary check <input type="checkbox"/>	8. Identity check <input type="checkbox"/>	
9. Plant health check <input type="checkbox"/>		
Place/date: ..... Name: .....	Place/date: ..... Name: .....	Place/date: ..... Name: .....
10. Decision: <input type="checkbox"/> Release Place/date: ..... Name: ..... ..... Service stamp/signature: ..... Indicate EU Plant Passport (serial or week or batch) number where appropriate: ..... <input type="checkbox"/> Official measure <input type="checkbox"/> Refusal of entry <input type="checkbox"/> Destruction		

<input type="checkbox"/> Movement outside the Union <input type="checkbox"/> Quarantine period <input type="checkbox"/> Removal of infected/infested produce <input type="checkbox"/> Appropriate treatment Remark: .....
---

- (1) Make reference to country code/number.
- (2) Fill in box or make reference to information of phytosanitary certificate which must be attached.
- (3) Make reference to "C" (Article 13c(2)(d) of Directive 2000/29/EC) or "D" (Article 13c(2)(d) of Directive 2000/29/EC).
- (4) When appropriate, give details on agreement between the Member States' official services, either on a case-by-case agreement or on the basis of a longer-term agreement.

ATODLEN 13

Erthygl 39(3)

Mesurau arbennig ar gyfer rheoli Clefyd y ddafaden tatws

1. Mae llain i'w hystyried yn halogedig at ddibenion yr Atodlen hon os cadarnheir bod Clefyd y ddafaden tatws yn bresennol ar o leiaf un planhigyn o'r llain o ganlyniad i brawf swyddogol.
2. Rhaid i arolygydd ddarnodi llain halogedig a pharth diogelwch o amgylch y llain honno sy'n ddigon mawr i sicrhau diogelwch yr ardaloedd oddi amgylch.
3. Caiff hysbysiad o dan erthygl 32 ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gloron neu wlydd sy'n bresennol ar lain halogedig neu sydd wedi dod o lain o'r fath gael eu trin mewn modd sy'n sicrhau bod Clefyd y ddafaden tatws sy'n bresennol arnynt yn cael ei ddinistrio.
4. Pan fo arolygydd wedi ei fodloni bod unrhyw gloron neu wlydd wedi eu halogi â Chlefyd y ddafaden tatws ac na all yr arolygydd ganfod pa un a fu'r cloron neu'r gwlydd hynny yn bresennol ar lain halogedig, caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad o dan erthygl 32 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r swp cyfan sy'n cynnwys y cloron neu'r gwlydd a effeithiwyd gael ei drin mewn modd sy'n sicrhau nad oes unrhyw risg o ledaenu Clefyd y ddafaden tatws.
5. Pan fo llain halogedig wedi ei darnodi o dan baragraff 2—
  - (a) ni chaniateir tyfu unrhyw datws arni; a
  - (b) ni chaniateir tyfu na storio unrhyw blanhigion y bwriedir eu trawsblannu ar y llain honno, na symud planhigion o'r fath ar y llain honno.
6. Ni chaniateir tyfu unrhyw datws mewn parth diogelwch a ddarnodwyd o dan baragraff 2 oni bai bod arolygydd wedi ei fodloni eu bod o rywogaeth sydd ag ymwrthedd i hiliau o Glefyd y ddafaden tatws sy'n bresennol ar y llain halogedig y mae'r parth diogelwch yn ymwneud â hi.
7. Mae amrywogaeth datws i'w hystyried yn un sydd ag ymwrthedd i hil benodol o Glefyd y ddafaden tatws at ddibenion paragraff 6 pan fo'r amrywogaeth honno yn ymateb i halogi gan asiant pathogenig o'r hil honno mewn modd sy'n sicrhau nad oes unrhyw berygl o sgil-heintio.
8. Pan fo arolygydd wedi ei fodloni nad yw Clefyd y ddafaden tatws yn bresennol mwyach ar lain a ddarnodwyd o dan baragraff 2 neu ar ei pharth diogelwch cysylltiedig, rhaid i'r arolygydd ddirymu'r darnodiad hwnnw.

## ATODLEN 14

Erthygl 39(3)

Mesurau arbennig ar gyfer rheoli poblogaethau Ewropeaidd o Lyngyr tatws

**Dehongli a chymhwyso Atodlen 14**

1. Mae'r Atodlen hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru, yn dilyn ymchwiliad arbennig at ddibenion Erthygl 4 o Gyfarwyddeb 2007/33/EC neu arolwg swyddogol at ddibenion Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb honno, yn cadarnhau bod cae wedi ei heigio â phoblogaeth Ewropeaidd o Lyngyr tatws.

2. Yn yr Atodlen hon, ystyr "cae sydd wedi ei ddarnodi" ("*demarcated field*") yw cae y mae hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff 3 mewn grym mewn cysylltiad ag ef.

**Darnodi'r cae**

3. Rhaid i arolygydd gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meddiannydd neu berson arall â gofal am y cae sydd—

- (a) yn pennu'r cae y mae'r hysbysiad yn gymwys iddo; a
- (b) yn darnodi ffiniau'r cae hwnnw.

4. Ni chaniateir tynnu'r hysbysiad yn ôl hyd nes caiff ei gadarnhau, yn unol â'r mesurau ail-samplu a phrofi a nodir yn Adran III(C) o Atodiad III i Gyfarwyddeb 2007/33/EC, nad yw Llyngyr tatws yn bresennol yn y cae mwyach.

**Gwaharddiad ar blannu tatws**

5. Oni chaiff ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd, ni chaiff unrhyw berson—

- (a) plannu mewn cae sydd wedi ei ddarnodi unrhyw datws y bwriedir eu defnyddio i gynhyrchu tatws hadyd; neu
- (b) plannu neu storio mewn cae sydd wedi ei ddarnodi unrhyw blanhigyn a restrir yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2007/33/EC a fwriedir ar gyfer ei blannu.

6. Caiff arolygydd awdurdodi plannu mewn cae sydd wedi ei ddarnodi unrhyw blanhigyn a restrir ym mhwynt 2 o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2007/33/EC.

7. Rhaid i awdurdodiad o dan baragraff 6 fod drwy hysbysiad a rhaid iddo gynnwys y mesurau a nodir yn Adran III(A) o Atodiad III i Gyfarwyddeb 2007/33/EC.

**Atal Llyngyr tatws**

8. Ni chaiff unrhyw berson blannu mewn cae sydd wedi ei ddarnodi unrhyw datws nad ydynt wedi eu bwriadu ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd oni bai bod y person hwnnw wedi cymryd pob cam rhesymol i atal Llyngyr tatws yn y cae hwnnw.

**Rheolaethau ar datws hadyd halogedig etc.**

9. Ni chaiff unrhyw berson blannu unrhyw datws hadyd nac unrhyw blanhigion a restrir ym mhwynt 1 o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2007/33/EC sy'n dod o gae sydd wedi ei ddarnodi, neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â phridd o gae sydd wedi ei ddarnodi, oni bai bod ei fod wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd.

10. Rhaid i awdurdodiad o dan baragraff 9 fod drwy hysbysiad a rhaid iddo gynnwys y mesurau y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i ddadhalogi'r tatws hadyd hynny neu'r planhigion hynny.



## Rheolaethau ar fylbiau halogedig etc.

11. Ni chaiff unrhyw berson blannu unrhyw blanhigion a restrir ym mhwynt 2 o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2007/33/EC sy'n dod o gae sydd wedi ei ddarnodi, neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â phridd o gae sydd wedi ei ddarnodi, oni bai ei fod wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd.

12. Rhaid i awdurdodiad o dan baragraff 11 fod drwy hysbysiad, a rhaid iddo gynnwys y mesurau a nodir yn Adran III(A) o Atodiad III i'r Gyfarwyddeb honno.

## ATODLEN 15

Erthygl 39(3)

### Mesurau arbennig ar gyfer rheoli Pydredd cylch tatws

## Dehongli

### 1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr “blwyddyn dyfu gyntaf” (“*first growing year*”), yn achos mesurau sydd i’w cymryd mewn perthynas â man cynhyrchu halogedig, yw’r flwyddyn dyfu gyntaf yn dilyn y flwyddyn dyfu pryd y dynodir y man cynhyrchu yn halogedig at ddibenion Erthygl 5(1)(a) o Gyfarwyddeb 93/85/EEC;

ystyr “deunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau” (“*susceptible material*”) yw cloron neu blanhigion *Solanum tuberosum* L;

ystyr “gwrthrych” (“*object*”) yw unrhyw beiriant, cerbyd, llestr, storfa neu wrthrych arall, gan gynnwys deunydd pecynnu;

ystyr “halogedig” (“*contaminated*”) yw wedi ei ddynodi’n halogedig gan arolygydd at ddibenion Erthygl 5(1)(a) o Gyfarwyddeb 93/85/EEC;

ystyr “halogedig o bosibl” (“*possibly contaminated*”) yw wedi ei bennu’n halogedig o bosibl gan arolygydd at ddibenion Erthygl 5(1)(b) o Gyfarwyddeb 93/85/EEC;

ystyr “hysbysiad” (“*notice*”) yw hysbysiad o dan erthygl 32;

ystyr “tatws hadyd ardystiedig” (“*certified seed potatoes*”) yw tatws hadyd cyn-sylfaenol, tatws hadyd sylfaenol neu datws hadyd ardystiedig fel y’u diffinir gan reoliad 2(1) o’r Rheoliadau Tatws Hadyd.

## Deunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau neu wrthrychau sy’n halogedig neu’n halogedig o bosibl â Phydredd cylch tatws

2. Ni chaiff unrhyw berson blannu yn fwriadol, neu beri neu ganiatáu yn fwriadol i gael eu plannu—

- (a) unrhyw ddeunydd halogedig sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau; neu
- (b) unrhyw ddeunydd halogedig o bosibl sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau.

### 3. Caiff hysbysiad ei gwneud yn ofynnol—

- (a) bod deunydd halogedig sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau yn cael ei waredu drwy ei ddinistrio neu drwy unrhyw fesur arall sy’n cydymffurfio â phwynt 1 o Atodiad IV i Gyfarwyddeb 93/85/EEC;
- (b) bod deunydd sy’n halogedig o bosibl sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau yn cael ei ddefnyddio neu ei waredu yn unol â phwynt 2 o Atodiad IV i Gyfarwyddeb 93/85/EEC;
- (c) bod gwrthrych sy’n halogedig neu wrthrych sy’n halogedig o bosibl yn cael ei—

- (i) gwaredu drwy ei ddinistrio; neu
- (ii) glanhau a'i ddiheintio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Pydredd cylch tatws.

4. Ni chaniateir trin unrhyw beth a lanheir ac a ddiheintir yn unol â pharagraff 3(c)(ii) yn halogedig mwyach at ddibenion Cyfarwyddeb [93/85/EEC](#).

#### **Mesurau y caniateir eu gwneud yn ofynnol mewn perthynas â man cynhyrchu halogedig**

5. Caiff arolygydd gyflwyno'r hysbysiadau a ganlyn mewn perthynas â man cynhyrchu halogedig—

- (a) yn achos cae halogedig, hysbysiad sy'n cynnwys y set gyntaf o fesurau dileu neu hysbysiad sy'n cynnwys yr ail set o fesurau dileu;
- (b) yn achos cae nad yw'n halogedig, hysbysiad sy'n cynnwys y drydedd set o fesurau dileu.

6. Y set gyntaf o fesurau dileu yw—

- (a) y mesurau sydd i'w cymryd yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ac am o leiaf dair blynedd dyfu o ddechrau'r flwyddyn dyfu gyntaf er mwyn dileu planhigion tatws gwirfoddol, ac unrhyw blanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws;
- (b) gwaharddiad ar blannu unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn y cae yn ystod y cyfnod hwnnw—
  - (i) cloron, planhigion neu wir hadau tatws;
  - (ii) planhigion sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws;
  - (iii) cnydau lle ceir risg bod Pydredd cylch tatws yn goroesi neu'n lledaenu;
- (c) gofyniad mai dim ond tatws ar gyfer cynhyrchu tatws bwyta y caniateir eu plannu yn y cae yn ystod y tymor cnydio tatws cyntaf yn dilyn y cyfnod hwnnw, ar yr amod y canfuwyd bod y cae yn rhydd rhag planhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws am o leiaf ddwy flwyddyn dyfu yn olynol cyn plannu; a
- (d) gofyniad mai dim ond tatws ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta y caniateir eu plannu yn y cae yn ystod y tymor cnydio tatws nesaf yn dilyn cylch cylchdroi priodol (rhaid i'r cylch hwnnw fod o leiaf ddwy flynedd pan fo'r tatws i'w plannu i gynhyrchu tatws hadyd).

7. Yr ail set o fesurau dileu yw—

- (a) y mesurau sydd i'w cymryd yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ac am bedair blwyddyn dyfu o ddechrau'r flwyddyn dyfu gyntaf er mwyn dileu planhigion tatws gwirfoddol, a phlanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws;
- (b) gofyniad bod y cae yn cael ei gadw, yn ystod y cyfnod hwnnw, yn fraenar neu'n dir pori parhaol, gan dorri'r borfa yn fyr neu bori'r tir yn ddwys yn fynych; ac
- (c) gofyniad mai dim ond tatws ar gyfer cynhyrchu tatws bwyta y caniateir eu plannu yn ystod y tymor cnydio tatws cyntaf yn dilyn y cyfnod hwnnw, ar yr amod y canfuwyd bod y cae yn rhydd rhag planhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws am o leiaf ddwy flwyddyn dyfu yn olynol cyn plannu.

8. Y drydedd set o fesurau dileu yw—

- (a) gwaharddiad ar blannu unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ac am y flwyddyn dyfu gyntaf—
  - (i) cloron, planhigion neu wir hadau tatws;

- (ii) planhigion sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws; a
- (iii) tatws hadyd ardystiedig, oni bai eu bod ar gyfer cynhyrchu tatws bwyta yn unig, a bod arolygydd wedi ei fodloni bod y risg o blanhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws wedi ei dileu;
- (b) gofyniad mai dim ond y tatws a ganlyn y caniateir eu plannu ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta yn y flwyddyn dyfu ganlynol—
  - (i) tatws hadyd ardystiedig; a
  - (ii) tatws hadyd a brofwyd yn swyddogol ar gyfer absenoldeb Pydredd cylch tatws ac a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol mewn man cynhyrchu nad yw'n fan cynhyrchu halogedig;
- (c) gofyniad mai dim ond tatws hadyd ardystiedig neu datws hadyd a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol o datws hadyd ardystiedig y caniateir eu plannu i gynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta yn ystod o leiaf y drydedd flwyddyn dyfu; a
- (d) y mesurau sydd i'w cymryd yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad hyd at ddiwedd y drydedd flwyddyn dyfu er mwyn dileu planhigion tatws gwirfoddol, ac unrhyw blanhigion sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd cylch tatws.

**9.** Caniateir i hysbysiad mewn perthynas â man cynhyrchu halogedig bennu bod rhaid i'r holl beiriannau a chyfleusterau storio yn y man cynhyrchu a ddefnyddir i gynhyrchu tatws gael eu glanhau a'u diheintio fel nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Pydredd cylch tatws drwy gydol y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

**10.** Caiff y mesurau y caniateir eu pennu mewn hysbysiad o dan baragraff 5 neu 9 gael eu cynnwys mewn hysbysiad gyda mesurau priodol eraill.

### **Mesurau ychwanegol sy'n gymwys mewn perthynas ag uned gynhyrchu cnwd dan orchudd**

**11.** Pan fo'n bosibl amnewid yr holl gyfrwng tyfu mewn uned gynhyrchu cnwd dan orchudd halogedig, ni chaiff unrhyw berson blannu yn yr uned unrhyw gloron tatws, planhigion tatws na gwir hadau tatws heb awdurdodiad ysgrifenedig arolygydd.

**12.** Ni chaiff arolygydd roi awdurdodiad o dan baragraff 11 oni bai—

- (a) y cydymffurfiwyd â'r holl fesurau i ddileu Pydredd cylch tatws a bennir mewn hysbysiad mewn perthynas â'r man cynhyrchu lle y mae'r uned wedi ei lleoli;
- (b) bod y cyfrwng tyfu yn yr uned wedi ei newid yn llwyr; ac
- (c) bod yr uned a'r holl gyfarpar a ddefnyddiwyd yn yr uned wedi eu glanhau a'u diheintio i ddileu Pydredd cylch tatws a bod yr holl ddeunydd planhigion cynhaliol wedi ei symud ymaith.

**13.** Pan roddir awdurdodiad o dan baragraff 11, caiff yr awdurdodiad bennu mai dim ond tatws hadyd ardystiedig, cloron bychain neu ficro-blanhigion sy'n deillio o ffynonellau a brofwyd yn swyddogol y caniateir eu defnyddio yn y broses gynhyrchu.

ATODLEN 16

Erthygl 39(3)

Pydredd coch tatws

### **Dehongli**

1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr “blwyddyn dyfu gyntaf” (“*first growing year*”), yn achos mesurau sydd i’w cymryd mewn perthynas â man cynhyrchu halogedig, yw’r flwyddyn dyfu gyntaf yn dilyn y flwyddyn dyfu pryd y dynodir y man cynhyrchu yn halogedig at ddibenion Erthygl 5(1)(a)(ii) o Gyfarwyddeb 98/57/EC;

ystyr “deunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau” (“*susceptible material*”) yw planhigion (gan gynnwys cloron), ac eithrio gwir hadau, *Solanum tuberosum* L. neu blanhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Solanum lycopersicum* L;

ystyr “gwrthrych” (“*object*”) yw unrhyw beiriant, cerbyd, llestr, storfa neu wrthrych arall, gan gynnwys deunydd pecynnu;

ystyr “halogedig” (“*contaminated*”) yw wedi ei ddynodi’n halogedig gan arolygydd at ddibenion Erthygl 5(1)(a)(ii) o Gyfarwyddeb 98/57/EC;

ystyr “halogedig o bosibl” (“*possibly contaminated*”) yw wedi ei bennu’n halogedig o bosibl gan arolygydd at ddibenion Erthygl 5(1)(a)(iii) neu (c)(iii) o Gyfarwyddeb 98/57/EC;

ystyr “hysbysiad” (“*notice*”), yn Rhan A, yw hysbysiad o dan erthygl 32;

ystyr “tatws hadyd ardystiedig” (“*certified seed potatoes*”) yw tatws hadyd cyn-sylfaenol, tatws hadyd sylfaenol neu datws hadyd ardystiedig fel y’u diffinir gan reoliad 2(1) o’r Rheoliadau Tatws Hadyd.

## RHAN A

### Mesurau arbennig ar gyfer rheoli Pydredd coch tatws

#### **Deunydd sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau neu wrthrychau sy’n halogedig neu’n halogedig o bosibl â Phydredd coch tatws**

2. Ni chaiff unrhyw berson blannu yn fwriadol, neu beri neu ganiatáu yn fwriadol i gael eu plannu—

- (a) unrhyw ddeunydd halogedig sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau; neu
- (b) unrhyw ddeunydd sy’n halogedig o bosibl sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau.

3. Caiff hysbysiad ei gwneud yn ofynnol—

- (a) bod deunydd halogedig sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau yn destun unrhyw fesur sy’n cydymffurfio â phwynt 1 o Atodiad VI i Gyfarwyddeb 98/57/EC;
- (b) bod deunydd sy’n halogedig o bosibl sy’n dueddol o gael plâu neu glefydau yn cael ei ddefnyddio neu ei waredu yn unol â phwynt 2 o Atodiad VI i Gyfarwyddeb 98/57/EC;
- (c) bod gwrthrych halogedig neu wrthrych sy’n halogedig o bosibl yn cael ei—
  - (i) gwaredu drwy ei ddinistrio; neu
  - (ii) glanhau a’i ddiheintio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Pydredd coch tatws.

4. Ni chaniateir trin unrhyw beth a lanheir ac a ddiheintir yn unol â pharagraff 3(c)(ii) yn halogedig mwyach at ddibenion Cyfarwyddeb 98/57/EC.

#### **Mesurau y caniateir eu gwneud yn ofynnol mewn perthynas â man cynhyrchu halogedig**

5. Caiff arolygydd gyflwyno’r hysbysiadau a ganlyn mewn perthynas â man cynhyrchu halogedig sydd mewn parth a ddarnodir gan arolygydd o dan erthygl 39(4)—

- (a) yn achos cae halogedig neu uned gynhyrchu cnwd dan orchudd halogedig, hysbysiad sy'n cynnwys y set gyntaf o fesurau dileu neu hysbysiad sy'n cynnwys yr ail set o fesurau dileu;
  - (b) yn achos cae nad yw'n halogedig a, phan fo'r arolygydd wedi ei fodloni bod y risg o blanhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion tomatos gwirfoddol a phlanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd coch tatws wedi ei dileu, hysbysiad sy'n cynnwys y drydedd set o fesurau dileu.
6. Y set gyntaf o fesurau dileu yw—
- (a) y mesurau sydd i'w cymryd yn y cae neu'r uned o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ac am o leiaf bedair blynedd dyfu o ddechrau'r flwyddyn dyfu gyntaf er mwyn dileu unrhyw blanhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion tomatos gwirfoddol ac unrhyw blanhigion eraill, gan gynnwys chwyn mochlysaidd, sy'n cynnal Pydredd coch tatws;
  - (b) gwaharddiad ar blannu unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn y cae neu'r uned yn ystod y cyfnod hwnnw—
    - (i) cloron, planhigion neu wir hadau tatws;
    - (ii) planhigion tomatos neu hadau tomatos;
    - (iii) gan ystyried bioleg Pydredd coch tatws, planhigion cynhaliol eraill neu blanhigion o'r rhywogaeth *Brassica* lle ceir risg bod Pydredd coch tatws yn goroesi;
    - (iv) cnydau lle ceir risg o ledaenu Pydredd coch tatws;
  - (c) gofyniad mai dim ond tatws ar gyfer cynhyrchu tatws bwyta y caniateir eu plannu yn y cae neu'r uned yn ystod y tymor cnydio tatws cyntaf yn dilyn y cyfnod hwnnw, ar yr amod y canfuwyd bod y cae neu'r uned yn rhydd rhag planhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion tomato gwirfoddol a phlanhigion eraill sy'n cynnal Pydredd coch tatws, gan gynnwys chwyn mochlysaidd, am o leiaf y ddwy flwyddyn dyfu olynol cyn plannu; a
  - (d) gofyniad bod rhaid cymhwyso cylech cylchdroi priodol yn y tymhorau cnydio tatws neu domatos dilynol, a rhaid i'r cylch hwnnw fod yn ddwy flynedd o leiaf pan fo tatws i'w plannu i gynhyrchu hadau.
7. Yr ail set o fesurau dileu yw—
- (a) y mesurau sydd i'w cymryd yn y cae neu'r uned o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ac am bum mlynedd dyfu o ddechrau'r flwyddyn dyfu gyntaf er mwyn dileu planhigion tatws gwirfoddol a phlanhigion tomatos gwirfoddol a phlanhigion eraill sy'n tyfu'n naturiol, gan gynnwys chwyn mochlysaidd, sy'n cynnal Pydredd coch tatws;
  - (b) gofyniad—
    - (i) yn ystod tair blwyddyn gyntaf y blynyddoedd tyfu hynny, bod y cae neu'r uned yn cael ei gadw neu ei chadw—
      - (aa) yn fraenar;
      - (bb) gyda chnydau grawnfwyd, os yw'r arolygydd wedi ei fodloni nad oes unrhyw risg o ledaenu Pydredd coch tatws;
      - (cc) yn dir pori parhaus gan dorri'r borfa yn fyr neu bori'r tir yn ddwys yn fynych; neu
      - (dd) fel glaswellt ar gyfer cynhyrchu hadau;
    - (ii) mai dim ond planhigion nad ydynt yn cynnal Pydredd coch tatws ac nad oes unrhyw risg y bydd Pydredd coch tatws yn goroesi neu'n lledaenu y caniateir eu plannu yn y cae neu'r uned; a
    - (iii) gofyniad mai dim ond tatws ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta y caniateir eu plannu yn ystod y tymor cnydio tatws neu domatos cyntaf yn dilyn y cyfnod hwnnw.

8. Y drydedd set o fesurau dileu yw—
- (a) gofyniad mai dim ond y planhigion tatws a'r planhigion tomatos a ganlyn y caniateir eu plannu yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad ac am y flwyddyn dyfu gyntaf—
    - (i) tatws hadyd ardystiedig ar gyfer cynhyrchu tatws bwyta;
    - (ii) planhigion tomatos a dyfwyd o hadau sy'n bodloni gofynion Cyfarwyddeb [2000/29/EC](#), ar gyfer cynhyrchu ffrwythau;
  - (b) gofyniad mai dim ond y tatws a ganlyn y caniateir eu plannu yn y flwyddyn dyfu ddilynol gyntaf os yw tatws i'w plannu i gynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta yn y flwyddyn honno—
    - (i) tatws hadyd ardystiedig;
    - (ii) tatws hadyd a brofwyd yn swyddogol ar gyfer absenoldeb Pydredd coch tatws ac a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol mewn man cynhyrchu nad yw'n halogedig;
  - (c) gofyniad mai dim ond y planhigion tomatos a ganlyn y caniateir eu plannu yn y flwyddyn dyfu ddilynol gyntaf os yw planhigion tomatos i'w plannu i gynhyrchu planhigion neu ffrwythau yn y flwyddyn honno—
    - (i) planhigion tomatos a dyfwyd o hadau sy'n bodloni gofynion Cyfarwyddeb [2000/29/EC](#);
    - (ii) os ydynt wedi eu lluosogi yn llystyfol, planhigion tomatos a dyfwyd o hadau sy'n bodloni gofynion Cyfarwyddeb [2000/29/EC](#) ac a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol mewn man cynhyrchu nad yw'n halogedig;
  - (d) yn achos tatws, gofyniad mai dim ond tatws hadyd ardystiedig neu datws hadyd a dyfwyd dan reolaeth swyddogol o datws hadyd ardystiedig y caniateir eu plannu yn y cae yn ystod yr ail flwyddyn dyfu ddilynol ac unrhyw flwyddyn dyfu ddilynol i gynhyrchu tatws hadyd neu datws bwyta;
  - (e) yn achos tomatos, gofyniad mai dim ond planhigion tomatos a dyfwyd o hadau sy'n bodloni gofynion Cyfarwyddeb [2000/29/EC](#) neu, os ydynt wedi eu lluosogi yn llystyfol, planhigion tomatos a dyfwyd o hadau sy'n bodloni gofynion Cyfarwyddeb [2000/29/EC](#) ac a dyfwyd o dan reolaeth swyddogol y caniateir eu plannu yn y cae yn ystod yr ail flwyddyn dyfu ddilynol ac unrhyw flwyddyn dyfu ddilynol ar gyfer cynhyrchu planhigion neu ffrwythau; ac
  - (f) y mesurau sydd i'w cymryd yn y cae o'r dyddiad y ceir yr hysbysiad hyd at ddiwedd y flwyddyn dyfu a bennir yn yr hysbysiad er mwyn dileu planhigion tatws gwirfoddol, ac unrhyw blanhigion sy'n tyfu'n naturiol sy'n cynnal Pydredd coch tatws.
9. Caiff hysbysiad mewn perthynas â man cynhyrchu halogedig—
- (a) ei gwneud yn ofynnol, am gyfnod penodedig, bod rhaid i'r holl beiriannau a chyfleusterau storio yn y man cynhyrchu a ddefnyddir i gynhyrchu tatws neu domatos gael eu glanhau a, phan fo'n briodol, eu diheintio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Pydredd coch tatws;
  - (b) gwahardd unrhyw raglen ddyfrhau neu chwistrellu yn y man cynhyrchu neu bennu sut y mae'n rhaid cynnal unrhyw raglen ddyfrhau neu chwistrellu yn y man cynhyrchu at ddiben atal Pydredd coch tatws rhag lledaenu.
10. Caiff y mesurau y caniateir eu pennu mewn hysbysiad o dan baragraff 5 neu 9 gael eu cynnwys mewn hysbysiad gyda mesurau priodol eraill.

## Mesurau ychwanegol sy'n gymwys mewn perthynas ag unedau cynhyrchu cnwd dan orchudd

11. Pan fo'n bosibl amnewid yr holl gyfrwng tyfu mewn uned gynhyrchu cnwd dan orchudd halogedig, ni chaiff unrhyw berson blannu yn yr uned unrhyw gloron, planhigion tatws na gwir hadau tatws, planhigion tomatos na hadau tomatos na phlanhigion eraill sy'n cynnal Pydredd coch tatws heb awdurdodiad ysgrifenedig arolygydd.

12. Ni chaiff arolygydd roi awdurdodiad o dan baragraff 11 oni bai—

- (a) y cydymffurfiwyd â'r holl fesurau i ddileu Pydredd coch tatws a bennir mewn hysbysiad mewn perthynas â'r man cynhyrchu lle y mae'r uned wedi ei lleoli;
- (b) bod y cyfrwng tyfu yn yr uned wedi ei newid yn llwyr; ac
- (c) bod yr uned a'r holl gyfarpar a ddefnyddir yn yr uned wedi eu glanhau a'u diheintio i ddileu Pydredd coch tatws a symud ymaith yr holl ddeunydd planhigion cynhaliol.

13. Caiff awdurdodiad o dan baragraff 11—

- (a) mewn perthynas â chynhyrchu tatws, bennu mai dim ond tatws hadyd ardystiedig neu gloron bychain neu ficro-blanhigion sy'n deillio o ffynonellau a brofwyd yn swyddogol y caniateir eu defnyddio yn y broses gynhyrchu;
- (b) mewn perthynas â chynhyrchu tomatos, bennu mai dim ond hadau sy'n bodloni gofynion Cyfarwyddeb [2000/29/EC](#) neu, os cânt eu lluosogi yn llystyfol, blanhigion tomatos a gynhyrchwyd o hadau sy'n bodloni gofynion Cyfarwyddeb [2000/29/EC](#) ac a dyfir o dan reolaeth swyddogol y caniateir eu defnyddio yn y broses gynhyrchu;
- (c) gwahardd unrhyw raglen ddyfrhau neu chwistrellu yn y man cynhyrchu;
- (d) pennu sut y mae'n rhaid cynnal unrhyw raglen ddyfrhau neu chwistrellu yn y man cynhyrchu at ddiben atal Pydredd coch tatws rhag lledaenu.

## RHAN B

### Darnodi parthau rheoli Pydredd coch tatws

14. Mae'r Rhan hon yn gymwys pan fo arolygydd wedi darnodi parth mewn perthynas ag achos o gadarnhau bod Pydredd coch tatws wedi ei ganfod o dan erthygl 39(4).

15. Caiff Gweinidogion Cymru bennu, drwy hysbysiad—

- (a) am ba mor hir y mae'r parth i barhau i fod wedi ei ddarnodi;
- (b) y mesurau sy'n gymwys yn y parth sydd wedi ei ddarnodi.

16. Mewn perthynas â hysbysiad o dan baragraff 15—

- (a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;
- (b) rhaid iddo ddisgrifio hyd a lled y parth sydd wedi ei ddarnodi;
- (c) rhaid iddo bennu, mewn perthynas â phob mesur, pa un a yw'n gymwys yn gyffredinol neu i gynhofa dŵr wyneb yn y parth sydd wedi ei ddarnodi;
- (d) rhaid iddo bennu'r dyddiad y mae pob mesur yn cael effaith;
- (e) rhaid iddo gael ei gyhoeddi mewn dull sy'n briodol i'w ddwyn i sylw'r cyhoedd; ac
- (f) caniateir ei ddiwygio, ei atal dros dro neu ei ddirymu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy hysbysiad pellach.

17. Rhaid trin unrhyw fangre sy'n rhannol o fewn parth sydd wedi ei ddarnodi ac yn rhannol y tu allan i barth sydd wedi ei ddarnodi fel pe bai o fewn y parth hwnnw at ddibenion yr Atodlen hon, ac eithrio pan na fo'r rhan sydd y tu allan i'r parth sydd wedi ei ddarnodi yng Nghymru.

18. Mae hysbysiad a gyhoeddir yn unol â pharagraff 16 i'w drin fel pe bai wedi ei gyflwyno i—

- (a) unrhyw feddiannydd neu berson arall sydd â gofal am unrhyw fangre o fewn y parth sydd wedi ei ddarnodi;
- (b) unrhyw berson—
  - (i) sydd â hawl i ddefnyddio unrhyw ddŵr wyneb halogedig;
  - (ii) sydd ag unrhyw ddŵr wyneb halogedig mewn mangre o fewn y parth sydd wedi ei ddarnodi y mae'r person yn ei meddiannu neu â gofal amdani; ac
- (c) unrhyw berson sy'n gweithredu peiriannau neu'n cyflawni unrhyw weithgarwch arall mewn perthynas â chynhyrchu tatws neu domatos o fewn y parth sydd wedi ei ddarnodi.

19. Caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn hysbysiad o dan baragraff 15—

- (a) bod rhaid glanhau a, phan fo'n briodol, ddiheintio unrhyw beiriannau neu storffeydd mewn mangre o fewn y parth sydd wedi ei ddarnodi a ddefnyddir i dyfu, i storio neu i drafod cloron tatws neu domatos o fewn y parth, neu unrhyw fangre o fewn y parth y gweithredir peiriannau o dan gontract ar gyfer cynhyrchu tatws neu domatos ohoni, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy bod Pydredd coch tatws yn goroesi neu'n lledaenu;
- (b) yn achos cynydau tatws, mai dim ond tatws hadyd ardystiedig neu datws hadyd a dyfir o dan reolaeth swyddogol y caniateir eu plannu;
- (c) bod rhaid trafod tatws a fwriedir ar gyfer eu plannu ar wahân i'r holl datws eraill mewn mangre o fewn y parth neu fod rhaid gweithredu system lanhau a, phan fo'n briodol, ddiheintio rhwng trafod tatws hadyd a thatws bwyta;
- (d) yn achos cynydau tomatos, mai dim ond planhigion tomatos a dyfir o hadau sy'n bodloni gofynion Cyfarwyddeb [2000/29/EC](#) neu, os cânt eu lluosogi yn llystyfol, blanhigion tomatos a gynhyrchir o hadau o'r fath ac a dyfir o dan reolaeth swyddogol y caniateir eu plannu;
- (e) ni chaniateir defnyddio dŵr wyneb halogedig ar gyfer dyfrhau na chwistrellu deunydd planhigion penodedig a, phan fo'n berthnasol, blanhigion eraill sy'n cynnal Pydredd coch tatws, heb awdurdodiad ysgrifenedig ymlaen llaw gan arolygydd;
- (f) os yw gollyngiadau gwastraff hylifol wedi eu halogi, rhaid gwaredu unrhyw wastraff o fangre brosesu neu becynnu diwydiannol yn y parth sy'n trafod deunydd planhigion penodedig o dan oruchwyliaeth arolygydd.

20. Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond pennu—

- (a) y mesurau y cyfeirir atynt ym mharagraff 19(a) i (d) pan fo'r parth wedi ei ddarnodi at ddibenion Erthygl 5(1)(a)(iv) o Gyfarwyddeb 98/57/EC;
- (b) y mesurau y cyfeirir atynt ym mharagraff 19(e) ac (f) pan fo'r parth wedi ei ddarnodi at ddibenion Erthygl 5(1)(c)(iii) o Gyfarwyddeb 98/57/EC.



## ATODLEN 17

Erthygl 42(3)

### Gofynion hysbysu

#### Organeddau byw byd yr anifeiliaid

1. *Ditylenchus destructor* Thorne – Llynghyren cloron tatws.
2. *Ditylenchus dipsaci* (Kühn) Filipjev – Llynghyren coesynnau.
3. *Globodera rostochiensis* (Wollenweber) Behrens a *Globodera pallida* (Stone) Behrens – Llyngyr tatws.

#### Bacteria

4. *Clavibacter michiganensis* isrywogaethau *insidiosum* (McCulloch) Davis *et al.* (syn. *Corynebacterium insidiosum* (McCulloch) Jensen) – Clefyd gwywo bacterol Maglys rhuddlas.
5. *Clavibacter michiganensis* isrywogaethau *michiganensis* (Smith) Davis *et al.* (syn. *Corynebacterium michiganse* (Smith) Jensen pv. *michiganse* Dye a Kemp) – Cancr bacterol tomatos.
6. *Erwinia amylovora* (Burr.) Winslow *et al.*, sy'n achosi Malltod tân Roseaceae, mewn ardaloedd a ddynodir yn glustogfeydd sy'n rhydd rhag malltod tân.
7. *Erwinia chrysanthemi* pv. *dianthicola* (Hellmers) Dickey – Clefyd gwywo araf penigan.
8. *Xanthomonas campestris* pv. *vesicatoria* (Diodge) Dye – Brychni bacterol tomatos.

#### Cyptogramau

9. *Didymella ligulicola* (Baker, Dimock a Davis) V. Arx. (syn. *Mycosphaerella ligulicola* Baker *et al.*) – Malltod ffarwelau haf.
10. *Phialophora cinerescens* (Wollenweber) Van Beyma – Clefyd gwywo penigan.
11. *Puccinia horiana* P. Henn. – Rhwd gwyn ffarwelau haf.
12. *Verticillium albo-atrum* Reinke a Berth – Clefyd gwywo Verticillium.
13. *Verticillium dahliae* Klebahn – Clefyd gwywo Verticillium hopys.

#### Firysau a phathogenau sy'n debyg i firysau

14. Firws amryliw Arabis.
15. Firoid arafu twf ffarwelau haf.
16. Firws brech eirin.
17. Firws crwn mafon.
18. Firws crych mefus.
19. Firws crwn cudd mefus.
20. Firws minfelyn ysgafn mefus.
21. Firws crwn du tomatos.
22. Firws gwywo brith tomatos.

## ATODLEN 18

Erthygl 49(1)

## Dirymu Gorchmynion

<i>Gorchymyn</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2006	<a href="#">O.S. 2006/1344 (Cy. 134)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) (Diwygio) 2007	<a href="#">O.S. 2007/2715 (Cy. 228)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2007	<a href="#">O.S. 2007/2716 (Cy. 229)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007	<a href="#">O.S. 2007/3305 (Cy. 292)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2008	<a href="#">O.S. 2008/2781 (Cy. 248)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008	<a href="#">O.S. 2008/2913 (Cy. 257)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2009	<a href="#">O.S. 2009/1376 (Cy. 137)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2010	<a href="#">O.S. 2010/1795 (Cy.171)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010	<a href="#">O.S. 2010/2976 (Cy. 247)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2012	<a href="#">O.S. 2012/3143 (Cy. 315)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2013	<a href="#">O.S. 2013/888 (Cy. 100)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2013	<a href="#">O.S. 2013/2939 (Cy. 287)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2014	<a href="#">O.S. 2014/521 (Cy. 62)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2014	<a href="#">O.S. 2014/1186 (Cy. 115)</a>
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2014	<a href="#">O.S. 2014/2368 (Cy. 231)</a>